JEWEL'S
APOLOGY

WELSH

49. 2079.

49. 2079.

# DIFFYNIAD

# FFYDD EGLWYS LOEGR;

LLE Y CEIR GWELED A GWYBOD

## DOSPARTH GWIR GREFYDD CRIST,

AC

## ANGHYWIRDEB CREFYDD EGLWYS RHUFAIN:

A YSGRIFENWYD GAN Y GWIR DDYSGEDIG A PHARCHEDIG

DAD YN NUW

JOHN JEWEL,

ESGOB SALISBURY.

---

WEDI EI GYFIEITHU O LADIN, YN GYMRAEG, DRWY WAITH

MORUS KYFFIN,

O'R GLASGOED, LLANSILIN.

---

Nid gair ar bob gair ond Gair Duw.

---

Y PEDWERYDD ARGRAPHIAD.

---

LLUNDAIN:

Argraphwyd dros y

GYMDEITHAS ER TAENU GWYBODAETH GRISTIONOGOL;

AR WERTH YN EI LLYFRDY,

GREAT QUEEN STREET, LINCOLN'S INN FIELDS,

4, ROYAL EXCHANGE;

A CHAN BOB LLYFRWERTHWR.

[7734] 1849.

BIBLIOTHECA BODLEIANA

Y sawl a wrthladdant Air Duw, cenfigennu y maent wrth iechyd enaid dyn.—*Sant Asaph, Esgob Llanelwy, yn y flwyddyn* 590.

I'R GWIR URDDASOL A'M CAR ANWYL,

# WILLIAM MEREDYDD.

---

Mi a welaf mai peth arferedig yn yr hen oesoedd gynt ym mhlith y Groegwyr a'r Lladinwyr pennaf eu dysg a'u cymmeriad, ydoedd gwneuthur anrhegion o'u gorchwylion dysgedig i'r sawl oedd nesaf iddynt, a hoffaf ganddynt; fel y gallent, drwy'r cyfryw fodd, adael hyspysrwydd i'r oesoedd a ddelai ar eu hol hwy, am rinwedd a rhyglyddiad y gwŷr hynny rhagor eraill. Nid anghymmwys i minnau ddilyn yr un llwybr wrth osod allan gyfieithiad hyn o addysg, yr hwn yr wyf yn ei orchymyn i'ch nodded. Oblegid, megis nad oes neb byw fwy ei serch a'i ewyllys ar wneuthur mawrles i'ch gwlad na chwi yn unig, felly nid oes neb daearol a haeddai gael hyn gennyf o'ch blaen chwi eich hunan. Ac er mwyn nad amheuthyn gennych ddim a aller ei fyfyrio a'i anrhegu i chwi yn Saesonaeg neu yn Lladin (yn yr hyn ieithoedd y buoch erioed gynnefin â phob rhyw ddysg ac athrawiaeth); hefyd, gan i ni'n dau ddwyn ein byd allan o Gymru, a bod mor anghynnefin i mi ysgrifenu ag yw i chwithau ddarllen dim yn yr iaith Gymraeg; hynny a wnaeth i mi, ydwyf wir Gymro, a gwir Gâr o'r eiddoch, ddewis

eich hannerch a'ch hanrhegu yn Gymraeg, chwaithach nag mewn un iaith arall. Pa Gymro bynnag a gaffo wellhâd dysg, neu gynnyddiad gwybodaeth, oddi wrth y Llyfr hwn, diolched i Dduw yn gyntaf, ac i chwithau yn ail. Ef a ddengys hwn y llwybr i'r anghyfarwydd. A chyda hyn, pettid yn pregethu Efengyl Crist yng Nghymru, fel y gwelsoch chwi a minnau mewn gwledydd eraill, dïau nad oes genhedlaeth yng Nghred a allai ragori ar y Cymry mewn Crefydd a Duwioldeb; gan eu bod hwy o athrylith a naturiaeth yn chwannog i ddysgu pob Rhinwedd a Daioni, ond cael eu dangos a'u deongl iddynt. Ac yna, ni byddai gymmaint câs, cenfigen, brâd, a bwriad drwg, yn eu mysg hwy; lle nid oes yr awr hon, ysywaeth, ddim cyffredinach (medd pawb) nag ymdrechu, ymgyfreithio, ac ymgrafangu, drwy gam, trawsedd, a dygasedd, i ddwyn oddi ar bawb ei eiddo. Etto o'r diwedd, pe cai gwir Grefydd a Gwasanaeth Duw ddechreu ei goledd a'i osod allan yn hylwybr; a gweled unwaith o'r cyffredin bobl fod wynebau a llawnfryd Pendefigion Cymru y ffordd honno, e fyddai bob Cymro barod i studio ac i wrandaw Gair Duw yn ddyfal: a gobeithio, cyn nemawr o ennyd, y ceid gweled ym mysg gwŷr ein gwlad ni lawer pwngc o ddysg, a dawn, a diwydrwydd, a'r ni welwyd hyd yn hyn. Yr hyn beth caniattaed y Goruchaf Dduw iddynt, ac i chwithau lwyddiant a llawenydd wrth fodd

Eich Câr ffyddlonaf,

M. KYFFIN.

# ANNERCH

AT YR

## HAWDDGAR DDARLLENYDD CRISTIONOGOL.

---

DYMA i ti, er lles dy enaid, yn hyn o lyfr, sylwedd a chrynodeb y Ffydd wir Gatholig; i'th hyfforddi a'th berffeithio yn llwybr Gwasanaeth Duw, ac iechydwriaeth dyn. Wrth ddarllen hwn y cei di wybod hanes, a deall gwirionedd, y Grefydd Gristionogol, a chyd â hynny ddangosiad a dadguddiad ammhuredd Crediniaeth Pab Rhufain. Rhoed y Goruchaf Dduw i ti ochel y drwg, a chanlyn y da.

Mi a dybiais yn oreu adael heibio yr hen eiriau Cymreig, y rhai ydynt wedi tyfu allan o gydnabod a chyd-arfer y Cyffredin; ac a ddewisais y geiriau hawsaf, rhwyddaf, a sathrediccaf ag allwn, i wneuthur ffordd yr ymadrodd yn rhydd ac yn ddirwystrus i'r sawl ni wyddant ond y Gymraeg arferedig. Eithr am ryw air angenrheidiol, yr hwn ni ellid dangos mo sylwedd ei rym, na synwyr ei arwyddoccâd yn Gymraeg, fe ddarfu i mi, yn ol arfer yr iaith Saesonaeg, Ffrangaeg, iaith Itali, iaith Spaen, a bagad o ieith-

oedd eraill, gymmeryd y cyfryw air o'r Groeg neu o'r Lladin, yn y modd y mae'n gynnefin gan mwyaf ym mhob gwlad yng Nghred, er ys talm o amser. Nid oes nemawr o'r fath eiriau; ac o'r rhai rheitiaf ti a gei hyspysrwydd a dehongliad ar eu pennau eu hunain, ar ol diwedd hyn o Rag-ddywediad. Er maint fu fy ngofal a'm myfyrdod yn hyn o beth, etto, mi a wnaf gyfrif gael fy marnu a beio arnaf gan ryw fath ar goeg ddynion, y rhai a graffant ar ambell air yma ac accw, ac a ddywedant yn y fan, *Wele, geiriau Seisnigaidd a Lladinaidd ydyw y rhai hyn, yn diwyno y Gymraeg.* Fy atteb i'r rhai hynny ydyw'r ddiareb, *Ni ŵyr, ni welodd, ni ddysg.* Druain gwerin, ychydig a wyddant, llai a welsant, ac nid gwiw sôn am ddysgu iddynt. Myfi a faddeuaf i'r rhai hyn eu hanwybodaeth a'u ffolineb, a gadawaf i rai eraill chwerthin am eu pennau. Hawdd yw gwybod am ryw eiriau Seisnig, nad oes, ac na bu erioed, eiriau Cymreig i'w cael; a hefyd mai geiriau yn dyfod o'r Ffrangaeg yw'r rhan fwyaf o'r rhai y maent hwy yn tybied eu bod yn Seisnigaidd. Ac am y geiriau Lladinaidd, pwy nis gŵyr nad yw'r iaith Gymraeg yn ei herwydd, ddim amgen, onid hanner Lladin drwyddi. Mi allwn, pe bai gennyf hamdden, wneuthur llyfr digon ei faint o'r geiriau Cymreig arferedig, a fenthycciwyd, nid yn unig o'r Lladin a'r Ffrangaeg, eithr o iaith Itali, ac iaith Spaen hefyd: heblaw'r dafod Roeg ac Hebraeg, a'r cyfryw. Rhyw rai diddysg, disynwyr, a ddywedant ddarfod i'r ieithoedd hynny fenthyccio gan y Gymraeg, ac nid yr iaith Gymraeg ganddynt hwy. Nid gwiw mo'r

ymresymu â'r fath ynfydion cynhwynol, namyn eu gadael mewn anwiredd ac oferedd. Yn wir, chwith iawn yw dal sylw ar lawer o Wŷr Eglwysig Cymreig, yn byw ar bris eneidiau dynion, a bagad eraill o Gymry yn cymmeryd arnynt eilun dysg a goruchafiaeth, heb ganddynt fri yn y byd ar iaith eu gwlad, eithr rhuso ei dywedyd, a chywilyddio ei chlywed, rhag ofn isbâu ar eu gradd a'u cymmeriad; heb na medru darllen, na cheisio myfyrio dim a fai â ffrwyth ynddo yn Gymraeg; megys mynnu o honynt i bobl dybied fod cymmaint eu rhagorfraint hwy, na weddai iddynt (f' eneidiau gwynion) ostwng cyn ised ag ymyryd ar ddim addysg Gymreig. Telid Duw iddynt ddäed eu cynneddfau. Am danaf fy hun, mi allaf ddywedyd, er dwyn o honof y rhan fwyaf o'm byd, hyd yn hyn o'm hoes, ym mhell oddi wrth wlad Gymru, etto, wrth fod ym mysg ieithoedd dieithr, a darfod i mi dreulio fy amser a'm hastudrwydd mewn pethau eraill, ni bu fwy fy ngofal ar fyfyrio, a dal i'm cof un iaith, na'r Gymraeg; gan ddymuno allu o honof wneuthur rhyw les i'r iaith a'r wlad lle y'm ganwyd, yn ol athrawiaeth Plato, yr Athraw mawr a Phennadur llawer o Philosophyddion dyfnddysg, yr hwn a ddywedodd, *Ortus nostri partem Patria, partem Parentes vendicant, partem Amici;* sef yw hynny, y mae rhan o'n genedigaeth ni yn ddyledus i'n Gwlad, a rhan yn ddyledus i'n Tadau a'n Mammau, a rhan arall yn ddyledus i'n Hoff-ddynion.

Duw a ŵyr, y buasai yn hawsach i mi o lawer, a hynottach i'm henw, ysgrifenu y cyfryw beth mewn

iaith arall chwaithach nag yn Gymraeg; ond mi a welaf bob peth (onid antur) ym mhob iaith yng Nghred, mor bybyr, ac mor berffaith, drwy ddysg a diwydrwydd gwŷr da, nad rhaid iddynt, yn ei herwydd, wrth ddim ychwaneg. O'r tu arall, prin y gwelaf i ddim (onid Llyfr Gair Duw yn unig) yn y Gymraeg, a dim ffrwyth rhinwedd ynddo, i ddysgu ac i hyfforddi y rhai annysgedig. Doctor William Morgan a gyfieithodd y Bibl drwyddo yn hwyr o amser; gwaith angenrheidiol, gorchestol, duwiol, dysgedig, am yr hwn ni ddichon Cymry fyth dalu a diolch iddo gymmaint ag a haeddodd ef. Cyn hynny, hawdd yw gwybod mai digon llesg oedd cyflwr yr iaith Gymraeg, pryd na cheid clywed fynychaf, ond y naill ai cerdd faswedd, ai ynte rhyw fath arall ar wawd ofer, heb na dysg, na dawn, na deunydd ynddi. O damweiniai i ryw Brydydd, ryw amser, geisio brâs-naddu ychydig dduwioldeb ar gerdd, ef a ballai mewn llawer pwngc eisieu dysg a gwybodaeth; gan hynodi i'r bobl ryw hen chwedl, neu goel gwrach ar gwrr y barth; a hynny wedi ei dynnu allan (y rhan fwyaf) o lyfr Myneich celwyddog gynt, yr hwn a elwid *Legenda Aurea*, ac a ellir ei alw *Traethawd y Celwyddau.* Y mae yn fy meddiant i beth o'r fath gerdd Gymraeg i'w dangos, ac y mae'n dostur iawn gan fy nghalon i feddwl ddarfod twyllo ac anrheithio llawer enaid dyn drwy'r fath erchyll ynfydrwydd. E ddarfuesid cyfieithu y Testament Newydd yng nghylch yr wythfed neu'r nawfed flwyddyn o deyrnasiad ein Harglwyddes Frenhines Elizabeth; ond yr oedd cyfled llediaith, a

chymmaint anghyfiaith yn yr ymadrodd printiedig, na allai clust gwir Gymro ddioddef clywed mo hono yn iawn. Yn nhal y Testament hwnnw, y gwelais i Lythyr duwiol dysgedig at y Cymry, o waith y Gwir Barchedig Dad Richard Esgob Meniw, i'w tywyso hwy i adnewyddiad yr hen Ffydd Gatholig a goleuni Efengyl Crist; yr hwn Lythyr a ysgrifenodd y dywededig Esgob mewn Cymraeg groyw, hyfedr, ymadroddus, a diammeu wneuthur o hono les mawr i bob Cymro a'i darllenodd. Heblaw hynny, mi a welais ddosparth byr ar y rhan gyntaf i Ramadeg Cymraeg a brintiesid er ys talm, yr hwn sydd ddarn o waith dysgedig yng nghelfyddyd Grammadeg, mor buraidd, mor lathraidd, ac mor odidog ei ymadroddiad, na ellir dymuno dim perffeithiach yn hynny o beth. Ni wn i weled etto, na chlywed sôn am ddim amgenach yn Gymraeg, â nemawr o addysg ynddo.

Iulius Cesar yr Amherawdwr cyntaf, er ys mwy na mil a chwe chant mlynedd aeth heibio, a fynegodd yn ei ystori Ladin a elwir Comentari, y ddysg a'r Philosophyddiaeth oedd gan y Druidion ym mhlith y Brutaniaid yn ei amser ef: ond ni choeliaf fi ddigwydd dim sylwedd o'r athrylith a'r athrawiaeth honno i Brydyddion Cymru er ys llawer oes.

Tu ag at am newid trefn a newyddu llwybr ysgrifenyddiaeth Gymreig, drwy ddychymmyg o wŷr ryw fath ddieithr ar lythyrenau ac ysgrifen, bawb ar ei amcan ei hun, a hynny fynychaf heb na rhôl na rheswm; anghymmesur iawn yw'r helynt honno. Os newid llythyrenau sydd raid, cymmwysaf llythyrenau

i'r Gymraeg yw'r elfennau Groeg; hefyd, â'r rhai hynny, medd yr Amherawdwr Iulius Cesar, yr oedd yr hen Frutaniaid arfer o ysgrifenu yn ei amser ef gynt. Ond gan fod y llythyrenau sydd yn arferedig ac yn sathredig ym mhlith y Cymry er ys cyhyd o amser, gwell yw cadw y rhai hynny rhagllaw, na throi y bobl i ddysgu Gwyddor drachefn. Os anweddus yw gorfod dyblu, d, l, f, yn nechreu geiriau, Eistedd-fod o wŷr dysgedig a ddichon drwy awdurdod cyff-redin ddiwygio hynny o fai. Eithr, yn y cyfamser, gormod hyfder mewn un gŵr, pwy bynnag fo, yw rhoi allan math newydd ar lythyrenau ac ysgrifen-yddiaeth, a thybied mai cymhwys i bawb ei ganlyn ef. Hyn a wnaeth i mi ochel newid dim yn y llythyrenau, er bod gennyf amryw ddull ar elfennau gymmaint a chan eraill. Eisieu dysg a duwioldeb, ac nid eisieu llythyrenau i adrodd dysg, sydd ar yr iaith Gymraeg. Nid gwaeth gan y newynog fwyd mewn dysgl bren, nag mewn dysgl arian. Mi a fum mor ddiesgeulus ag a ellais, yn ol trefn ieithoedd dysgedig, ac yn enw-edig iaith Ffraingc ac Itali, ar osod ymadrodd hyn o lyfr yn llyfn ac yn llwybraidd, gan ochel dryg-sain a llediaith (gymmaint dim byth ag allwn) yn ysgrifen-yddiaeth a lleferydd y geiriau; ac fel y gallai Cymro ei ddarllen ef yn rhwydd ac yn rhygyl. O digwydd i ti, ar y cais cyntaf, gyfarfod â pheth anghynnefinder ac anhawsder mewn ystryw a deall rhyw ddywediad neu sentens weithiau, yna darllen di'r man hwnnw drachefn; a pha fynychaf y darllenir ef, hawsach, hawsach fydd ei ddirnad. Hefyd, rhaid i ti wybod, na ellir cyfieithu dim

o iaith arall yn Gymraeg cyn' rhwydded a chyn rhydded ag y dichon un ysgrifenu'r peth a ddychymmygo ac a fynno fo ei hun. Yn y naill, rhaid yw dilyn dywediad a chanlyn cerddediad gŵr arall; yn y llall, mae i ddyn gymmeryd y llwybr a welo fo yn dda, a gwneuthur ei daitha'i waith yr hyn a fynno, ai hir ai byr, ai crych ai llyfn, yr hyn beth a ŵyr pawb dysgedig. Yn ychwaneg, gwybydd ddarfod i mi (yn bennaf dim) beri printio hyn o Draethiad yn y llythyrenau arferediccaf a chydnabyddusaf i'r rhai annysgedig (oddi eithr rhyw fath ar eiriau a dywediadau arbennig yn rhyw fannau o'r llyfr), a rhaid yw cyd-ddwyn âg ambell fai a ddiangodd dan ddwylaw y Printiwr, herwydd nid peth cynnefin yw printio Cymraeg. A chymmesur yw adrodd i ti yn hyn o fan, pa ddialedd a llwyr-gam a wnaeth Gŵr Eglwysig o Gymru mewn Eisteddfod; pan grybwyllwyd am roi cennad i un celfydd i brintio Cymraeg, yntau a ddywedodd, nad cymhwys oedd gadael printio math yn y byd ar lyfrau Cymreig, eithr fe a fynnai i'r bobl ddysgu Saesonaeg a cholli eu Cymraeg; gan ddywedyd ym mhellach, na wnai'r Bibl Cymraeg ddim da, namyn, llawer o ddrwg. Wele, onid rhinweddol a naturiol oedd bod yn Eglwyswr fel hyn? A allai Ddiawl ei hun ddywedyd yn amgenach? Nid digon oedd ganddo ef yspeilio y Cyffredin am eu da daearol, ond ef a fynnai yn gwbl anrheithio eu heneidiau hwy hefyd. Herwydd pwy ni ŵyr mor anmhosibl fyddai dwyn yr holl bobl i ddysgu Saesonaeg, ac i golli eu Cymraeg? ac mor resynol, yn y cyfamser, fyddai colli peth aneirif o

eneidiau dynion eisieu dysg a dawn i'w hyfforddi? Onid tebyg oedd hwn i'r ci yn gorwedd yn y preseb, ni wnai na bwytta gwair ei hun, na gadael i'r ŷch bori ychwaith? Na bo gwell helynt ei enaid ef, nag oedd ei ystyriaeth fo am eneidiau eraill. Dyweded pawb Amen, ac na chlywer byth son am dano. Ond gan fod Llyfr Gair Duw wedi ei Gymreigio a'i brintio, nid gwiw i neb o blant Diawl bellach geisio tywyllu goleuni Cymru, gwnelont eu gwaethaf. Gwaith rheidiol iawn fyddai troi'r Psalmau i gynghanedd Gymreig: nid i gynghanedd Englyn, nac Owdl, na Chywydd, nac i fath yn y byd ar gerdd blethedig; herwydd felly ni ellir troi na'r Psalmau na dim arall yn gywir; eithr i'r fath fesur a thôn cynghanedd ag sydd gymmeradwy ym mhob gwlad a ddiwygiwyd drwy dderbyniad disgleirdeb yr Efengyl; ac fel y gwelir yn y Saesonaeg, Scot-iaith, Ffrangaeg, iaith Germania, iaith Itali, a'r cyfryw; fel y gallo y bobl ganu i gyd ar unwaith yn yr Eglwys, yr hyn beth a fyddai ddifyrrwch a diddanwch nefol iddynt yn y Llan a chartref. Am Englyn, neu Owdl, neu Gywydd, e ŵyr pawb nad cynnefin ond i un dyn ar unwaith ganu'r un o'r rhai hynny. Heblaw hynny, ni wasanaetha tôn yr un o honynt i gerdd ysbrydol uchelfraint; a phe gwasanaethai, etto, cabledd mawr yw cymmysgu cerdd yr Yspryd Glân yn yr un dôn ganiad â cherdd faswedd ofer. Rhaid i'r neb a gychwyno hyn o orchwyl cyssegr, ddeall amryw ieithoedd dysgedig, megys na roddo ef un gair yn y gynghanedd ond a fo gwbl gydsyniol â meddwl yr Yspryd Glân. Pettai

gennyf y seibiant a'r hamdden sydd gan lawer, cyntaf peth a chwannoccaf poen a gymmerwn i arnaf, fyddai tueddu at hyn o waith, ar ol cyd-siarad â Dysgedigion Cymru ynghylch pa ddull a math ar gynghanedd a dybygid oreu a chymesuraf i hyn o dduwioldeb. Yn y cyfamser, Ddarllenydd Cristionogol, dyro groeso i'r llyfr duwiol yma, a droes i o Ladin er mwyn y rhai annysgedig; yn yr hon iaith yr ysgrifenodd yr Esgob Jewel ef, un o'r gwŷr goreu ei ddysg a duwiolaf ei fuchedd a'r a fagwyd erioed dan Gred a Bedydd. Duw a roddo i ti hyfryd gynnydd a chymmorth ym mhob daioni ysprydol. Ac yn ol archiad Crist ein Prynwr, *Yn gyntaf, cais deyrnas Dduw a'i gyfiawnder, a thi a gei bob peth yn ychwaneg* [1]. Bydd wych.

M. KYFFIN,

O dref Llundain, ym mis Hydref, 1594.

[1] Mat. vi. 33.

## EGLURHAD YR CYFIEITHYDD O EIRIAU A ADAWYD GANDDO HEB EU CYMREIGIO.

---

*Secta,* Sect; ymbleidiad.

*Hæresis,* Heresi; gau-grediniaeth am ryw bwngc o Ffydd.

*Hæreticus,* Heretic; y neb a barhao yn gyndyn mewn gau-grediniaeth.

*Schisma,* Scism; ymwahanus ymrwygiad oddi wrth undod a chyttundeb yr Eglwys, drwy ymrafaeliaeth opiniynau.

*Cæremonia,* Seremoni; arfer, neu ddefod eglwysig.

*Diœcesis,* Dioces; rhôl, neu le i ddwyn rhwysg, neu lywodraeth. A'r pryd hyn yr ydys yn cymmeryd y gair i arwyddoccâu yn unig llywodraeth Esgob.

*Apostata,* Gwadwr, ac ymwrthodwr â'r Ffydd.

*Pallia,* Pallau; mantellau, gwisg laes; côp, neu fath ar simwr.

*Bullæ,* Bullau; llythyrau caniattâd, llythyrau gwaharddiad, llythyrau gorchymyniad, a llythyrau esgymmundod, oddi wrth Bab Rhufain.

*Jubilea,* Jubili; [ym mhlith yr Hebreaid] rhyddid, gorphwys, a gollyngdod bob 50 mlynedd. Dynwared yr hyn beth y mae Pabau Rhufain, gan gymmeryd arnynt felly rhoddi cyffredinol faddeuant a gollyngdod.

*Diadema,* Diadem; torch o liain, neu sidan gwyn, y byddai Brenhinoedd gynt arfer o'i gwisgo ar eu pennau. Yr ydys yn cymmeryd *Diadem* (lawer gwaith) i arwyddoccâu coron Brenhin.

*Barbarus,* Barbaraidd; garw, diwybod, hyll, anfoesus, afrywiog, creulawn.

*Ecclesia,* Eglwys. D. S. Oblegid bod achos i son yn fynych o fewn hyn o draethiad, am yr *Eglwys,* rhaid yw deall fod y gair hwn, *Eglwys,* yn cynnwys yr holl rai etholedig gan Dduw; sef, yr holl grediniaid sydd yn barod yn y Nef, a hefyd y rhai byw ar y ddaear hon, o bob gwlad a chenedl, trwy yr holl fyd. Y gynnulleidfa yr hon sydd yn y Nef, a elwir *yr Eglwys orfoleddus;* oblegid darfod iddi yn barod gael gorfodaeth ar ei holl elynion: a'r hon sydd ar y ddaear a elwir *yr Eglwys filwriaethus,* er mwyn (oblegid) ei bod hi etto yn aros yn y cnawd, a bod yn rhaid iddi ymladd, fel milwr, yn erbyn y byd, y cnawd, a'r cythraul.

*Ecclesia Primitiva;* Y Brif-Eglwys, neu'r gynfam Eglwys, neu'r Eglwys gyntaf.

## YR AWDWR A'R CYFIEITHYDD.

---

JOHN JEWEL a anwyd Mai 24ain, 1522, yn Buden, ym mhlwyf Berry Nerber, yng ngogledd-dir Dyfnaint [*Devonshire*]. Cafodd ei ddygiad i fynu yng Ngholeg Corpus Cristi, Rhydychain. Yr oedd yn enwog o barth mwyneidd-dra, purdeb ymarweddiad, duwioldeb, a dysgeidiaeth.

Pan esgynodd y Frenhines MARI i'r orsedd, ciliodd i'r Allmaen; ond cynted ag y daeth ELIZABETH i'r orsedd bu iddo ddychwelyd yn ol. Yn y flwyddyn 1560, gwnaed ef yn Esgob Salisbury. Argraphwyd ei DDIFFYNIAD yn 1562. Bu farw Medi 22ain, 1571.

---

MORUS KYFFIN, Cyfieithydd DIFFYNIAD yr Esgob Jewel, oedd ail fab i Richard Kyffin, Yswain, o'r Glasgoed, ym mhlwyf Llansilin, sir Ddinbych. Dyddiodd ei Ragymadrodd i'r Cyfieithiad yn Llundain, yn mis Hydref, 1594. Cyhoeddwyd Ail Argraphiad o'r Gwaith yn Rhydychain yn y flwyddyn 1671, o dan ofal Charles Edwards, Awdwr Hanes y Ffydd; a Thrydydd Argraphiad o'r Gwaith a gyhoeddwyd, yn y Bala, yn y flwyddyn 1808, gan y

Diweddar Barchedig Thomas Charles, A.B., Awdwr y Geiriadur Ysgrythyrol.

Y Dr. William Owen Pughe, yn y *Cambrian Biography*, a eilw Morus Kyffin wrth yr enw "Y CYFIEITHWR HOEW-WYCH:" a phan ofynwyd i Iolo Morganwg, yn Eisteddfod Caerfyrddin, yn 1819, "Pa gyhoeddiad a ystyriai efe fel yn safon yr iaith Gymraeg?" attebai yn ddibetrus, "Cyfieithiad Morus Kyffin o DDIFFYNIAD yr Esgob Jewel."

# HER YR ESGOB JEWEL.

Pe medrai unrhyw Wr dysgedig o blith ein holl Wrthwynebwyr, neu pe medrai yr holl Ddysgedigion ag sydd yn fyw, ddwyn unrhyw ymadrodd digonol allan o ryw hen Athraw neu Dad Catholig, neu allan o ryw hen Gymmanfa Gyffredinol, neu allan o Lân Ysgrythyrau Duw, neu unrhyw siampl o eiddo y Brif-Eglwys, drwy yr hyn y gellid profi yn eglur ac amlwg—Fod unrhyw Offeren neillduol yn yr holl fyd yr amser hwnnw, dros ystod chwe chan mlynedd ar ol Crist; neu, fod unrhyw Gymmun y pryd hynny yn cael ei weinyddu i'r bobl dan un rhyw; neu, fod gan y bobl y pryd hynny eu Gweddïau cyffredin mewn iaith ddïeithr yr hon ni ddeallent; neu, y gelwid Esgob Rhufain y pryd hynny yn Esgob Cyffredinol, neu yn Ben yr Eglwys Gyffredinol; neu, y dysgid y bobl y pryd hynny i gredu fod Corph Crist yn wirioneddol, sylweddol, cnawdol, neu anianol yn y Sacrament; neu fod, neu y gall fod, ei Gorph Ef, mewn mil o fannau, neu ychwaneg, ar unwaith; neu, y daliai yr Offeiriad y pryd hynny y Sacrament goruwch ei ben; neu, y byddai'r bobl y pryd hynny yn syrthio i lawr ac yn ei addoli âg anrhydedd duwiol; neu, y byddai y Sacrament y pryd hynny yn cael, neu y dylai gael yn awr, ei grogi dan orchuddlen; neu, nad oes yn aros yn y Sacrament, ar ol adrodd geiriau'r

Cyssegriad, ddim ond y damweiniau ac ymddangosiadau, heb sylwedd Bara a Gwin; neu, y byddai'r Offeiriad y pryd hynny yn dosparthu'r Sacrament yn dair rhan, ac wedi hynny yn derbyn y cwbl ar ei ben ei hun; neu, fod pwy bynnag a ddywedasai mai ffugyr, gwystl, arwydd, neu goffadwriaeth o Gorph Crist yw y Sacrament, wedi cael o'r herwydd ei farnu yn Heretic; neu, ei bod yn gyfreithlawn y pryd hynny i gael dywedyd deg-ar-hugain, ugain, pymtheg, deg, neu bump o Offerenau mewn un Eglwys yn yr un diwrnod; neu, y gosodid delwau y pryd hynny i fynu yn yr Eglwysi er mwyn i'r bobl eu haddoli; neu y gwaherddid i'r bobl leyg y pryd hynny ddarllen Gair Duw yn eu hiaith eu hun: pe medrai neb dyn byw brofi unrhyw rai o'r Erthyglau hyn drwy unrhyw ran neu ymadrodd eglur ac amlwg, naill ai o'r Ysgrythyrau, neu o'r hen Athrawon, neu o unrhyw hen Gymmanfa Gyffredinol; neu drwy unrhyw siampl o eiddo y Brif-Eglwys; addewais y pryd hynny yr ildiwn, ac y cydsyniwn âg ef.—*O'r Bregeth a draddodwyd gan yr Esgob Jewel wrth Groes Paul, ar* 1 *Cor.* xi. 23, *&c. ar y* 30*ain o Fawrth*, 1560.

# Y CYNNWYSIAD.

## PENNOD I.

TUDAL.

Am y wir Grefydd a arddelwir ac a broffesir yn Eglwys Loegr, ynghyd â hanes byr o'r gwrthwynebiad a gafodd y Gwirionedd a gwir Grefydd yn mhob oes . . . . . . . . 1

## PENNOD II.

Am yr Athrawiaeth a dderbyniwyd yn Eglwys Loegr . . . . 16

## PENNOD III.

Yn cynnwys profiadau amlwg o'r achosion paham, ac o ba le, y cododd Heresiau, neu âu grediniaethau yn yr Eglwys, ynghyd â sylwadau ar bob math o honynt ym mhob rhyw bryd . . 33

## PENNOD IV.

Yn cynnwys hanes am lywodraeth, bucheddau, a moesau y Pabau a Phabyddion, y rhai a fynnent eu bod yr unig Ben ac aelodau yr Eglwys Lân Gyffredinol, neu Gatholig . . . . . 44

## PENNOD V.

Ynghylch yr Attebion a'r Gwrthebion allan o'r Tadau a'r Cym-manfa-Gynghorau . . . . . . . . . . . 76

## PENNOD VI.

Ynghylch Awdurdod Cymmanfa-Gynghorau, y Pab, a Phennaduriaid Lleyg, ac ynghylch Adferiad y Brif-Grefydd . . . . 96

Y DIWEDDGLO . . . . . . . . . . . . 130

## DIFFYNIAD

# FFYDD EGLWYS LOEGR.

---

## PENNOD I.

*Am y wir Grefydd a arddelwir ac a broffesir yn Eglwys Loegr, ynghyd â hanes byr o'r gwrthwynebiad a gafodd y Gwirionedd a gwir Grefydd ym mhob oes.*

I. Hir a hen yw'r cwyn er yn amseroedd cyntaf y Patrieirch a'r Prophwydi, wedi ei gynnal drwy ysgrifeniadau a thystiolaethau pob oes, fod y *Gwirionedd* yn crwydro fel estron yn y byd hwn, ac ymhlith ei anghydnabod, yn hawdd iddo gael gelynion, a chamgyhuddwyr[1]. Yr hyn beth er na choelia rhyw rai ysgatfydd (od oes rai ni ddaliasant graff sylw arno), yn gymmaint a bod holl rywiogaeth dyn, o wir naturiaeth, ac o'i waith ei hunan, heb athraw, yn ymgais â'r *Gwir;* a Christ ein Prynwr, pan oedd Ef yn byw ym mysg dynion, yn mynnu ei alw y Gwirionedd, megis enw cymhwysaf iddo, i ddangos ac i ddeongli ei holl nerth duwiol: nyni er hynny, y sawl a ymarferasom â'r Ysgrythyrau Glân, ac a ddarfu i ni ddarllen a gweled, beth a ddamweiniodd i bawb duwiol agos ym mhob amser; i'r Prophwydi, i'r Apostolion, i'r Merthyron sanctaidd, i Grist ei Hun; pa fodd y

[1] Tertul. in Apologetico.

rhegwyd, y goganwyd, ac y cablwyd hwy, yn unig er mwyn y *Gwir;* ydym yn cydnabod nad ydyw hyn yr un o'r ddau nac yn beth newydd, nac yn anhawdd ei goelio, eithr o ddechreuad byd yn gymmeradwy ac yn arferedig. Ië, rhyfeddach o lawer, ac anhawsach ei goelio fyddai, ped fai tad y celwyddau a gelyn pob gwirionedd, y cythraul [2], yr awrhon yn y diwedd, ac yn ddisymmwth wedi newidio ei hen gyfrwysdra, gan obeithio allu o hono mewn modd amgenach na thrwy ddywedyd celwydd, orchfygu'r *Gwir;* neu geisio o hono yr awrhon gadarnhâu ei deyrnas drwy ddichellion eraill ac amgen nag a arferasai efe erioed hyd heddyw.

Canys er pan oes côf am ddim, braidd y medrwn gael un amser, nac wrth gynnydd cyntaf y Ffydd, nac yn ei gwastadfod [3], na chwaith ym mhryd ei hadgyfodiad, yn yr hyn ni wnawd llwyr-gam trahaus â'r Gwir ac â Gwirionder. Herwydd dïau fod y diafol yn gweled nad dïogel iddo ef, ac na ddichon gadw'r eiddo tra fo'r Gwir mewn dïogelwch.

II. Am hynny, pe rhoem na chrybwyllem am yr hen Batrieirch a'r Prophwydi, y rhai ni threiglasant un darn o'u heinioes yn rhydd oddi wrth gam-ogan a dychan: nyni a wyddom ddarfod i rai yn yr amseroedd gynt, ddywedyd a phregethu yn gyffredinol, fod yr hen Iuddewon, y rhai nid ammheuwn nad oeddynt addolwyr yr unig a'r Gwir Dduw, yn addoli naill ai hwch ai asyn yn lle Duw; ac nad ydoedd eu holl Grefydd hwy ddim amgen onid erchyll ddirmyg a diystyrwch ar bob duwiolaeth [4]. Ni a wyddom pan oedd Mab Duw a'n Prynwr Iesu Grist yn dysgu y Gwir i ddynion, gael o hono Ef ei gymmeryd yn hudol, yn gyfareddwr, yn Samaritan, yn Beelzebub, yn dwyllwr y bobl, yn feddwyn, ac yn fwyttawr [5].

A phwy ni ŵyr beth a ddywedwyd gynt am St.

[2] Ioan viii. 44.  [3] Sef, pan oedd gwedi ei sefydlu.
[4] Tacitus. Tertul. in Apolog. cap. 16. C. Plinius.
[5] Ioan viii. 48. Mat. xi. 19.

Paul, ydoedd awchusaf bregethwr a diball gynhaliwr y Gwir, fod o hono weithiau yn ddyn blin cyffröus, yn codi terfysg, ac yn gwneuthur gwrthryfel; weithiau ei fod ef yn Heretic; weithiau yn ynfyd; ac weithiau eraill, o wir gynhen a chyndynrwydd, yn cablu Cyfraith Dduw, ac yn dirmygu deddfau yr hen Dadau[6]. Hefyd, pwy ni ŵyr pa fodd y gwnaethpwyd â St. Stephan, yr hwn pan ddarfu iddo, â llawn ac â llawen enaid, gofleidio'r Gwirionedd, a dechreu o hono ef, fel y dylai, ei bregethu yn hylwybr, a'i osod allan yn ddihafarch, efe a alwyd yn y fan i gymmeryd barn am ei hoedl, megis un a ddywedasai drawsder a thrahâ yn erbyn y Gyfraith, yn erbyn Moses, yn erbyn y Deml, ac yn erbyn Duw[7]? Neu, pwy nis gŵyr fod rhai yn yr amseroedd gynt a röent ogan, gan ddywedyd fod oferedd yn yr Ysgrythyr Lân, a'i bod yn cynhwys pethau amlwg amrafaelus, ac yn gwrthwynebu eu gilydd; a bod Apostolion Crist bob un yn ymryson â'r llall, a Phaul yn anghymmod â hwy i gyd[8]? Ac er nad adroddom y cwbl (herwydd hynny fyddai anniben), pwy ni ŵyr pa wawd a gwaradwydd a wnaed am ben ein teidiau ni, y rhai a ddechreuasant gyntaf gyd-addef a chymmeryd arnynt Enw Crist, gan haeru arnynt gyd-fwriadu wrthynt eu hunain, ac ymgynghori yn ddirgel yn erbyn ystâd y deyrnas; ac o ran hynny eu bod hwy yn mynych gyfarfod cyn lliw dydd, yn y tywyllwch, i ladd plant ieuaingc, i ymlenwi â chig dynion, ac ar ddull anifeilaidd i yfed eu gwaed. Yn y diwedd, fod eu harfer o ddiffoddi'r canwyllau, a gwneuthur godineb yn eu mysg eu hunain[9], a gwarthus aflendid y naill â'r llall, brodyr yn gorwedd gyd â'u chwïorydd, meibion gyd â'u mammau, heb berchi gwaed na charennydd; heb ganddynt ddim math ar Grefydd, na dim meddwl am Dduw, câs elynion rhywiogaeth dyn; na ddylent gael gweled goleu'r dydd, na ddylent gael byw yn y byd[1]?

[6] Act. xxvi. [7] Act. vi. Epiphanius.
[8] Marcion ex Tertulliano, Ælius e Lactant. [9] Llosgach.
[1] Eusebius lib. v. c. 1. Tertul. in Apolog. cap. 1, 2, 3, et 7, 8, 9.

III. Yr holl gamweddau hyn a haerwyd gynt ar dylwyth Dduw, ar Grist Iesu, ar Paul Apostol, ar Stephan, ar bawb o'r sawl bynnag yn y dechreuad a dderbyniasent wirionedd yr Efengyl, ac oeddynt foddlawn adael eu henwi yn Gristionogion, yr hwn ydoedd enw digon atgas y pryd hwnnw ymhlith y cyffredin; ac er nad oedd y pethau hyn yn wir, etto yr oedd y diafol yn tybied mai digon fyddai iddo ef allu peri coelio eu bod hwy yn wir, a chashâu o bawb y Cristionogion, a cheisio eu dihenydd yn hollawl. Am hynny, wedi gyrru'r fath chwedlau a'r rhai'n ym mhennau Brenhinoedd a Thywysogion, hwythau a laddasant Brophwydi Duw, heb adael i'r un ddiangc: Esaiah a farnwyd i'w ladd â llif; Ieremiah â chèrrig; Daniel ymhlith llewod; Amos â throsol haiarn; Paul â chleddyf; a Christ ar y Groes; a bwriwyd yr holl Gristionogion i garcharau, i boenau tostion, i grogbreniau; i'w taflu bendra-mwnwgl i lawr o gribau creigiau, o fannau uchel, ac o flaenau gelltydd: i'w difa a'u llarpio gan anifeiliaid gwylltion; i'w llosgi; a gwnaed tanllwythi mawrion o dân o'u cyrph byw hwy, yn unig er rhoddi goleuad liw nôs, ac o wir watwarwch arnynt: heb wneuthur bri amgenach o honynt, nag o'r sorod gwaethaf, llysnafedd bryntaf, a phethau gwatwargerdd yr holl fyd. Llyma, fel y gwelwch, y triniwyd yn wastadol athrawon ac addefwyr y Gwir.

IV. O herwydd paham, nyni, y sawl a gymmerasom arnom gael a chyfaddef Efengyl Crist, a ddylem fod yn hanner-cwynach gennym os trinir ni yn yr un modd ar yr un achos: a'n bod ni heddyw, fel ein tadau gynt, yn cael ein herlid â gogan, ymserthiadau, ac â chelwyddau: a hynny, nid trwy haeddedigaeth o'r eiddym ein hun, eithr yn unig am ein bod yn adrodd ac yn addef y Gwir.

V. Yr ydys yn llefain yn groch arnom heddyw ym mhob man. 1. Ein bod ni i gyd yn Hereticiaid, ddarfod i ni ymwrthod â'r Ffydd, a thrwy goel newydd ac athrawiaeth annuwiol, wahanu cyfundeb yr Eglwys. 2. Ein bod ni yn dwyn drachefn ac yn adgyfodi o uffern

yr hen Heresiau a farnesid ac a fwriesid er ys llawer o amser: a'n bod ni yn gosod allan Sectau[2], ac yn hau gwreichion llid a chynhenau, na chlywyd erioed o'r fath: fod o honom eisoes wedi ein gwahanu yn bleidiau, ac yn argoeliadau gwrthwyneb i'w gilydd, a methu gennym erioed etto, mewn modd yn y byd, gyttuno yn ein mysg ein hunain. 3. Ein bod ni yn ddynion melldigedig, ac, fel y Cawri gynt, yn rhyfela yn erbyn Duw ei Hun; a'n buchedd, heb na bri na gofal am Dduw. 4. Ein bod yn dirmygu pob gweithred dda: nad oes gennym na dysg, na dawn rhinwedd, na chyfreithiau, na moesau, ac nad ŷm yn gwneuthur ystyried am ddeddfolaeth, nac am drefn, nac am uniawnder, nac am gyfiawnder: ein bod ni yn gollwng y ffrwyn i bob diffeithwch, ac yn annos y bobl i bob math ar ryddid ac anlladrwydd. 5. Ein bod ni yn bwriadu, ac yn ceisio bwrw i lawr fraint Llywodraethwyr a Brenhinoedd, fel y gellid ymchwelyd y cwbl dan reoledigaeth yr anwadal gyffredin, a'r gynnulleidfa annysgedig. 6. Ddarfod i ni gilio mewn cynhwrf a therfysg oddi wrth yr Eglwys Gatholig, ac i ni o achos Sism cythreulig[3], wneuthur amrafael a blinder drwy'r holl fyd; a thrwy gyffro a thrallod, aflonyddu heddwch cyffredinol a thangnefedd gwastadol yr Eglwys: a megis y gwnaeth Dathan ac Abiram gynt â Moses[4] ac âg Aaron, felly ddarfod i ninnau heddyw ymadaw ac ymneillduo oddi wrth Bab Rhufain, heb achos cyfiawn yn y byd. 7. Nad ydym yn gwneuthur dim bri o awdurdod yr hen Dadau a'r hen Gymmanfa-Gynghorau o'r amseroedd gynt: ddarfod i ni, o wir falchder ac afreoldeb, ddileu y Seremonïau[5] sanctaidd oeddynt deilwng a chymmeradwy gan ein tadau a'n teidiau er ys llawer can mlynedd, pan oedd cynheddfau dynion yn dda, a'r byd hefyd yn well nag ydyw yr awrhon. A darfod i ni, yn ddifaddeu, o'n hawdurdod

[2] Cam-bleidiau.
[3] Ymwahanus ymrwygiad oddi wrth y weledig Eglwys.
[4] Num. xvi.
[5] Arfer, neu ddefod Eglwysig.

neillduol ein hunain, heb farn cyssegr Gymmanfa-Gynghor benrheithiawl, ddwyn i mewn i'r Eglwys ddefodau newyddion; a gwneuthur o honom hyn i gyd, nid o ran Crefydd, eithr o wir awydd i amrafael. Ond tuag at am danynt eu hunain, dywedyd y maent eu bod hwy heb gyfnewid dim, eithr yn cadw ac yn cynnal er ys llawer oes hyd heddyw, bob peth yn yr un modd ag y darfuasai i'r Apostolion eu rhoddi, ac i'r hen Dadau gynt eu harfer.

VI. A rhag tybied wneuthur hyn o drin yn unig er câs a cham-ogan arnom, a bod o wir genfigen wrthym, yn hau hyn mewn conglau a chilfachau, fe a ddarfu i Babau Rhufain yn ffyrnig iawn ddenu dan law wŷr digon cymhen, ac nid annysgedig ychwaith, i gynnorthwyo yr achos efrydd hwn, gan ei drwsiadu a'i osod allan mewn llyfrau a hir-ymadroddion, megis drwy'r fath gymhendod a godidowgrwydd iaith, y gellid peri i ddynion annysgedig ammeu fod rhyw beth mawr yn yr achos.

Yn wir, hwy a wybuant fod eu masgnach ym mhob man yn myned i lawr, fod pawb yr awrhon yn gweled eu dichellion ac yn gwneuthur llai o fri am danynt; fod eu cymhorth beunydd yn egwanhau, a bod arnynt anghenrhaid am ddadleuydd ym mhlaid eu hachos. O'r pethau y maent yn eu haeru arnom ni, llawer sy gelwyddau dybryd, ac felly wedi cael eu gadael, a'u bwrw ym marn y rhai a'u dywedasant; a rhyw fath ar bethau, er bod o honynt yn gelwyddau hefyd, etto mae'r fath liw a llun gwirionedd arnynt, ag y bydd hawdd maglu a siomi'r darllenydd anghyfarwydd ynddynt; ac yn enwedig wrth ddarllen cymbleth a chymhendod eu hymadrodd hwy. Ond rhyw bethau eraill a'r y maent yn eu dywedyd am danom, ydynt o'r cyfryw destun, na ddylem na'u gwrthod na'u gwadu megis camweddau, eithr eu haddef a'u cymmeryd arnom fal gweithredoedd iawnus a chyfiawnus, o wir ystyriaeth. Canys, o ddywedyd y gwir ar fyr eiriau, goganu y maent hwy y cwbl ynom ni; ïe, y pethau ni allent wadu eu hunain nad ydynt uniawn a

gweddaidd, a megis na bae dim yn ei wneuthur na'i adrodd gennym ni yn iawn, y maent o fwriad drwg, yn goganu yr holl eiriau a gweithredoedd o'r eiddom.

Cymhwys a fuasai cymmeryd llwybr uniawnach, a myned yn hawddgarach i weithio, od ydoedd yn eu bryd hwy ganlyn gwirionedd. Eithr yr awrhon, fel rhai nid gwaeth ganddynt am wirionedd, nag am foddion ac arferau Cristionogaidd, gosod arnom yn ffelddirgel y maent, ar fedr ein gwrthladd drwy nerth celwyddau, dan gam-droi dallineb ac anghyfarwyddyd y bobl, a hefyd anwybodaeth Tywysogion, i'n cashâu ni, ac i orthrechu y Gwir. Dyma, wele, alluogrwydd y tywyllwch a galluogrwydd gwŷr yn rhoi mwy hyder ar hurtrwydd y gynnulleidfa anwybodol, ac ar y tywyllwch, nag yn y Gwir a'r Goleuni. A rhai, fel y mynegodd St. Ierom, yn dywedyd yn amlwg yng ngwrthwyneb y Gwir; ac yn cau eu llygaid, o wir gwaith oddeu [6], rhag gweled.

Eithr ni a ddïolchwn i'r goreu a'r Goruchaf Dduw fod gystal a chyfryw ein hachos ni, yn erbyn yr hyn ni allent, pan oeddynt fwyaf eu hawydd, ddywedyd dim gogan, a'r nas gallent yn yr un modd ei droi yn erbyn yr hen Dadau sanctaidd; yn erbyn y Prophwydi; yn erbyn yr Apostolion, yn erbyn Petr, yn erbyn Paul, ac yn erbyn Crist ei Hun.

VII. Gan hynny, os rhydd iddynt hwy fod yn ffraeth ac yn gymhen i ddywedyd drygioni, nid cymhwys i ninnau fod yn fud i wneuthur gwir atteb ym mhlaid ein hachos sy ragorol o ddaioni; herwydd campau dynion difraw eu buchedd, ac o wir ddiofalwch ac annuwioldeb yn cau eu llygaid wrth wneuthur cam âg Enw Duw, ydyw bod yn ddifraw ganddynt beth a ddyweder am danynt eu hun a'u hachos, pe rhoem ei fod yn anwir ac yn gam-ogan, ac yn enwedig pan fae o'r cyfryw destun, ag yn yr hyn y gorthrechid goruchfawredd Duw, a braint Crefydd. Canys er gallu o ddyn llariaidd Cristionogawl gyd-

[6] Yn wir fwriadol.

ddwyn, a bod heb gymmeryd arno gael rhyw gam arall mawr, lawer gwaith; etto y neb ni chymmero arno wybod y gogan a gaffo o ran Heresi, *Ni ddichon hwnnw,* medd Ruffinus, *fod yn Gristion.* Oblegid paham, ni a wnawn ninnau yr awrhon y peth y mae pob cyfraith a gwir leferydd naturiaeth yn ei erchi, a'r peth a wnaeth Crist ei Hunan yn y cyffelyb achos, pan ymserthwyd [7] âg Ef, fel y gallom fwrw heibio oddi wrthym eu camgyhuddiad goganllyd hwynt, ac amddiffyn yn gywir ac yn gymmedrol ein hachos a'n gwiriondeb ein hun. Canys pan ydoedd yr Iuddewon yn cyhuddo Crist o swyngyfaredd, megis fod cymdeithas rhyngtho Ef a chythreuliaid, a thrwy eu cynnorthwy hwy fod o hono Ef yn gwneuthur llawer o bethau; *Nid oes,* eb Efe, *gennyf gythraul, ond yr wyf yn perchi fy Nhad, ac yr ydych chwithau yn fy ammherchi Innau* [8]. A phan watwarwyd Paul, megis dyn ynfyd, gan Ffestus y Rhaglaw: *O ardderchoccaf Ffestus,* eb efe, *nid wyf fi yn ynfyd, fel yr wyt ti yn tybied; eithr geiriau gwirionedd a phwyllineb yr wyf yn eu hadrodd* [9]. A'r hen Gristionogion gynt pan gamgyhuddid hwy ger bron y bobl, o gelanedd, godineb, a llosgach [1], a'u bod hwy hefyd yn gwneuthur terfysg ymhlith y cyffredin: hwythau pan welsant y gellid, trwy'r fath ogan, ddwyn mewn ammeu ac argywedd [2] y Grefydd yr hon yr oeddynt yn ei haddef; yn enwedig os cymmeryd arnynt dewi a wnaent, a hanner cyfaddef y camweddau hyn; rhag ofn i hynny rwystro ac afrwyddo ffordd yr Efengyl, hwy a wnaethant areithiau, ac a ysgrifenasant lyfrau a llythyrau-ymbil, gan ufudd attolwg i'r Amherodrau ac i'r Tywysogion ar gael o honynt eu hamddiffyn eu hunain a'u cymdeithion yng ngolwg ac ar osteg y byd [3].

VIII. Ond gan i lawer miloedd o'n brodyr ni, o fewn yr ugain mlynedd yma, ddwyn tystiolaeth i'r

[7] Ymsennu. [8] Ioan viii. 49. [9] Act. xxvi. 25.
[1] Erchyll aflendid. [2] Niweid.
[3] Quadratus, Justinus, Melito, Tertul. aliique.

Gwir, a hynny mewn dirfawr boenau o'r tostaf a'r a ellid eu dychymyg; a chan i Benrheithiaid, trwy fwriadu llawer ffordd, etto fethu o'u hamcan er attal cynnydd yr Efengyl, a bod agos yr holl fyd yr awrhon yn dechreu agor eu llygaid i weled y goleuni; ni a allwn wneuthur cyfrif ddarfod i'n hachos ni er ys dyddiau gael digon o ddadleuad a diffyniad; ac o ran bod yr achos mor eglur loyw yn dywedyd drosto ei hun, nad rhaid i ni bellach wrth ychwaneg o eiriau. Canys pe bae Pabau Rhufain yn mynnu, neu yn medru, meddylio wrthynt eu hunain am holl gyflwr yr achos, ac am ddechreuad a chynnyddiad ein Crefydd ni, pa fodd, yn eu herwydd, y drwg-dycciodd, ac y methodd, eu holl fasgnach hwy, heb neb yn gwahardd iddynt, nac yn gwrthladd yr eiddynt: o'r tu arall, pa fodd y llwyddodd ac y cynnyddodd ein hachos ni o'r dechreu, drwy anfodd Amherodrau, drwy anfodd Brenhinoedd, er gwaethaf Pabau Rhufain, a chan mwyaf heb ddïolch i bawb; pa wedd, fesur ychydig yr amlhâodd ein Crefydd ni ym mhob gwlad, ac y daeth yn y diwedd i lysoedd a phlasau Brenhinoedd: mi a dybygwn y dylai hyn i gyd hynodi ac arwyddoccâu iddynt fod Duw ei Hun yn ymladd yn ein plaid ni, ac yn chwerthin o'r nef am ben eu hamcanion hwy; a bod cymmaint grym y Gwir, na ddichon na nerth dynion, na phyrth uffern, mo'i ddadwreiddio. Herwydd nid ydynt heddyw ynfydion i gyd, cynnifer o ddinasoedd rhyddion, o Frenhinoedd, o Dywysogion, a'r a giliasant oddi wrth orseddfa Rhufain, ac yn hytrach a ymgyssylltiasant âg Efengyl Crist.

IX. Ac er na bu hyd heddyw hamdden na seibiant gan Babau Rhufain, i fanwl ystyrio ac i astud feddylio am y pethau hyn, neu er bod yr awrhon ryw ofalon eraill yn llestair iddynt neu yn gwasgu arnynt; neu eu bod hwy yn tybied mai diystyr ac anghyfaddas ydyw i radd a goruchafiaeth y Pab fyfyrio ar fath fân bethau cyffredinol: etto nid yw hynny reswm paham y dylai ein hachos ni gael tybied yn waeth o hono. Neu os hwy, ysgatfydd, ni fynnent weled y peth y

maent yn ei gwbl ganfod, namyn gwrthwynebu y GWIRIONEDD amlwg, a ddylem ni gan hynny gael ein gadael a'n galw yn Hereticiaid, o ran nad ydym yn rhyngu bodd ac yn ymufuddhâu i'w hewyllys hwy? Pe ni buasai'r Pab Pius [4], yr un o'r ddau, na'r fath un ag y mae efe mor ddirfawr yn chwennychu ei gyfrif, na'r fath un chwaith a'n cymmerasai ni fel ei frodyr, neu o'r hyn lleiaf, fel dynion, efe a wrandawsai ac a fynnasai holi ein haddefod a'n hattebion, beth yr oeddym yn ei ddywedyd, a pheth a ellid ei ddywedyd yn ein herbyn, ac nid mor ebrwydd trwy gam-dyb, barnu a bwrw yn euog (yn ei lythyr o esgymmundod dan lun Cymmanfa-Gynghor) y rhan fwyaf o'r byd, gynnifer o ddynion dysgedig duwiol, gynnifer o Lywodraethau cyffredin, o Frenhinoedd, o Dywysogion, a hynny heb wrando ein hachos, na gwybod paham.

X. Ond gan iddo fel hyn ein gwneuthur yn hynod i'r byd, rhag ein cymmeryd yn euog os tewi a wnawn, ac yn enwedig gan na chawn, er modd yn y byd, gael ein gwrando mewn Cymmanfa-Gynghor gyffredin, lle ni fyn y Pab fod yn rhydd i neb byw gael adrodd ei feddwl, eithr i'r rhai a dyngant ac a ymrwymant ar gadw ei oruchafiaeth ef; o'r hyn beth ni a gawsom ormod hysbysrwydd oddi wrth y Gymmanfa-Gynghor ddiweddaf a gynhaliwyd yn nhref Trent, lle y caewyd allan o'r Gymmanfa Genhadau urddol a Difinyddiaid [5] y Tywysogion a'r Dinasoedd rhyddion o Germania. Ni allwn ni ychwaith etto ollwng dros gôf ddarfod i Iulius y Trydydd, Pab o'r enw, er ys mwy na deng mlynedd, wahardd mewn ysgrifen arbennig, yn anad dim, na chae neb o'n Ffydd ni ei wrando yn y Gymmanfa-Gynghor, oddi eithr ryw fath ddyn, ysgatfydd, a ymadawai ac a ddatdroai oddi wrth ei Grefydd. Am hynny yn bennaf dim, y gwelsom yn dda adrodd mewn ysgrifen, sylwedd a hanes ein Ffydd, gan atteb yn gywir ac yn gyhoeddedig, i'r pethau a roddwyd yn gyhoeddedig ac yn gyhuddedig i'n herbyn, megis y

[4] Pius IV. [5] Duwinyddion.

gallo'r holl fyd weled a gwybod canghau a gwraidd yr athrawiaeth a ddarfu i gynnifer o wŷr da golli eu hoedlau am dani; a hefyd fel y bo hysbys i bawb pa fath ddynion, a pha beth y maent yn ei dybied am Dduw a Chrefydd, ydyw y rhai a ddarfu i Bab Rhufain eu barnu a'u bwrw yn Hereticiaid drwy ammhwyll ac anghyfiawnder (peth ni wnawd erioed o'r blaen), cyn galw am danynt i atteb drostynt eu hunain, eithr yn unig am i'r Pab glywed dywedyd eu bod hwy heb fedru dygymmod â rhyw byngciau Crefydd gyd âg ef a'i blaid.

XI. Ac er na fynnai St. Ierom i neb gymmeryd yn ddioddefgar pan ammheuid ef am Heresi[6], etto nyni yn hyn o beth a ymddygwn ein hunain yn ddichwerw ac yn ddisen, heb na llid na digofaint, pe rhown na ddylai gael ei adael nac yn chwerw nac yn sengar a ddywedo'r Gwir. Nyni a adawn y fath ffraethder a honno i'n gwrthwynebwyr, y rhai beth bynnag a ddywedant yn ein herbyn ni, er chwerwed a serthed fyddo, etto tybied y maent mai digon cymhwys a chymmedrol ydyw; a pha un ai gwir, ynte celwydd fo, nid gwaeth ganddynt. Nid rhaid i ni, y rhai ydym yn amddiffyn y Gwir, wrth y fath ddichellion a'r rhai hyn.

XII. Gyd â hyn, o danghoswn fod cyssegr-lân Efengyl Duw, a'r hen Esgobion, a'r Brif-Eglwys, yn pwyso ar ein tu ni, ac na ddarfu i ni heb achos cyfiawn ymadael â hwynt-hwy, a dychwelyd at yr Apostolion a'r hen Athrawon Catholig; a gwneuthur o honom hynny, nid yn ddirgel, neu yn ddichellgar, eithr yn ffyddlawn ger bron Duw, yn wirion, yn uniawn, yn eglur, ac yn amlwg; ac os hwynt-hwy, y rhai sydd yn gochel ein hathrawiaeth ni, gan fynnu eu galw eu hunain yn Gatholig, a gant weled yn hysbys, fod yr holl ddangosion Henafiaeth, o'r hyn y maent yn gwneuthur cymmaint ffrost, wedi ymysgwyd allan o'u dwylaw hwy, a bod mwy o rym a nerth yn ein hachos

[6] Gau-grefydd.

ni nag a dybiasent: gobeithio yr ydym nad oes yr un o honynt mor ddiofal ar les ei enaid, na feddylio yn y diwedd pa blaid oreu iddo i gymmeryd. Diammeu, oddi eithr iddo gwbl galedu ei galon, ac na fyn ef wrando, ni bydd edifar ganddo ddal sylw ar ein hamddiffyniad ni, a chraffu pa fath beth yr ŷm ni yn ei adrodd, a chymhwysed ydyw i'r Grefydd Gristionogol.

XIII. Canys lle y maent yn ein galw yn Hereticiaid, y mae hynny yn fai mor gâs ac mor erchyll, fel onis gwelir ef yn amlwg, oni ellir ei deimlo â dwylaw, a'i glywed dan fysedd (yn ei herwydd), ni ddylid hawdd-goelio mo hono ar Gristion yn y byd. Herwydd Heresi ydyw ymwrthod âg iechydwriaeth, bwrw ymaith rodd Duw, ac ymadael â chorph ac âg yspryd Crist. Eithr hyn ydoedd yn wastadol arferedig a chymmeradwy ganddynt hwy a'u plaid, o bai i neb achwyn neu feio ar eu hamryfusedd hwy, a dymuno dadymchwelyd at iawn Grefydd, hwythau yn ebrwydd a farnent ac a fwrient y rhai hynny yn Hereticiaid, ac yn ddynion blin cyffröus. Canys nid am achos arall yn y byd y galwyd Crist ei Hun yn Samaritan, eithr am dybied ei fod Ef wedi methlu[7] mewn Ffydd newydd, a Heresi. A Phaul, Apostol Crist, a alwyd i farn, i atteb am Heresi: *Myfi*, ebe yntau, *yn ol y ffordd y maent hwy yn ei galw yn Heresi, ydwyf yn addoli Duw fy nhadau, gan gredu yr holl bethau a'r y sydd yn ysgrifenedig yn y Gyfraith a'r Prophwydi*[8].

XIV. Ar fyr o eiriau, yr holl Grefydd mae Cristionogion heddyw yn ei haddef, a alwyd gynt gan yr anghrediniaid yn Sect ac yn Heresi[9]. A'r fath lysenwau a'r rhai hynny y llenwent glustiau Tywysogion, megis pan ddarfu iddynt hwythau, drwy gamgymmeriad o'r blaen ein casnâu ni, a thybied beth bynnag a ddywedem ddim amgen na chynhwrf ac Heresi; y camarweiniwyd hwy fel na chaent wybod yr achos, na

[7] Dyrysu. [8] Act. xxiv. 14. [9] Tertul. in Apolog.

deall y gwirionedd. Eithr gan mor erchyll a gwrthun ydyw cynheddf Heresi, gan hynny y dylid ei brofi drwy resymmau cryfach ac eglurach, ac yn enwedig y pryd yma, wedi dechreu o ddynion roi llai coel ar a ddywedont hwy, a chwilio yn fanylach eu hathrawiaeth hwy, nag a oeddynt arferedig. Canys mae llawer o ragor rhwng dysgeidiaeth pobl Dduw yr awrhon, ag ydoedd o'r blaen, pan oeddid yn cymmeryd beth bynnag a ddywedai y Pab fel Efengyl, a'r holl Grefydd yn gwbl orphwys ar awdurdod Pab Rhufain. Y mae heddyw ar led yr Ysgrythyrau Glân, ac ysgrifeniadau yr Apostolion a'r Prophwydi, drwy y rhai y gellir profi pob gwirionedd ac athrawiaeth Gatholig, a gorchfygu pob Heresi [1].

XV. A chan nad ydynt yn dwyn dim o'r rhai hyn drostynt eu hunain; ac er hynny, nid anllai, yn mynnu ein galw ni yn Hereticiaid, y rhai ni chwympasom oddi wrth Grist, na'r Apostolion, na'r Prophwydi; y mae hyn yn gam mawr, ac yn dost anianol. A'r cleddyf hwn [2] y tarawodd Crist heibio'r cythraul, pan ydoedd yn ceisio cael methel arno; a'r arfau hyn y gorfydd gwthio i lawr a gwrthladd pob goruchder a'i derchafo ei hun yn erbyn Duw [3]. *Canys yr holl Ysgrythyr*, medd Paul Apostol, *sydd wedi ei rhoddi gan Ysprydoliaeth Duw, ac sy fuddiol i athrawiaethu, i argyhoeddi, i gospi, ac i addysgu mewn cyfiawnder: fel y byddo dyn Duw yn berffaith, wedi ei gymhwyso i bob gweithred dda* [4]. Felly yn wastadol yr ymladdodd y Tadau duwiol yn erbyn Hereticiaid, nid trwy nerth arall nac amgenach na'r Ysgrythyrau Glân. Pan ddadleuodd St. Awstin yn erbyn Petilian yr Heretic o'r Donatistiaid:—*Na âd glywed*, eb efe, *rhyngom ni y geiriau yma, Fel hyn yr ydwyf yn dywedyd, neu yr wyt ti yn dywedyd; eithr dywedom, Fel hyn y mae'r Arglwydd yn dywedyd; gadewch i ni geisio'r Eglwys yn y man hwnnw, ac yno ymddadleuwn ein*

[1] 2 Tim. iii. 15.
[2] Mat. iv. 4. 7. 10.
[3] 2 Cor. x. 5.
[4] 2 Tim. iii. 16, 17.

*hachos*[5]. Ac, medd St. Ierom, *Y mae cleddyf Gair Duw yn torri yr holl bethau yr ydys heb dystiolaeth yr Ysgrythyr Lân yn taeru eu traddodi gan yr Apostolion.* St. Ambros, hefyd, a ddywedodd wrth Gratian yr Amherawdwr, *Gofyner,* eb efe, *i'r Ysgrythyrau Glân; gofyner i'r Apostolion; gofyner i'r Prophwydi; gofyner i Grist.* Nid oedd ammeu y pryd hynny gan yr hen Dadau a'r Esgobion Catholig, allu cwbl[6] brofi ein Crefydd ni oddi fewn yr Ysgrythyrau Glân. Ac erioed nid oeddynt yn beiddio barnu neb yn Heretic, a'r ni aller argyhoeddi ei amryfusedd drwy rym yr unrhyw Ysgrythyrau Glân; a hynny yn ddigon hynod ac yn amlwg. Nyni attebwn fel y gwnaeth St. Paul: *Yn ol y ffordd y maent hwy yn ei galw yn Heresi, yr ydym ni yn addoli Duw Tad ein Harglwydd Iesu Grist, ac yn cofleidio'r holl bethau sydd ysgrifenedig, pa un bynnag ai yn y Ddeddf, ai yn y Prophwydi;* ynte yn llyfrau'r Apostolion[7].

XVI. Am hynny, od ydym ni Hereticiaid, od ydynt hwythau (megis y mynnent eu galw) Gatholigiaid, paham nad ydynt yn cymmeryd yr un llwybr ag a ddarfu i'r Catholig Dadau ei gymmeryd? Paham nad ydynt yn gorchfygu ein hathrawiaeth ni, drwy nerth yr Ysgrythyrau Glân? Paham nad ydynt yn ein galw drachefn i'n holi wrth y rhai hynny? Paham nad ydynt yn dangos ddarfod i ni ymwrthod â Christ, â'r Prophwydi, â'r Apostolion, ac â'r Tadau sanctaidd? Paham y maent yn oedi gwneuthur hyn? Paham y maent yn rhuso? Duw bia'r achos. Paham yr ammheuant ei holi a'i brofi wrth Air Duw? Od ydym ni Hereticiaid, y sawl ydym yn dwyn ein holl ymrafaelion i'w huniawni wrth Air Duw, ac ydym yn mynnu ein barnu wrth y gwir eiriau y gwyddom ddarfod iddynt ddeilliaw oddi wrth Dduw ei Hun, ac ydym hefyd yn dewis y rhai hynny o flaen yr holl bethau

[5] De unitate Eccles. c. 3. Eadem sententia contra Maximinum, Arianorum Episcopum, l. iii. c. 14. In primum cap. Aggei.

[6] Nid yw y gair "cwbl" yn y cyfieithiad Saesonaeg.

[7] Act. xiv. 14.

a'r a aller eu dychymmyg; beth, ynte, am danynt hwy, pa fodd y mae yn weddus eu galw, y rhai ydynt yn ofni barn yr Ysgrythyrau Glân, sef barn Duw ei Hunan; ac yn dewis yn hytrach eu breuddwydion a'u hoerllyd ddychymmygion eu hunain, o flaen Gair Duw; ac o ran cadw, a chynnal, eu Traddodiadau eu hunain, a ddarfu iddynt er ys talm o oesoedd, ddifwyno a diystyru defodau Crist a'r Apostolion? Dywedyd yr ydys am Sophocles, Prydydd y Trychni[3], pan ydoedd ef wedi heneiddio, a darfod i'w feibion ef ei gyhuddo, a dangos ger bron y barnwyr fod o hono ef yn ammhwyllo ac yn ynfydu, megis dyn nid oedd waeth ganddo beth a ofer-dreuliai, na pha fodd y bwriai ymaith ei dda a'i ddodrefn, a bod yn rhaid iddo wrth un i ofalu am dano, ac i'w amgeleddu; ddyfod o hono yntau i'w ddiheuru ei hun o'r peth a heurid arno, ger bron y barnwyr, ac wedi iddo draethu Awdl Trychineb a elwid Oedipus Coloneus, yr hon a wnaethai efe yn orchestol iawn, ac yn gynghaneddgar dros ben, y pryd y dywedpwyd arno ei fod yn ynfyd; gofyn o hono i'r barnwyr o'i waith ei hun, Ydoedd gyffelybus y medrai dyn ynfyd wneuthur y fath gerdd?

XVII. Felly ninnau; er mwyn bod ein gwrthwynebwyr yn tybied ddarfod i ni ynfydu, gan haeru arnom Heresi, megis pe byddem ni heb hanfod o Grist, nac o Eglwys Dduw, ni a dybiasom nad ydoedd nac anghymhwys, nac anfuddiol, osod allan yn amlwg, a datgan yn ehang, sylwedd y Ffydd yr ydym yn sefyll ynddi, a'r holl obaith sy gennym yng Nghrist Iesu; megis y gallo pawb weled beth yw ein meddwl ni am bob rhan o Grefydd Crist, ac y gallont farnu yn eu meddyliau eu hun, pa un ai rhyw gynddeiriogrwydd dynion yn ynfydu, a chyd-fwriad Hereticiaid, ai nid ef, ydyw'r ffydd yr hon a gaffant ei gweled wedi ei chadarnhâu drwy eiriau Crist ei hun, ysgrifeniadau'r Apostolion, tystiolaeth yr hen Dadau Catholig, a dygymmod llawer o oesoedd.

[3] Sef, Cyfansoddwr Barddoniaeth cellweir-feirniadol, neu *Tragedies*.

## PENNOD II.

### *Am yr Athrawiaeth a dderbyniwyd yn Eglwys Loegr.*

I. CREDU yr ydym gan hynny, fod un Anian a Gallu dwyfawl, yr hwn yr ydym yn ei alw yn Dduw; a hwnnw, meddwn, sydd wahanedig yn dri, sef yn Dad, yn Fab, ac yn Yspryd Glân: a'r tri hyn mor gyfrannog bob un â'u gilydd, o allu, o fawredd, o dragywyddoldeb, o dduwdod, ac o sylwedd. Ac er bod y tri hynny mor wahanedig, ag nad ydyw'r Tad yn Fab; na'r Mab yn Yspryd Glân, nac yn Dad chwaith; etto un Duw ydynt, yr hwn Dduw a wnaeth y nef, a'r ddaear, a phob peth sydd o fewn amgylchiad y nef.

II. Credu yr ydym ddarfod i Iesu Grist, unig Fab y tragywyddol Dduw (megis yr arfaethasid cyn pob dechreuad), pan ddaeth cyflawnder amser, gymmeryd arno gnawd, a phob anian ddynol, o'r wynfydedig bur Wyryf, fel y gallai Ef ddangos i ddynion, ddirgeledig a chyfrinachol ewyllys ei Dad: yr hwn ewyllys a fuasai guddiedig er ys cyn oesoedd a chenhedlaethau, ac fel y gallai Efe yng nghnawdoliaeth dyn gwblhâu dirgelwch ein dadbryniad, a hoelio ar y Groes ein pechodau, a'r llaw-ysgrifen a ysgrifenasid i'n herbyn [1].

III. Credu yr ŷm iddo farw o'n plegid ni, a'i gladdu: myned o hono Ef i waered i uffern: iddo ddychwelyd i fywyd gan adgyfodi y trydydd dydd: ac ar ol deugain niwrnod ddarfod iddo, yng ngwydd ei ddisgyblion, ymdderchafu i'r nef, er cyflawni pob peth: ddarfod hefyd iddo Ef gyfleu mewn mawredd a gogoniant y corph hwnnw, yn yr hwn y ganwyd Ef; yn yr hwn y cynniweiriodd â dynion; yn yr hwn y gwatwarwyd Ef; yn yr hwn y dioddefodd boenau o'r tostaf, a chreulonaf angeu [2]; yn yr hwn yr adgyfododd; yn yr hwn yr ymdderchafodd at ddeheulaw y Tad, goruwch pob Penrheithiad, a Gallu, a Nerth, ac Arglwyddiaeth, a goruwch pob Enw a enwir, nid yn unig yn y byd

[1] Col. ii. 14.    [2] Aug. Tract. 50. in Ioan.

yma, eithr yn y byd a ddaw; mai yno y mae yn eistedd, ac yr eistedd Ef nes gorphen pob peth[3]. Ac er bod mawredd a Duwdod Crist yn wasgaredig ym mhob man, etto, fod yn rhaid[4], fel y dywed St. Awstin, i'w gorph Ef fod mewn un lle[5]: ac er rhoddi o Grist fawredd i'w gorph, etto na ddygodd oddi arno naturiaeth corph; na ddylem ni felly ddywedyd mai Duw yw Crist, fel y gwadem mai dyn yw[6], ac fel y dywedodd y Merthyr Vigilius[7], ddarfod i Grist ymadael â ni, o ran ei gnawdoliaeth, eithr nad ymadawodd ddim â nyni herwydd ei Dduwdod; ac er ei fod Ef ym mhell oddi wrthym megis y mae Efe yn ddyn, etto ei fod Ef yn wastadol gyd â ni megis y mae Efe yn Dduw[8].

IV. O'r màn hwnnw credu yr ŷm y daw Crist drachefn i wneuthur y farn gyffredin, yn gystal ar y sawl a gaffo Ef yn fyw yn eu cyrph, ac ar y rhai meirw.

V. Yr ydym yn credu yn yr Yspryd Glân, yr Hwn ydyw'r trydydd yn y gyssegr-lân Drindod: ei fod Ef yn wir Dduw, yn ddiwneuthuredig, yn ddigrëedig, yn ddigenhedledig, eithr yn deilliaw oddi wrth bob un o'r ddau, sef y Tad a'r Mab, mewn modd na fedr dynion na'i wybod na'i adrodd. Mai ei gynheddf Ef ydyw meddalhâu caledrwydd calon dyn, pan dderbynier Ef i ddwyfronnau dynion, y naill ai trwy iachus bregeth yr Efengyl, ai ynte drwy ba agwedd bynnag arall: ei fod Ef yn eu goleuo ac yn eu cyfarwyddo hwy i wybodaeth Duw, gan eu cwbl arwain i bob ffordd Gwirionedd, i newydd-dod holl fuchedd, ac i dragywyddol obaith iechydwriaeth.

VI. Credu yr ydym fod un Eglwys Dduw, ac nad yw honno, megis gynt, ym mhlith yr Iuddewon, wedi ei chau a'i chilfachu mewn un gongl neu deyrnas, eithr

[3] Act. iii. 21.

[4] Felly yn Gratian, Ivo, ac Aquinas, ond yr iawn ddarlleniad yng ngwaith Awstin ydyw "potest," nid "oportet."

[5] Aug. Tract. 30. in Ioan. [6] Ad Dardan.

[7] Contra Eutych. lib. i. Nid y Merthyr, Vigilius *Tridentinus* (B.A. 390), eithr Vigilius Tapsitanus (B.A. 484) ydoedd hwn.

[8] Fulgentius ad Regem Thrasymundum.

ei bod yn Gatholig, ac yn gyffredin, wedi ei gwasgaru trwy'r holl fyd: megis nad oes achos i genedl yn y byd gwyno yr awrhon eu bod hwy wedi eu cau allan heb allu perthynu i Eglwys ac i dylwyth Dduw: fod yr Eglwys hon yn deyrnas, yn gorph, ac yn briodasferch i Grist: fod Crist yn unig Dywysog y deyrnas honno; yn unig Ben y corph hwnnw; yn unig Briod i'r briodas-ferch honno. Fod amryw raddau gweinidogion yn yr Eglwys hon, rhai yn Ddiaconiaid, rhai yn Offeiriaid, eraill yn Esgobion; i'r sawl yr ymddiriedwyd hyfforddi'r bobl ac astud-ofalu am dŵf a chynnyddiad Crefydd: ac er hynny, nad oes, ac na ddichon bod un dyn daearol a eill gael cwbl oruchafiaeth ar hyn o gyffredinoldeb, herwydd bod Crist yn wastadol gyd â'i Eglwys, ac nad rhaid iddo wrth Raglaw yn ei le, megis i etifeddu'r cwbl o'i gyfoeth: nad oes un dyn byw, ym meddwl yr hwn y gall enni'r Eglwys gyffredinol, sef, pob mangre, a phob darn o'r holl fyd: nac un dyn a ddichon drefnu a llywodraethu'r cwbl mewn cyfiawnder a chymhwysder: fod yr holl Apostolion, fel y dywed St. Cyprian [9], o'r un awdurdod y naill a'r llall; fod pob un o honynt yr un peth ag ydoedd Petr: ddarfod i Grist ddywedyd wrthynt i gyd, *Porthwch:* a dywedyd wrth bob un o honynt gystal a'u gilydd, *Ewch i'r holl fyd:* a dywedyd wrthynt bob un, *Dysgwch yr Efengyl i bawb.* Ac, fel y dywed St. Ierom [1], fod yr holl Esgobion o'r un oruchafiaeth, ac o'r un fath offeiriadaeth, pa le bynnag yn y byd oll y byddont, ai yn Rhufain, ai yn Eugubium, ai yng Nghaer Cystennyn, ai ynte yn Rhegium. Ac, fel y dywed St. Cyprian [2], nad oes onid un Esgobaeth, a bod pob Esgob yn dal darn pybyr o honi. Dywedyd yr ŷm hefyd, yn ol barn y Gymmanfa-Gynghor a fu yn y dref Nicea, nad oes i Esgob Rhufain fwy o rwysg a goruchafiaeth ar Eglwys Dduw nag sydd i'r Patrieirch

[9] De Simplicitate Prælatorum.

[1] Ad Evagrium. Y mae Jewel yn dodi y gair Sant o flaen enwau tadau enwog yn ei Amddiffyniad o'r Llyfr hwn.

[2] De Simplicitate Prælatorum.

eraill, sef o Alexandria, ac o Antiochia. Ac am Bab Rhufain, yr hwn a fŷn yr awrhon alw pob peth ger ei fron ei hun; oni wna ef a ddylai, onis gwasanaetha ef y Sacramentau, onis hyfforddа ef y bobl, oni rybuddia, ac oni ddysg ef hwy, dywedyd yr ydym nad yw iawn mo'i alw, nac yn Esgob, nac yn Offeiriad[3]. Canys fel y dywed St. Awstin, enw gwaith, ac nid anrhydedd, yw Esgob; herwydd ef a fynnai'r gŵr hwnnw gydnabod âg efo'i hun, nad Esgob mo hono a gais ddwyn rhwysg iddo ei hun heb wneuthur lles-hâd i eraill. Na ddichon na'r Pab, na neb arall yn y byd, fod yn ben i'r holl Eglwys, neu'n Esgob hollawl *universalaidd*, neu gyffredinol, mwy na bod yn briod, yn oleuni, yn iechyd, ac yn fywyd i'r Eglwys; canys y rhagorfraint a'r enwau hyn ydynt yn briodol ac yn unig yn gyfaddas i Grist ei Hun, ac nid i neb arall. Hefyd na adawodd un Esgob Rhufain erioed mo'i alw gerfydd y fath enw balch, cyn amser Phocas yr Amherawdwr, yr hwn, fel y gwyddom, a ymdderchaf-odd ei hun i'r amherodraeth drwy frâd ac echrysedd, gan ladd ei feistr Morys yr Amherawdwr; yr hyn oedd ynghylch y chwe-chanfed a'r drydedd flwyddyn ar ddeg ar ol geni Crist. Heblaw hynny ddarfod i'r Gymmanfa-Gynghor, a gynhaliwyd yn nhref Car-thago[4], wahardd yn eglur[5] na chai Esgob yn y byd mo'i enwi yn Esgob Goruchaf, nac yn Ben-Offeiriad. A chan fod Esgob Rhufain y pryd hwn yn mynnu ei alw felly, gan gymmeryd arno benaethiad nid yw eiddo ef; heblaw iddo yn amlwg wrthwynebu yr hen Gymmanfa-Gynghorau a'r Tadau; yn ychwaneg i hyn, o myn ef goelio Gregori ei gydymmaith ei hun[6], cymmeryd arno y mae efe enw balch annuwiol, echryslawn, Anghristionogawl. A dywedyd yr ydym mai efe yw Brenhin y balchder; mai efe yw Lucifer sydd yn ei

[3] 1 Tim. iii. 1, &c. [4] Cap. 47.
[5] Lat. "diserte;" Saes. "circumspectly."
[6] Greg. Epist. l. iv. 76. 78. 80.

wthio ei hun o flaen ei frodyr: ddarfod iddo ymadael â'r ffydd, ac mai efe yw rhagflaenorwr Anghrist.

VII. Dywedyd yr ydym, mai dyledus yw, drwy alwedigaeth ddeddfol a gweddus drefn, gyfleu gweinidog i lywodraethu Eglwys Dduw, ac na ddichon neb frathu i mewn i'r gyssegr-weinidogaeth, wrth ei amcan a'i drachwant ei hun: ac o ran hynny, mwy o lawer yw'r cam y maent hwy yn ei wneuthur â nyni, gan na thawant a dywedyd nad ydys yn gwneuthur dim yn ein plith ni mewn trefn, na gweddeidd-dra, eithr pob peth yn ammhwyllus ac yn bendra-mwnwgl: a bod yn gymmeradwy gennym ni, adael i bob math ar ddyn fod yn Offeiriad, fod yn athraw, fod yn ddehonglydd yr Ysgrythyr Lân.

VIII. A dywedyd ym mhellach yr ŷm, roddi o Grist i'w weinidogion gwbl allu i rwymo, i ryddhâu, i gau, ac agoryd. Ac nad yw'r swydd i ryddhâu ddim amgen, onid y naill ai cynnyg o'r gweinidog, drwy bregethiad yr Efengyl, haeddedigaethau Crist, a gollyngdod o'u pechodau i'r sawl a fo gostyngedig eu calonnau mewn gwir edifeirwch, gan draethu iddynt ddïau faddeuant, a gobaith iechyd tragywyddol; ai ynte, ennill o'r gweinidog drachefn, a dwyn adref a dad-roddi i fewn teulu ac undod rhai ffyddlawn, y sawl edifarus a anfoddlonasant galonnau eu brodyr drwy gamwedd hynod a chyhoeddus, wedi iddynt ymneillduo am hynny, ac ymddieithro, yn ei herwydd [7], oddi wrth gyffredin gymdeithas yr Eglwys, a chorph Crist. Ac yr ydym ni yn dywedyd, fod un yn arfer yr awdurdod i rwymo, cyn fynyched ag y cauo efe borth teyrnas nefoedd yn erbyn yr anghrediniaid a'r rhai cyndyn, gyd â thraethu o hono ef iddynt lwyr ddial Duw, a thragywyddol gospedigaeth; neu ynte cynnifer gwaith ag y cauo efe allan o fynwes a chofleidiad yr Eglwys, y rhai a esgymmunwyd yn gyhoeddus. Dïau pa farn bynnag, yn y modd hwn, a roddo gweinidogion Duw, fod hynny mor gwbl gymmeradwy a

[7] Sef, rhyw fodd neu gilydd.

chyn foddloned gan Dduw ei Hun, ag iddo Yntau ryddhâu, a rhwymo, yn y nefoedd, bob peth a ryddhêir, neu a rwymir, drwy eu gwaith hwy ar y ddaear. Yr ydym ni yn dywedyd mai Agoriadau â'r rhai y gellir cau neu agoryd teyrnas nefoedd, ydyw *gwybodaeth yr Ysgrythyrau*, megis hefyd y mae Chrysostom yn dywedyd; yw *dehongliad y Gyfraith*, fel y mynegodd Tertulian; yw *Gair Duw*, fel y tystiolaethodd Eusebius. A choelio yr ydym gaffael o ddisgyblion Crist y gallu hwn, nid i wrando dirgel-gyffes, a sisial y bobl, fel y mae'r Offeiriadau offerenllyd yr amser hwn yn arfer ym mhob man, ac felly yn arferu megis na bai rhinwedd na rhaid wrth yr Agoriadau i ddim arall yn y byd ond i hynny yn unig, eithr fel y gallent fyned i ddysgu ac i gyhoeddi yr Efengyl i bawb, megis y byddent arogl bywyd i fywyd i'r crediniaid, ac arogl marwolaeth i farwolaeth i'r anghrediniaid a'r rhai anffyddlawn; ac fel yr agorid â Gair Duw (megis agor drws âg agoriad) feddyliau y rhai duwiol cystuddiedig; gan edifarhâu o honynt o'u beiau a'u buchedd o'r blaen, ar ol iddynt ddechreu gweled goleuni'r Efengyl a chredu yng Nghrist. A thuag at am y rhai annuwiol cyndyn na fynnant gredu nac ymchwel o gyfeiliorni, eu gadael hwy megis yn gloiedig wedi eu cau allan, fel y ffynnant waeth-waeth, megis y mynegodd St. Paul[8]. Hyn, meddwn ni, yw deall yr Agoriadau; ac yn y modd hwn y mae cau neu agoryd cydwybodau dynion. Cyfaddef yr ydym mai'r Offeiriad sydd farnwr yn yr achos hwn, eithr etto, er hynny, nad dyledus iddo, fel y dywed St. Ambros[9], roi hawl ar oruchafiaeth ac awdurdod, fel pe bae yn eiddo ef. Ac am hynny rhodd Crist sèn i'r Ysgrifenyddion a'r Phariseaid Iuddewaidd, o herwydd eu hesgeulusdra hwy yn dysgu'r bobl, *Gwae chwi*, eb Efe, *Ysgrifenyddion a Phariseaid, y rhai a ddygasoch ymaith Agoriadau'r gwybodaeth, ac a gauasoch deyrnas nefoedd o flaen dynion*[1]. A chan nad yw'r

[8] 2 Tim. iii. 13. [9] De Pœniten. dist. l. c. Verbum Dei.
[1] Luc xi. 52. Mat. xxiii. 13.

Agoriad, â'r hwn yr agorir i ni ffordd i deyrnas Dduw, ddim amgen onid Gair yr Efengyl, a deongliad y Gyfraith a'r Ysgrythrau Glân, dywedyd yr ydym, yn ddifaddeu, lle ni bo'r Gair hwn, nad oes yno mo'r Agoriad ychwaith. A chan na roddwyd ond Gair o'r un fath i bawb; ac nad oes ond un unig Agoriad yn perthyn i bawb, nid oes hefyd, meddwn ni, ond un unig allu i bawb o'r gweinidogion i gau ac i agoryd. Am Bab Rhufain, er bod ei ragrithwyr yn atganu iddo yn wenieithus y geiriau hyn, *Mi a roddaf i ti Agoriadau teyrnas nefoedd*[2], fel pe na bae gyfaddas y geiriau hynny o'r Efengyl i neb byw arall ond i'r Pab ei hun, dywedyd yr ydym, oni phair ef i gydwybodau dynion ddarostwng yn ystwyth i Air Duw, nad ydyw ef nac yn agoryd, nac yn cau, ac nad perchen yr Agoriadau mo hono. A phe rhoem ei fod yn dysgu ac yn hyfforddi y bobl, yr hwn beth ni a fynnem pes gwnai ef o'r diwedd yn ddihocced; neu pe bai wiw ganddo feddwl unwaith fod hynny yn ddyledus arno, ac yn ddarn o'i swydd, etto er hynny, nid ydyw, meddwn ni, ei Agoriad ef nac yn well, nac yn hytrach, nag Agoriadau rhai eraill. Herwydd pwy a wnaeth ragor rhyngddo ef a'r llaill? Pwy a ddysgodd iddo ef agoryd yn gyfarwyddach, neu ryddhâu yn well nag eraill o'i frodyr?

IX. Dywedyd yr ydym, mai sanctaidd ac anrhydeddus yw priodas ym mhob rhyw a math ar ddynion; sef, yn y Patrieirch, yn y Prophwydi, yn yr Apostolion, yn y Merthyron, yng Ngweinidogion yr Eglwys, ac yn yr Esgobion; ac, fel y dywed Chrysostom[3], mai rhydd a gweddus ydyw i ŵr priod gymmeryd arno, mewn priodas, radd ac urddau Esgob. Hefyd, megis y dywed Sozomen am Spiridion, a Nazianzen am ei dad ei hun[4], nad dim gwaeth, eithr gwell o lawer, y gwasanaetha Esgob astud daionus yn ei weinidog-

[2] Mat. xvi. 19.

[3] In Titum primo, Hom. 10. Theoph. ad Titum, 10. cap. v. In monodia sua super Basilium.

[4] Amdd. "Dywedwn ninnau."

aeth, o ran bod yn briod. Athrawiaeth cythreuliaid, meddwn ni, fel y dywed St. Paul[5], ydyw'r gaeth gyfraith honno sydd yn dwyn rhyddid dynion o'u hanfodd oddi arnynt, gan beri iddynt fyw heb briodi. Ac er y pryd y dechreuodd y gyfraith a'r caethiwed hyn, ddarfod digwydd peth rhyfedd o feiau a bryntni ym muchedd gweinidogion Duw, drwy amryfal erchyll ddrygioni; megis y cyfaddef yr Esgob o Awgusta, a Faber, a'r Abbad Panormitan a Latomus, a'r *Gwaith-Tri-Rhannog*[6] y sydd wedi ei gyssylltio wrth yr ail Gyfran o'r Cynghorion: ac fel y mae gweision dewrion eraill ym mhlaid y Pab, ac ystyriaeth yr achos, a hefyd pob ystori, yn eglur ddangos. Herwydd gwir a ddywedodd Pius yr Ail, Pab Rhufain, ganfod o hono ef lawer achos paham y dygid gwragedd priod oddi ar Offeiriaid; eithr gweled o hono ef fwy o achosion rhesymol, ac anghenrheidiol, paham y dylid rhoi iddynt eu gwragedd drachefn[7].

X. Derbyn a chofleidio yr ydym yr holl Ysgrythyrau Cyssegr-lân, o'r hen a'r newydd Destament; gan gwbl ddïolch i'n Gwir Dduw, a drefnodd i ni hyn o oleuad i'w gael yn wastadol ger bron ein llygaid; rhag ofn i ddichellion dyn, neu faglau diafol, ein dal a'n dwyn ymaith i gelwyddau a chyfeiliorni. Yr Ysgrythyrau hyn, meddwn ni, ydynt leisiau a llefaredd nefol, drwy y rhai y darfu i Dduw hysbysu i ni ei ewyllys Ef; yn y rhai yn unig y dichon calon dyn gwbl orphwys; fod wedi cynnwys yn y rhai hynny yn aml-gyflawn, ac yn ddigonol, bob peth rheidiol i'n hiechydwriaeth ni, fel y darfu i Origen, Awstin, Chrysostom, ac i Cyril draethu: mai'r rhai hynny ydynt rym a nerth Duw i gael iechydwriaeth: mai y rhai hynny ydynt wadnau a seiliau y Prophwydi a'r Apostolion, ar y rhai yr adeiladwyd Eglwys Dduw: mai hwynt-hwy ydynt gwbl unionder, drwy'r hyn y gellir gweled a gwybod a ydyw yr Eglwys yn gogwyddo mewn amryfusedd, ai nid yw;

[5] 1 Tim. iv. 1. 3. 12. Rhuf. i. 16. [6] Enw Llyfr.
[7] Platina in Pii II. Vita.

ac at y rhai y dylid galw holl athrawiaeth yr Eglwys i wneuthur cyfrif. Ac yn bendifaddeu na ddylid gwrandaw ar gyfraith, na threfn, na defod yn y byd, yn erbyn yr Ysgrythyrau Glân; pe rhoem a dyfod St. Paul[8] ei hun, neu Angel o'r nefoedd, i ddysgu dynion yn amgenach i hyn.

XI. Derbyn a chofleidio yr ydym Sacramentau yr Eglwys, sef yw hynny, y sawl gyssegr-arwyddion a'r Seremonïau y rhai a fynnodd Crist i ni eu harfer, megis yn y rhai hynny y gosoda Efe o flaen ein llygaid ni, ddirgelwch ein hiechydwriaeth, fel y gallai Efe hefyd gadarnhâu yn fywioccach y ffydd sy gennym yn ei waed Ef, gan blannu ei rad yn ein calonnau. Ac, fel y dywed Tertulian, Origen, Ambros, Awstin, Ierom, Chrysostom, Basil, Dionysius, ac eraill o'r Tadau Catholig, felly, meddwn ninnau, nad yw'r Sacramentau hynny ddim amgen onid lluniau, arwyddion, nodau, printiadau, eilunau, elfenau, seliau, llaw-nodau, cyffelybiaethau, tebyg-bethau, lluniadau, meddyliadau, a rhag-gofiadau. Nid ammheuwn ychwaith gyfaddef gyd â'r Tadau sanctaidd uchod, mai talm o eiriau canfodedig neu weledig, ydyw'r Sacramentau hynny, mai seliau cyfiawnder, ac arwyddion rhadau ydynt; a thraethu hefyd yr ydym, yn hyffordd, fod yn rhoddi[9] i'r rhai crediniol, yn Swpper yr Arglwydd, gorph a gwaed yr Arglwydd Crist, sef, cnawd Mab Duw, yr hwn sydd yn bywioccâu ein heneidiau ni; y bwyd sydd yn dyfod oddi fry; porthiant y difarwolaeth; rhad, gwirionedd, a bywyd. Ac mai Cymmun corph a gwaed Crist yw'r Swpper hwnnw, drwy gyfranniad yr hwn beth, yr ydym yn cael ail fywyd, nerth, a phorthiant i dragywyddoldeb: a thrwy hynny yn cael ein cyssylltu, ein cyd-gnawdu, a'n gwneuthur yn un â Christ, fel y gallom aros ynddo Ef, ac Yntau ynom ninnau.

XII. Eithr cydnabod a chyfaddef yr ydym ddau Sa-

[8] Gal. i. 8.

[9] Lat. "exhiberi." Saes. 1562, "are delivered." Saes. Bacon, "truly given."

crament, y rhai yn ein barn ni a ddylent gael eu galw wrth yr enw priodol hwnnw, sef Sacrament y Bedydd, a'r llall a elwir Swpper yr Arglwydd. Y cynnifer hyn o Sacramentau a welwn wedi eu rhoddi a'u cyssegru gan Grist; ac oeddynt gymmeradwy hefyd gan Ambros ac Awstin [1], yr hen Dadau.

XIII. Y Bedydd, meddwn ni, sy Sacrament o ollyngdod pechodau, ac o'r ymolchiad sydd eiddom yng ngwaed Crist. Oddi wrth yr hwn Sacrament ni ddylid gwahardd neb a fynnai gymmeryd arno enw Crist; yn gymmaint ag nad rhydd gwahardd plant ieuaingc Cristionogion, er [2] mwyn eu geni mewn pechod, a'u bod yn deiryd i dylwyth Dduw.

XIV. Dywedyd yr ydym fod Eucharistia, neu Swpper yr Arglwydd, yn Sacrament, sef, yn arwydd neu wystl [3] hynod corph a gwaed Crist; yn yr hyn yr ydys yn rhoi, megis ger bron ein llygaid, farwolaeth ac adgyfodiad Crist, a pheth bynnag a wnaeth Ef yn ei gnawdoliaeth; fel y rhoddem ddïolch herwydd ei farwolaeth Ef, a'n gwarediad ni. Ac felly y gallem wrth fynych arfer y Sacramentau [4], adnewyddu beunydd goffäedigaeth am hyn; fel y gallem hefyd gael ein porthi â [gwir] chorph [5] ac â gwaed Crist, i obaith yr adgyfodiad, ac i fywyd tragywyddol, gan fod yn gwbl-ddïau gennym, mai'r un peth i borthi ein heneidiau yw corph a gwaed Crist, ag ydyw'r bara a'r gwin i borthi ein cyrph. I'r wledd hon, yn ein barn ni, y dylid gwahodd pobl Dduw, fel y gallent bawb fod yn gyfrannogion yn eu mysg eu hun, gan amlwg ddangos a thystiolaethu y gobaith a'r gymdeithas sy ganddynt bawb gyd â'u gilydd yng Nghrist Iesu. Ac am hynny o bae neb a fynnai ddim onid edrych ar y Cymmun sanctaidd, heb fod yn gyfrannog o hono, hwnnw a gae ei esgymmuno gan yr hen Dadau ac Esgobion Rhufain yn y Brif-Eglwys, megis dyn echryslawn heb gred ganddo. Yr hyn beth ydoedd arferedig

[1] Amdd. "ac eraill cyffelyb."
[2] Gan, neu yn gymmaint—"quoniam."
[3] Amdd. "representation."
[4] Saes. "this Sacrament." [5] Lat. "vero."

cyn clywed son am Offeren neillduol yn y byd. Nid oedd Gristion y pryd hynny a gymmunai wrtho ei hun [6], a'r llaill yn edrych arno. Am hynny y gwnaeth Calixtus [7] drefn ac ordinhâd ar *gymmuno o bawb, pwy'n gynted ag y darfyddai cyssegru, oddi eithr bod yn well ganddynt sefyll o'r tu allan i ddrws yr Eglwys. Herwydd felly* (eb efe) *yr archodd yr Apostolion, ac mae'r sanctaidd Eglwys Rhufain* [8] *yn cadw rhagddi* [9]. Hefyd, pan ddel y bobl i gymmuno, fe ddylid rhoi'r Sacrament iddynt dan y ddeuryw, sef bara a gwin, oblegid felly y gorchymynodd Crist; felly y darfu i'r Apostolion drefnu, a'r hen Dadau a'r Esgobion Catholig a gadwasant, ac a ganlynasant y ffordd hon. A'r neb a wnelo'n amgenach i hyn, sydd euog o gyssegr-ledrad, fel y dywed Gelasius [1]. Am hynny diffaith iawn y mae ein gwrthwynebwyr ni yn myned rhagddynt, ac nid amgen nac yspeilwyr ydynt am draws-wthio allan, a chwbl-wahardd y Cymmun sanctaidd; a hynny yng ngwrthwyneb gair Duw, heb awdurdod un hen Gymmanfa-Gynghor, heb un hen athraw Catholig, heb gyffelybrwydd o'r fath beth yn y Brif-Eglwys, heb ystyriaeth yn y byd; gan gadw, a chynnal neillduol-Offerenau, a lliaws o Sacramentau, yn erbyn dïau orchymyn ac archiad Crist; a hefyd yn erbyn holl Henafiaeth.

XV. Y bara a'r gwin hwnnw, meddwn ni, ydynt sancteiddiol a nefol ddirgeledigaethau corph a gwaed Crist, ac yr ydys yn y Sacrament hwn yn rhoddi [2] i ni Grist ei Hun yr Hwn sydd wir fara y bywyd tragywyddol, yr Hwn yr ydys yn ei roi i ni mor gwbl, ac mor gyflawn, ag nad oes dim wirach na bod o honom yn cymmeryd ei wir gorph a'i waed Ef drwy ffydd. Nid ydym ychwaith yn dywedyd hyn, megis pe baem yn tybied ddarfod cwbl newidio a diddimio rhyw-

[6] Chrysos. ad Ephes. Ser. 3. De cons. dist. 1. cap. Omnes.
[7] Dist. 2. cap. seculares.
[8] Sef, yn parhau i ddala hynny. [9] De cons. dist. 2. cap. Peracta.
[1] De cons. dist. 2. Comperimus.
[2] Lat. "sic nobis præsentem exhiberi."

iogaeth y bara a'r gwin; fel y darfu i lawer freuddwydio yn yr oesoedd diweddaf hyn, heb fedru o honynt erioed etto gyttuno rhyngddynt eu hunain ynghylch y breuddwyd hwn. Ac nid hynny oedd meddwl Crist, fwrw o'r bara gwenith ymaith ei rywiogaeth ei hun, a chymmeryd math ar dduwiolaeth newydd; eithr yn hytrach, fel y gallai Ef ein newid ni, a'n tros-unio i'w gorph ei Hun, megis y dywed Theophilact[3]. Beth a ellir ei ddywedyd yn hynotach nag a draethodd Ambros[4]? Sef, *fod y bara a'r gwin yr un fath ag a oeddynt o'r blaen, ac er hynny eu bod hwy wedi newidio i beth arall:* neu, y peth a ddywedodd Gelasius[5]: *Nid yw sylwedd y bara, na rhywiogaeth y gwin, yn peidio neu'n diflannu:* neu y peth a ddywedodd Theodoret: *Ar ol sancteiddio'r arwyddion dirgeledig nid ydynt yn bwrw ymaith eu rhywiogaeth eu hunain; herwydd aros y maent yn y sylwedd, llun, a'r rhyw oedd ganddynt o'r blaen:* neu y peth a ddywedodd Awstin[6]: *Bara a'r caregl yw'r peth a welwch, a hyn y mae'r llygad yn dangos; eithr y peth a fyn eich ffydd chwi ei ddysgu, yw hyn: mai corph Crist ydyw'r bara, a'i waed Ef ydyw'r caregl;* neu'r peth a ddywedodd Origen[7]: *Y bara, yr hwn yr ydys yn ei sancteiddio drwy air Duw (tuag at am ddeunydd bara) myned i'r bol y mae efe, ac fo'i bwrir allan i'r dommen:* neu y peth a ddywedodd Crist, nid yn unig cyn cyssegru'r caregl, eithr wedi'r Cymmun: *Nid yfaf ond hynny o'r ffrwyth yma o'r winwydden*[8]. Hawdd yw gwybod ynte mai gwin ac nid gwaed, ydyw ffrwyth y winwydden. Ac wrth ddywedyd hyn, nid ydym yn diystyru Swpper yr Arglwydd, neu'n dysgu i eraill nad yw y Sacrament hwn amgen na Seremoni oerllyd, heb leshâd ynddi, fel y mae llawer yn camhaeru arnom. Herwydd dywedyd yr ydym,

[3] In Ioan. cap. xi.
[4] De sacr. lib. iv. c. 4.
[5] In dialog. 1. et 2. In sermone ad infantes.
[6] De cons. dist. 2. cap. Qui manducant.
[7] In Mat. xix.
[8] Luc xxii. 18.

mai dïau, a gwir iawn ydyw, fod Crist yn ei roi [a] ei Hunan [1] i ni yn ei Sacramentau: sef, yn y Bedydd, fel y gallom ei wisgo Ef am danom: ac yn y Swpper, fel y gallom drwy ffydd ac ysprydoliaeth ei fwytta Ef, a chael bywyd tragywyddol drwy rinwedd ei Groes a'i waed Ef. Ac nid ydym yn adrodd hyn yn egwan, oerllyd, namyn fel coel ffrwythlawn-wirionedd; oblegid, er nad ydym yn cyffhwrdd corph Crist â safnau ac â dannedd, etto y mae gennym afael arno, a'i fwytta yr ydym drwy ffydd, gwybodaeth, ac yspryd. Dïau nad ofer mo'r ffydd honno sydd yn rhoi llawn afael ar Grist; ac nid oer-wagaidd y cymmerir y peth a gymmerir drwy wybodaeth, a ffydd, ac yspryd. Canys yn y cyssegr ddirgeledigaethau neu'r Sacramentau hyn, cynnyg a rhoddi yr ydys i ni Grist ei Hun yn gwbl-hollol, fel y gallem wybod yn hysbys mai cig o'i gig, ac esgyrn o'i esgyrn Ef ydym; a bod Crist yn aros ynom ni, a ninnau ynddo Yntau.

XVI. Am hynny, wrth drin y Sacramentau hyn, da yr ydys yn rhybuddio'r bobl [2] cyn dyfod o honynt i gymmuno, gan erchi iddynt dderchafu eu calonnau, a chodi eu meddyliau tua'r nef; oblegid yno y mae Efe, drwy'r hwn y gorfydd i ni gael llawn borthiant a bywyd. Rhaid i ni, medd Cyril, pan ddelom i dderbyn y Sacrament hwn, roi diofryd meddyliau bydol, ac amcanion ofer. A'r Gymmanfa-Gynghor yn Nicea, fel y mae rhai yn ei hadrodd yng Ngroeg-iaith, sydd yn gwahardd i ni fod âg isel feddyliau gennym, neu grymu o honom tuag at y bara a'r gwin a roer ger ein bron. A dywedyd yr ydym fel yr ysgrifenodd Chrysostom yn gyfaddas iawn, *mai cnawd Crist ydyw'r corph marw, a ninnau ydym yr eryrod:* ystyriaeth yr hyn beth, ydyw fod yn rhaid i ni ehedeg yn uchel os mynnwn ddyfod at gorph Crist. Canys, medd Chrysostom, *bwrdd yr eryrod ac nid bwrdd y cogfrain yw hwn.* A megis y mynegodd Cyprian [3], *bwyd yr enaid*

[a] Lat. "Vere sese præsentem exhibere."
[1] Amdd. "wholly."
[2] De consec. dist. I. cap. Quando.
[3] De cœna Domini.

*ydyw'r bara yma, ac nid bwyd y bol.* Ac, medd Awstin [4], *pa fodd y cymmeraf afael arno Fo sydd absen? Pa fodd yr estynaf fy llaw i'r nef i gael gafael arno Fo sydd yn eistedd yno?* Attebodd, *Estyn dy ffydd hyd yno, a thi a gefaist afael arno.*

XVII. Ni allwn ni oddef o fewn ein Heglwysi ni ffeiriau a marchnadoedd, a phrynu a gwerthu Offerenau, na hefyd dwyn o amgylch ac addoli'r bara, na'r fath eulun-addoliaeth a choeg gabledd; yr hyn bethau nid oes yr un o'n gwrthwynebwyr a ddichon ddywedyd ddarfod i Grist na'i Apostolion eu hordeinio a'u gadael i ni. Nid heb achos yr ydym yn beio ar Esgobion Rhufain am iddynt, heb air Duw, heb awdurdod y Tadau sanctaidd, heb arfer Henafiaeth, eithr ar ol ffordd newydd, nid yn unig osod bara'r Cymmun ger bron y bobl i'w addoli megis Duw, namyn hefyd peri dwyn y bara hwnnw ar geffyl rhygyngog gyd â hwynt ym mhob taith, megis y bu arferedig gynt ddwyn amgylch ogylch tân y Persiaid, a chrair y dduwies a elwid Isis; felly hwythau a ddarfu iddynt ddwyn Sacramentau Crist i blith chwaräeyddion [5], i'w dangos i'r bobl, nid er dim ond llenwi llygaid y gynnulleidfa drwy ryfeddiad lled ynfyd a choeg oferedd; a hynny yn y peth y dylid curo i'n calonnau ni farwolaeth Crist; ac yn yr hyn y dylid cwblhâu dirgelwch ein dadbryniad drwy barch a sancteiddrwydd. Heblaw hynny, lle y maent hwy yn dywedyd, ac yn peri i rai ansynhwyrol goelio allu o honynt hwy drwy rinwedd eu Hofferenau, rannu a chyfleu, fel y mynont eu hun, er lles i ddynion, holl ryglyddiad marwolaeth Crist: (nid anllai er na wyr nemor un beth y maent arno) nid yw eu helynt hwy yn hyn o beth ddim onid gwatwarwch, a chwimp Paganaidd, ac ynfydrwydd. Herwydd nid gwaith yr Offeiriad offerenllyd, eithr ein ffydd ein hunain, sy'n cyfroddi croes a marwolaeth Crist, er budd a lles i ni. Medd Awstin [6], *y ffydd*

[4] In Ioan. tract. 50. [5] Libro de cæremoniis Ecclesiæ Rom.
[6] Ad Rom. cap. iii. lib. 3.

*sy gan ddynion yn y Sacramentau, ac nid y Sacramentau, a'u cyfiawnhâa hwynt.* Ac medd Origen, *Crist sydd Offeiriad, ac Efe yw'r offrwm, ac Efe ydyw'r cymmod-iawn, yr hwn gymmod-iawn sydd yn dyfod i bawb drwy ffydd.* Felly yn y modd hyn, meddwn ni, ni wna'r Sacramentau les yn y byd i'r rhai byw, heb ffydd; a llai o lawer i'r rhai meirw [7]. A thuag at am eu ffrost hwy am eu Purdan, er cyfaddef o honom nad ydyw hwnnw beth hwyr iawn wedi codi yn eu plith hwy, nid yw ef er hynny ddim amgen onid ffolder, a choel gwrach yn y lludw. Yn wir, Awstin sydd weithiau yn dywedyd fod y fath le a'r Purdan hwnnw: weithiau eraill nid yw ef yn gwadu na ddichon bod y fath le: weithiau ammeu, ac weithiau drachefn gwadu y mae ef nad oes mo'r fath beth: gan dybied ddarfod twyllo dynion yn hynny drwy'r anwyl serch y maent hwy yn ei ddwyn i'r rhai meirw oedd hoff ganddynt. Er hynny oll, o'r unig amryfusedd hyn y tyfodd cymmaint twf a chynhauaf o Offeren-ffeiriadau: a phan oedd arferedig werthu Offerenau ym mhob cilfach, Temlau Duw a ddigwyddasant yn dafarnau gwerth; gan wneuthur i ddynion truain goelio, nad oedd ddim amgen rheitiach eu prynu. Gwir yw, nad oedd ddim yn dwyn mwy elw i'r Offeiriaid o'i werthu nag Offerenau.

XVIII. Tuag at am luosogrwydd y Seremonïau ofer, ni a wyddom ddarfod i Awstin [8] gwyno yn dost o herwydd hynny yn ei amser ef [9]; achos paham y darfu i ni dorri ymaith lawer o honynt, er mwyn gwybod o honom fod cydwybodau dynion mewn trafferth, ac Eglwys Dduw mewn gorthrech o'u plegid.

Cadwasom gyd â ni, er hynny, mewn parch, nid yn unig y pethau a wyddom eu traddodi o'r Apostolion i ni, eithr pethau eraill hefyd y rhai a dybiasom y gallem eu goddef yn ddiniwed i'r Eglwys, o ran fod gofal gennym, fel yr erchis Paul [1], am *gwblhâu pob*

[7] Aug. in Psal. 85. In enchiridio, cap. 6, 7. De civitate Dei, lib. ii. c. 26. Contra Pelagianos, lib. hypognosticon. 5.

[8] Amdd. St. Awstin. [9] Ad Ioan. Epist. i. 9. [1] 1 Cor. xiv. 40.

*peth yn y cyssegr-gynnulleidfa drwy drefn a gweddus-dra.* Pob peth a'r ydoedd gau-addoliaeth, neu ddifudd, neu fryntni, neu watwarwch, neu yn erbyn yr Ysgrythyrau Glân, neu yn anghyfaddas i ddynion pwyllus, fel y mae heddyw aneirif o bethau yng nghrefydd y Pab; y rhai hynny a ddarfu i ni eu bwrw ymaith, yn bendifaddeu, er mwyn na chlywem ar ein calonnau adael llygru gwir wasanaeth Duw drwy'r fath ofregedd.

XIX. Dywedyd ein gweddïau yr ydym, fel y mae'n gymhwys, yn yr iaith y mae'r bobl yn ei deall, megis, yn ol cynghor St. Paul [2], y gallo'r bobl gael lles cyffredinol drwy gyffredinol weddïau; modd yr arferodd holl Dadau duwiol a'r Esgobion Catholig, yn yr hen a'r newydd Destament, bob un o'r ddau, weddïo eu hunain, a dysgu i'r bobl weddïo: rhag i ni, fel y dywedodd St. Awstin, *megis yr adar parottau a'r mwyeilch, gymmeryd arnom ddywedyd y peth nis gwyddom.*

XX. Nid oes gennym Gyfryngwr na Gweddïwr arall drwy'r hwn y deuwn at Dduw, onid Iesu Grist; yn enw'r Hwn yn unig, mae ei Dad Ef yn caniattâu pob peth. Eithr peth cywilyddus, a llawn o anghrediniaeth, ydyw'r hyn sy gyffredinol ym mhob man yn Eglwysi ein gwrthwynebwyr, fynnu o honynt gael rhifedi aneirif o Seintiau i weddïo drostynt, a hynny yn hollol heb awdurdod gair Duw, a bod, fel y dywedodd y Prophwyd Ieremiah [3], cynnifer o Seintiau ag sydd o ddinasoedd neu ychwaneg, a'r bobl (druain gwerin) ni wyddant pa'r Saint oreu iddynt ymgais âg ef. A hefyd er bod cymmaint nifer o Seintiau na ellir mo'u rhifo, etto'r gwŷr hyn a osodasant gopinod o ddyledus gamp, a chyfaddas swydd pob un o honynt, nid amgen na pheth a ddylai y Seintiau ei geisio ar law Duw, a pheth a ddylent ei roddi, a'i gwblhâu, o'u gwaith eu hun. Heblaw hyn i gyd, galw y maent, nid yn unig yn annuwiol, eithr yn ddigywilydd, ar Fair Forwyn, Mam

[2] 1 Cor. xiv. [3] Jer. ii. 28; xi. 13.

Crist, gan erchi iddi goffhâu ei bod hi yn Fam, a bod yn gymmesur iddi orchymyn ei Mab, a chymmeryd arni allu ac awdurdod Mam ar ei Hetifedd.

XXI. Cyfaddef yr ydym eni pob dyn mewn pechod, a bod pawb yn treiglo eu heinioes mewn pechod: na ddichon neb ddywedyd, mewn gwirionedd, fod calon lân ganddo: dywedyd yr ydym nad yw'r dyn cyfiawnaf onid gwas difudd: hefyd mai perffaith ydyw Cyfraith Dduw, a mynnu o honi gael ufudd-dod perffaith gennym ni: na allwn ni, mewn modd yn y byd, gyflawni'r Gyfraith hon yn y bywyd yma: ac nad oes un dyn a ddichon gael ei gyfiawnhâu drwy ei haeddedigaethau ei hun ger bron Duw: ac am hynny, nad oes gennym nodded, na chyrchfa arall i ddiangc atti, eithr yn unig at drugaredd Dduw ein Tad drwy Iesu Grist, dan gadarn-goelio a hyfforddi ein meddyliau mai Efe sy'n cael maddeuant i ni o'n pechodau; a golchi yn lân holl fryntni ein pechodau ni yn ei waed Ef: ddarfod iddo Fo heddychu pob peth drwy waed ei Groes: ddarfod iddo Fo gwblhâu a chyflawni pob peth drwy'r unig aberth hwnnw a offrymmodd Ef unwaith ar y Groes. Ac am hynny pan roddes Ef yr yspryd i fynu, y dywedodd Efe, GORPHENWYD[4]; megis mynnu o hono Ef arwyddocâu ddarfod yr awrhon gwbl-dalu pris a phridwerth dros bechodau holl rywiogaeth dyn.

XXII. Od oes neb yn tybied na wasanaetha yr aberth hwn, elont ar nawdd Duw, a cheisiont un arall a fo gwell. Nyni'n wir, oblegid gwybod o honom mai hwn yw'r unig aberth, ydym foddlawn gennym ef yn unig, heb edrych am un arall. Ac oblegid nad oedd hwn ond unwaith i'w offrymu, nid ŷm ni yn peri adnewyddu'r offrwm hwnnw drachefn: ac o herwydd bod yr aberth hwn yn gyflawn ac yn berffaith ym mhob rhan ac ystyriaeth, nid ydym ni yn gosod yn lle hwnnw mo'r aberthau i barhâu yn wastad yn ol eu gilydd.

XXIII. Yn ychwaneg, er dywedyd o honom nad

[4] Ioan xix. 30.

oes i ni ddim gobrwy drwy ein gweithredoedd ein hunain, eithr gosod o honom holl hanfod ein hiechydwriaeth yng Nghrist ei Hun, etto er hynny nid ydym yn dywedyd y dylai dynion fyw mewn rhyddid a maswedd, megis na bai raid i Gristion ddim amgen na'i gred a'i Fedydd; ac na cheisid ond hynny ganddo: canys ffydd gywir sydd fywiog a ffrwythlawn, ac ni ddichon fod yn segurllyd.

Llyma wele'r modd yr ydym ni yn dysgu'r bobl; ddarfod i Dduw ein galw ni, nid i loddest ac anlladrwydd, eithr, fel y dywedodd St. Paul [5], *i weithredoedd da, fel y gallem rodio ynddynt:* a darfod i Dduw ein dwyn ni *oddiar allu'r tywyllwch i wasanaethu y Duw byw.* Megis y gallem dorri ymaith holl weddillion pechod, a *gweithio ein iechydwriaeth mewn ofn a chrynfa,* fel y bo hynod fod Yspryd y sancteiddrwydd yn ein cyrph, a Christ ei Hun drwy ffydd [6] yn trigo o fewn ein calonnau.

XXIV. Ym mhellach, credu yr ydym am y cnawd yma, yn yr hwn yr ŷm yn byw, er iddo ar ol marwolaeth fyned yn bridd, etto yn y dydd diweddaf y dychwel ef i fywyd drwy waith Yspryd Crist sy'n trigo ynom: a dïau ydyw, beth bynnag a ddioddefom er mwyn Crist yn y cyfamser, y sych Efe y pryd hynny bob deigr wylofain o'n llygaid; ac y cawn ni drwyddo Ef fwynhâu bywyd tragywyddol, a bod byth gyd âg Ef, mewn gogoniant. Amen.

---

## PENNOD III.

*Yn cynhwys profiadau amlwg o'r achosion paham, ac o ba le, y cododd Heresiau, neu âu grediniaethau yn yr Eglwys, ynghyd â sylwadau ar bob math o honynt ym mhob rhyw bryd.*

I. Llyma wele'r echryslawn Heresi honno, am yr hyn y mae Pab Rhufain yr awrhon, yn barnu ac yn bwrw

[5] Ephes. ii. 10. [6] Nid yw "drwy ffydd" yn y Saes.

ar goll y darn mwyaf o'r byd, heb wrando erioed etto ystyriaeth eu hachos hwynt. Cymhwysach fuasai iddo erlyn cyfraith yn erbyn Crist a'r Apostolion, a'r Tadau sanctaidd; herwydd o honynt hwy nid yn unig mae hanfod, eithr dechreu a dosparth y grediniaeth hon: oddieithr i'r Pab a'i blaid ddywedyd, (fel y gwnant ysgatfydd) nad ordeiniodd Crist y Cymmun sanctaidd i'w rannu ymysg y rhai ffyddlawn; neu ddarfod i Grist, a'r Apostolion, a'r hen Dadau, ddywedyd Offerenau neillduol ymhob congl o'u Temlau, weithiau ddeg, weithiau ugain, mewn un diwrnod: neu ddarfod i Grist a'r Apostolion wahardd yr holl gyffredin-bobl oddi wrth Sacrament ei waed Ef: neu nas galwodd Gelasius, eu hathraw hwynt, yn gyssegr-ledrad y peth y maent hwy yn ei wneuthur heddyw ym mhob man, gan farnu yn Heretic y neb a wnelo amgen: neu na ddywedodd Ambros, Awstin, Gelasius, Theodoret, Chrysostom, ac Origen, y geiriau hyn: *Y bara a'r gwin yn y Sacrament ydynt yr unrhyw ag oeddynt o'r blaen: y peth yr ydys yn ei weled ar y bwrdd sanctaidd, bara ydyw: nid ydyw sylwedd y bara, a naturiaeth y gwin yn peidio: ni newidiwyd mo sylwedd a naturiaeth y bara: y bara hwnnw, cymmaint ag a hanyw o ddeunydd bara, sy'n myned i'r bol, ac a fwrir allan i'r dommen;* neu na weddïodd Crist a'r Apostolion, a'r Tadau sanctaidd, yn yr iaith y gallai'r bobl eu deall: neu na chwblhâodd Crist y cwbl drwy'r unig aberth hwnnw, a offrymodd Efe unwaith [1]; neu mai ammherffaith oedd yr aberth hwnnw, a bod yn rhaid i ni'r amser yma wrth un arall. Hyn i gyd a orfydd i'r Pabyddiaid ddywedyd, oni bydd gwell ganddynt, ond odid, ddywedyd yn y modd yma; Fod pob cyfraith a chyfiawnder wedi ei gau a'i gloi o fewn cist dwyfron y Pab; ac fel ni bu blyg ar dafod un o'i weision a'i wenieithyddion ef ddywedyd [2] y dichon y Pab roddi cenhad a chyd-ddwyn yn erbyn yr Apostolion [3], yn erbyn Cynghor, yn erbyn

[1] Amdd. "Ar y groes."
[2] Dist. 36. Lector in Glossa, Dist. 81. Presbyter.
[3] Lat. "Apostolum."

rheoledigaethau'r Apostolion: ac nad ydyw'r Pab rwymedig i sefyll wrth esamplau, a deddfau, a chyfreithiau Crist.

II. Nyni a ddysgasom y pethau hyn gan Grist, gan yr Apostolion, a chan y Tadau sanctaidd; ac ydym yn ffyddlawn yn dysgu'r unrhyw i dylwyth Dduw; o achos paham, mae Pen-Esgob y grefydd yn ein galw ni, y pryd hyn, yn Hereticiaid. O dragywyddol Dduw! a aeth Crist ei hun, wrth hynny, a'r Apostolion, a chynnifer o Dadau sanctaidd, ar gyfeiliorn? wrth hynny, ydoedd Origen, Ambros, Awstin, Chrysostom, Gelasius, Theodoret, ymwrthodwyr â'r ffydd Gatholig? wrth hynny, ydoedd cyttundeb cynnifer o Esgobion a gwŷr dysgedig ddim amgen onid cydfwriad Hereticiaid? neu ydyw'r pryd yma, ddamnedig ynom ni, y peth ydoedd y pryd hynny ganmoledig ynddynt hwy; neu'r peth ydoedd yr amser hwnnw Gatholig ynddynt hwy, ai Sism yw hynny'r awrhon ynom ni, a hyn o herwydd newidio meddyliau dynion? neu er mwyn nad yw'n rhyngu bodd iddynt hwy, ai anwir heddyw ydyw'r peth oedd wir gynt? dangosant hwythau wrth hynny Efengyl arall, neu adroddant yr achosion paham y gorfydd dileu yr awrhon yn y diwedd, y pethau a gadwyd ac a fuont gymmeradwy gyhyd ac mor gyffredinol yn Eglwys Dduw. Ni a wyddom yn dda am y gair yr hwn a hynododd Crist, ac a daenodd yr Apostolion ar led, ei fod ef yn ddigon grymus i gadw ac i gynnal ein hiechydwriaeth a phob gwirionedd, a hefyd i wrthladd pob Heresi. Drwy'r gair hwnnw yn unig, condemnio[4] yr ydym ni bob math o'r hen Hereticiaid, a'r y mae ein gwrthwynebwyr yn haeru arnom eu galw a'u hadgyfodi o uffern; nid amgen na'r Ariaid, Eutychiaid, Marcioniaid, Ebionæaid, Valentiniaid, Carpocratiaid, Tatianiaid, Novatiaid; ac, ar fyr eiriau, pob un o'r sawl oeddynt yn tybied yn annuwiol o Dduw'r Tad, neu o Grist, neu o'r Yspryd Glân, neu o ryw ran arall o grefydd Crist: oblegid

[4] Euog-farnu.

argyhoeddi o'r Efengyl hwy, dywedyd yr ŷm ninnau eu bod hwy yn ddynion echryslawn, wedi darfod am danynt[5], gan eu cashâu a'u ffieiddio hyd ym mhyrth uffern. Ac nid ŷm yn unig yn eu gadael hwy felly, eithr o digwydd iddynt darddu allan ar led yn un lle, gwasgu'r wàrrog arnynt yr ydym drwy nerth cyfraith a chospedigaethau corphorawl.

III. Yn wir, cyfaddef yr ydym, pan gyntaf ag y cododd yr Efengyl, godi hefyd yn y byd Sectau newyddion ni chlywyd son am eu bath; sef, yr Anabaptistiaid, Libertiniaid, Mennoniaid, Zuenkfeldiaid. Eithr i Dduw y dïolchwn, fod yr holl fyd yn gweled na ddarfu i ni ddwyn i'r byd, na dysgu, na magu'r pethau erchyll hyn. Darllen, attolwg, pwy bynnag wyt, ein llyfrau ni, y maent ym mhob man ar werth. Beth a ysgrifenodd un o'n teulu ni erioed a'r a allai gyttuno yn amlwg âg ynfydrwydd yr Hereticiaid hyn? Neu, yn hytrach, nid oes un goror y dydd heddyw cyn rhydded oddi wrth y pla-heintiau hyn, ag ydyw'r gwledydd lle yr ydys yn dysgu'r Efengyl yn llwybraidd, ac yn gyffredinol. A phetai ein gwrthwynebwyr ni yn gwneuthur iawn ystyriaeth o'r achos fel y dylent, prawf mawr yw hyn mai dyma wirionedd yr Efengyl yr hon yr ydym ni yn ei dysgu i'r bobl; antur i lêr dyfu ond gyd â gwenith; odid dyfu peiswyn heb ŷd. Pwy ni ŵyr er amseroedd yr Apostolion eu hunain, pa sawl Heresi a gyd-godasant, yn y man, pwy'n gyntaf ag y taenwyd yr Efengyl ar led? Pwy erioed a glywsai sôn o'r blaen am Simon, Menander, Saturnius, Basilides, Carpocrates, Cerinthus, Ebion, Valentinus, Secundus, Marcosius, Colorbasius, Heracles, Lucianus, a Severus? Beth a wnawn ni yn coffhâu y rhai hyn? Epiphanius a gyfrifodd bedair-ugain amryw Heresi; ac Awstin yntau, lawer amryw Heresi ychwaneg, a ddarfuasai iddynt gyd-dyfu gyd â'r Efengyl. Beth er hynny? Ai yr Efengyl nid ydoedd Efengyl er mwyn geni Heresiau gyd â hi? Neu, ai Crist nid ydoedd Grist am yr un achos?

[5] Amdd. "damned."

IV. Etto er hynny, mal y dywedasom o'r blaen, nid yw'r cnŵd hwnnw yn egino gyd â nyni, y sawl ydym yn dysgu yr Efengyl i'r bobl yn llwybraidd, ac yn gyffredinol. Ymhlith ein gwrthwynebwyr ni, mewn dallineb a thywyllwch, mae'r gwenwynig bethau hyn yn codi, ac yn cael cynnydd a nerth, lle'r ydys drwy greulondeb yn gorthrechu'r gwirionedd megis na cheir clywed mo hono oddi eithr mewn cilfachau, a dirgel ymgyrchiadau. Treiont yn hydda; caniattânt y ffordd yn rhydd i'r Efengyl: tywyned gwirionedd Iesu Grist, ac estyned ei belydyr disglaer i bob man; a hwy a gânt weled yn y fan, modd y difanai'r cysgodau uchod wrth lewyrch yr Efengyl, yr un agwedd a thywyllwch y nos wrth ddisgleirdeb yr haul. Canys, yn y cyfamser, tra fo'r gwŷr hyn yn eistedd a'u bryd ar beth arall, rhwystro a gwrthladd beunydd yr ŷm ni yr holl Heresiau dywededig, y rhai maent hwy yn cam-haeru arnom eu magu â'u mawrhâu.

V. Lle maent hwy yn dywedyd ein bod ni wedi ein gwahanu yn Sectau, a bod rhai o honom yn mynnu ein galw yn Lutheraniaid, ac eraill yn Zuingliaid; ac na fedrasom ni etto gyttuno yn ein mysg ein hunain ynghylch sylwedd athrawiaeth y ffydd: beth a ddywedasent hwy pe y buasent yn amseroedd cyntaf yr Apostolion a'r Tadau sanctaidd? pan ddywedai un, *ar du Paul yr ydwyf fi; ar du Cephas*, meddai'r llall, *yr ydwyf finnau; a minnau*, medd y trydydd, *yn da gyd âg Apolos;* pan oedd Paul yn ceryddu Petr: pan ar soriant yr ymadawodd Barnabas â Phaul: pan oedd y Cristionogion, fel y dywedodd Origen, wedi eu gwahanu mewn cynnifer o bleidiau, ag nad oedd ganddynt ddim tebyg i Gristionogion ond yr enw yn unig, a'u bod hwy ym mhob peth arall yn annhebyg i Gristionogion; a'r bobl, fel y dywedodd Socrates, yn gwneuthur gwawd a gwatwar cyhoedd am eu pennau hwy yn y chwareufäau, oblegid eu cynhenau a'u Sectau; hefyd, fel y mynegodd Cystennyn yr Amherawdwr, fod y pryd hynny gymmaint amryw ymryson ac ymsennu yn yr Eglwys, nad oedd yr holl drallod

a'r blinfyd a fuasai ym mlaen-llaw, ddim cyffelyb iddo: pan ymrysonai Theophilus, Epiphanius, Chrysostom, Awstin, Ruffinus, Ierom, y rhai oeddynt Gristionogion a Thadau Catholig, bob un yn erbyn eu gilydd, heb ddiben na dosparth o'u chwerwedd a'u hamrafaelion; pan oedd aelodau o'r un corph (fel y dywedodd Nazianzen) yn difa eu gilydd: pan oedd gwahaniaeth rhwng y gwŷr Eglwysig o'r dwyrain, a'r llaill o'r gorllewin, ynghylch bara lefeinllyd, ac amser y Pasc, yr hyn bethau nid oeddynt fawr iawn i wneuthur trin am danynt: a phan ym mhob Cymmanfa-Gynghor y gwneid credo newydd a deddfau newyddion yn wastadol; beth a ddywedasai'r bobl yma, debygwch chwi, yn yr amseroedd hynny? yna pa blaid a gymmerasent hwy yn bennaf? a pha blaid a wrthodasent hwy? pa Efengyl a gredasent hwy? pa rai a enwasent hwy yn Hereticiaid, a pha rai yn Gatholiciaid? ac etto pa drin a thrallod maent hwy yn ei wneuthur y pryd hyn ynghylch dau enw, Luther a Zuinglius, megis oblegid darfod i'r ddau yma anghyttuno yn rhyw beth, am hynny y dylem ni goelio eu bod hwy ill dau mewn amryfusedd; nad oedd yr Efengyl gan yr un o'r ddau: ac nad oedd yr un o'r ddau yn dysgu y gwir yn iawn?

VI. Eithr, O Dduw daionus! pa fath ddynion ydyw y rhai hyn sydd yn beio arnom ni am ymrafaelion? ac ydynt hwy eu hunain, debygwch chwi, yn cyttuno yn dda? yw pob rhai o honynt hwy yn ddiammeu ganddynt beth a ganlynant? Oni bu erioed ddim ymryson, dim ymrafaelion, yn eu plith hwy? paham ynte, nad yw y Scotistiaid, a'r Thomistiaid, yn cyttuno yn well yn eu mysg eu hun, ynghylch y peth y maent hwy yn ei alw, *Meritum congrui* a *Meritum condigni*, ynghylch pechod dechreuadol yn y wynfydedig Fair, ac ynghylch addunedau, sef, *Votum solenne, et votum simplex?* paham mae'r[6] Canonistiaid yn dywedyd ddarfod ordeinio y Gyffes-glust drwy gyfraith dyn; a'r

[6] Amdd. "Eu."

Ysgolheigwyr hwythau yn dywedyd ddarfod ei hordeinio drwy Gyfraith Dduw? paham y mae ymrafael rhwng Albert Pighius a Caietanus; rhwng Thomas a Lombard; rhwng Scotus a Thomas; rhwng Ochamus a Scotus; rhwng Alliensis ag Ochamus; rhwng y Nominaliaid a'r Realiaid? ac nid wyf fi yn crybwyll etto am gynnifer amrafaelion y Ffrierod a'r Mynachod[7], fod rhai o honynt yn cyfleu sancteiddrwydd mewn bwytta pysgod, eraill mewn bwytta llysiau; rhai mewn gwisgo esgidiau, eraill mewn sandalau; rhai mewn gwisg lïain, eraill mewn gwisg wlân; rhai o honynt yn gwisgo dillad gwynion, eraill ddillad duon; rhai wedi eillio eu corynau yn llettach, eraill yn gyfyngach; rhai yn myned â gwadnau dan eu traed, eraill yn draed noethion; rhai â gwregysau am danynt, a rhai eraill heb wregysau. Hwy a ddylent goffa hefyd, fod rhai o'u plaid hwy eu hunain yn dywedyd fod corph naturiol Crist yn Swpper yr Arglwydd; drachefn, y mae rhai eraill o honynt o'r un blaid yn dywedyd y[8] gwrthwyneb: mae rhai o honynt yn dywedyd ein bod ni yn dryllio ac yn briwo â'n dannedd gorph Crist yn y Cymmun cyssegredig, yr hwn beth mae rhai eraill o'r un blaid yn ei wadu; mae rhai o honynt yn ysgrifenu fod corph Crist, *Quantum in Eucharistia*, sef, fod ei gwbl faintioli ef yn y Sacrament; a rhai eraill o honynt yn dywedyd nad yw. Mae rhai yn dywedyd ddarfod i Grist gyssegru drwy nerth ei allu Dwyfawl, eraill o honynt yn dywedyd gyssegru o hono Fo drwy fendithio[9]; rhai yn dywedyd mai drwy nerth pum gair detholedig, ac eraill o honynt mai drwy ddywedyd eilwaith y pum gair hynny, y cyssegrodd Efe: mae rhai o honynt yn tybied mai yn y pum gair hynny, *Hoc* (y rhag-enw dangos) oedd yn arwyddocâu y bara gwenith; ac eraill yn well ganddynt goelio fod Crist yn meddwl, yn hynny, ryw *individuum vagum*[1]; (fel

[7] S. Gardinerus in Sophistica Diaboli. Ricard. Faber. Recantatio Berengarii, Schola, et Glossa. Guimundus, De consec. dist. 2. Ego Beren.

[8] Amdd. "Yn hollol yn." [9] Thomas. [1] Gardinerus.

y galwant hwy'r peth :) mae rhai o honynt yn dywedyd y dichon cŵn, a llygod, wir-fwytta corph Crist: eraill yn gwadu hynny yn syth iawn [2]. Mae rhai eraill yn dywedyd y dichon lliw, a llun, a hyd, a lled y bara a'r gwin borthi: a rhai yn dywedyd fod sylwedd y bara yn ymchwel drachefn [3]. Pa raid sôn ychwaneg? rhy hir a gormod poen fyddai coffa a chyfrif pob peth, rhag mor ammheus ac ymrafaelgar hyd yn hyn o amser yw dull holl grefydd y gwŷr hyn yn eu plith eu hunain, lle y cafodd y grefydd hon faeth a dechreuad. Antur iddynt a chyttuno un amser yn eu mysg eu hun, oddi eithr ysgatfydd fel y Phariseaid a'r Saduceaid; neu fel Herod a Philat, yn erbyn Crist.

VII. Goreu peth fyddai iddynt, wneuthur heddwch yn eu plith eu hun gartref. Ac yn wir nid oes ddim harddach a gweddusach i Grefydd, nag undeb a chyttuniad. Etto nid yw hyn nôd addas, diammheuol, o Eglwys Dduw: canys cyttundeb mawr oedd ym mysg y sawl a addolodd y llo euraidd; ac ym mysg y rhai a gyd lefasant yn groch yn erbyn ein Prynwr Iesu Grist, *Croeshoelia Ef.* Ac ni ddylem ni dybied oblegid bod ymrafaelion ym mysg y Corinthiaid, neu ddigwyddo peth anghydfod rhwng Petr a Phaul, neu fod ymryson rhwng Barnabas a Phaul; neu er mwyn nad oedd y Cristionogion yn medru cyttuno bawb â'u gilydd, ynghylch rhyw beth, wrth ddechreuad yr Efengyl, mai am hynny, nad oedd Eglwys Dduw yn eu plith hwy. Tuag at am y rhai y maent hwy o wir gâs yn eu galw yn Zuingliaid ac yn Lutheraniaid; digon gwir yw bod y ddeuryw hynny yn Gristionogion, yn hôff ganddynt eu gilydd, ac yn frodyr. Nid yw yr ymrafael rhyngddynt hwy ynghylch gwraidd a dechreuad ein Crefydd ni, ac nid ynghylch Duw, na Christ, na'r Yspryd Glân, na pha fodd y'n cyfiawnhêir, nag ynghylch bywyd tragywyddol, y maent hwy yn

[2] De consec. dist. 2. Species Glossa.
[3] Amdd. "drwy wyrth." Lat. "redire substantiam."

anghyttuno; eithr yn unig ynghylch un pwngc, a hwnnw heb fod chwaith dwys, na mawr iawn. Ac nid oes anobaith nag ammeu gennym, na bydd cyttundeb rhyngddynt ar fyr o amser. Ac od oes rai o honynt â choelion amgenach ganddynt, nag a weddai, diammeu y rhoddant heibio eu gŵir-feddyliau a'u henwau pleidiau, cyn y bo hir; ac yr hynoda Duw iddynt hyn[4]: megis ac wrth ystyrio yr achos yn well, a'i chwilio yn fanylach, (fel y darfu gynt yn y Gymmanfa-Gynghor yn Calcedonia) y tynnir o'r gwraidd, ac y cleddir byth mewn anghof, holl egin ac achosion anghyttundeb; A PHOED GWIR.

VIII. Ond tryma' peth yw hyn, eu bod hwy yn dywedyd am danom mai dynion bryntion annuwiol ydym, wedi bwrw ymaith yn hollol ofalu am Grefydd: ac etto ni ddylai hyn mo'n trymhau nemor chwaith, gan eu bod hwy eu hunain y rhai a haerasant hyn arnom, yn gwybod mor oganllyd, ac mor ffals ydyw. Canys Iustin y Merthyr sydd yn tystiolaethu, pan ddechreuwyd pregethu'r Efengyl a gosod allan enw Crist, mai peth cyffredin y pryd hynny oedd galw yr holl Gristionogion Ἀθέους, sef, *dynion di-Dduw.* A phan oedd Polycarp yn sefyll i'w farnu, yna yr annogai'r bobl y Rhag-Benrhaith i ladd a difa cymmaint un y sawl addefent yr Efengyl, gan ddywedyd fel hyn Αἶρε τοὺς ἀθέους[5], sef, *gwna ben am y dynion melldigedig yma sy heb Dduw ganddynt.* Ac nid ydoedd hyn o drin, o herwydd bod yn wir nad oedd Dduw gan y Cristionogion, eithr o herwydd nad addolent hwy gerrig a chyffion[6], y pethau a addolid y pryd hynny megis duwiau. Ond mae yr holl fyd bellach yn gweled yn ddigon amlwg, beth a ddioddefasom ni a'n cyd-frodyr gan y gwŷr hyn, er mwyn Crefydd ac unig achos ein Gwir Dduw. Hwy a'n bwriasant ni i'r carcharau, i'r dyfroedd, i'r tân, ac a ymdrybaeddasant yn ein gwaed

[4] Amdd. "Y Gwir." [5] Euseb. lib. iv. cap. 15.
[6] Cyppyllion.

ni; a hynny, nid oblegid ein bod ni yn odinebwyr, neu yn lladron, neu yn lladd dynion, namyn yn unig er mwyn ein bod ni yn cyfaddef Efengyl Iesu Grist, ac yn gobeithio yn y Duw byw; ac er mwyn i ni achwyn (Duw Ti a'i gwyddost) nid heb achos rhy gyfiawn a rhy gywir, ddarfod iddynt dorri Cyfraith Dduw o ran eu Traddodiadau coegion eu hunain: a bod ein gwrthwynebwyr ni yn gas iawn ganddynt yr Efengyl, ac yn elynion i Groes Crist, oblegid iddynt drwy lawn wybodaeth, ac o wir waith oddeu[7], mewn cyndynrwydd ddirmygu gorchymynion Duw.

IX. Gan hynny, pan welsant hwy na ellid cael achos cyfiawn i feio ar ein hathrawiaeth ni, yna rhoi llawnfryd a wnaethant ar oganu ein buchedd, gan haeru arnom ddamnio[8] pob gweithred dda, agoryd y drysau i bob anllywodraeth ac anlladrwydd, a cham-arwain o honom ni'r bobl allan o holl lwybrau rhinwedd. Ac o ddywedyd y gwir, nid ydyw, ac ni bu erioed fuchedd dynion (pe rhown ac eu bod hwy yn dduwiol, ac yn Gristionogion) cyn bured na ellid cael peth gwall yn ymddygiad y rhai gorau a'r rhai diweiriaf: hefyd, mae'r cyfryw naturiaeth ym mhob math ar ddyn i ogwyddo at ddrygioni, a chyn hawsed hefyd gan bawb ddrwg dybied, ag y gellir clywed dywedyd, a pheri coelio, y pethau ni wnaethpwyd erioed, ac nid amcanwyd eu gwneuthur. Ac fel y canfyddir yr ysmottyn lleiaf yn y dilledyn gwynaf, felly hawdd yw craffu ar y gronyn lleiaf o fryntni yn y fuchedd lanaf. Nid ŷm ni yn tybied ein bod ni ein hunain (neu'r cynnifer a dderbyniodd athrawiaeth yr Efengyl) fel Angylion, ac yn byw yn ddifeius ac yn ddifrycheulyd: ac ni thybiwn ni chwaith, allu o'r gwŷr hyn fod mor ddall nas canfyddant hwy drwy'r rhigol lleiaf od oes dim ynom a ellir craffu arno; na'u bod hwy mor hawddgar ag y cymmerant hwy ddim o'r eiddym ni yn y rhan gorau, nag etto mor rhywiog eu hystyriaeth, ag y bydd gwiw

[7] Yn wir fwriadol.

[8] Euog-farnu.

ganddynt droi eu golwg yn ol, i edrych arnynt eu hun a chyd-bwyso ein buchedd ni gyd â'r eiddynt eu hunain. Od aem ni i chwilio yn fanwl hyn o beth o'r dechreuad, ni a wyddom fod yn amser yr Apostolion, ddynion Cristionogion, drwy y rhai y ceblid enw'r Arglwydd, ac y gogenid ef ymhlith y cenhedloedd.

X. Cystennyn yr Amherawdwr, fel yr ysgrifenodd Sozomen, a gwynai gynt fod llawer yn myned yn waethwaeth ar ol cymmeryd arnynt Grefydd Crist. Cyprian yntau mewn araith alarus a osododd allan lygredigaeth ei amser ef[9]. *Segurwch a hir dangnefedd,* eb efe, *a lygrodd yr athrawiaeth yr hon a draddodasai yr Apostolion i ni. Pob un yn myfyrio am helaethu ei dref-tad, a chan ollwng dros gôf bob un o'r ddau, beth a wnaeth y crediniaid gynt dan yr Apostolion, a hefyd beth a ddylai pob Cristion ei wneuthur byth: hwy a roddasant eu llawn ofal ar amlhâu eu dâ bydol, drwy fawr awydd cybydd-dra annigonawl. Nid oes dim cywir-grefydd yn yr Offeiriaid; nid oes mo'r ffydd gyfan yn y Gweinidogion; nid oes dim trugaredd mewn gweithredoedd; na dim addysg ym moesau dynion; y gwŷr a aethant yn wrageddaidd; a'r gwragedd a baentiasant eu gwynebpryd.* A chyn amser Cyprian y dywedodd Tertulian. *O mor druain ydym ni a elwir y Cristionogion y pryd hyn! byw yr ydym ar ol dull y Cenhedloedd dan enw Crist.*

XI. A chwedi hynny (nid er cofio'r holl Ystorieuwyr) Gregory Nazianzen a ddywedodd fel hyn am y druanaidd gyflwr yn ei amser ef: *Mae i ni,* eb efe, *gâs a dygasedd ym mysg y Cenhedloedd, er mwyn*[1] *ein camweddau. A hefyd nyni aethom yn rhyfeddod, nid yn unig i Angylion, ac i ddynion, eithr yn hollol i'r holl rai annuwiol.* Llyma'r cyflwr yr oedd Eglwys Dduw ynddo, pan ddechreuodd yr Efengyl gyntaf oleuo, a phan nid oerasai etto gynddeiriogrwydd y Traws-Bennaethiaid, ac ni thynnesid etto mo'r cleddyf oddiar warrau'r Cristionogion. Sef, gwir iawn nad peth newydd

[9] De lapsis. [1] Oblegid.

yw bod dynion yn ddynion, ïe, er cael o honynt eu galw gerfydd enw Cristionogion.

---

## PENNOD IV.

*Yn cynnwys hanes am lywodraeth, bucheddau, a moesau y Pabau a Phabyddion, y rhai a fynnent eu bod yr unig Ben ac aelodau yr Eglwys Lân Gyffredinol, neu Gatholig.*

I. OND tra fo'r gwŷr hyn mor atgas yn ein cyhuddo ni, a feddyliant hwy yn y cyfamser ddim am danynt eu hun? a thra font yn cael hamdden i edrych cymhelled, beth a wneler yn Germania ac yn Lloegr; ai gollwng dros gôf a wnaethant, ai ynte canfod nis gallant, beth yr ydys arno yn Rhufain?

II. Ai'r gwŷr hyn yw ein cyhuddwyr ni, y rhai ni ddichon neb grybwyll am eu buchedd yn ddiwarth, ddigywilydd? ni chymmerwn ni arnom ar hyn o amser ddangos a chyhoeddi i'r byd y pethau a ddylent gael eu cuddio a'u claddu gyd â'r sawl a'u gweithiodd. Nid yw hynny gysson â'n Crefydd ni, ac ni weddai fod chwaith i'n lledneisrwydd a'n gwladeiddrwydd ni. Eithr etto y gŵr [1] sy'n gorchymyn ei alw ei hun yn Ficar Crist, ac yn Ben ar yr Eglwys, ac ydyw yn clywed, ac yn gweled, ac yn goddef, (ni ddywedwn ni ddim chwaneg) gwneuthur pethau drwg yn Rhufain, efe a ddichon yn hawdd rhyngddo ag ef ei hun, feddwl pa fath bethau ydyw y rhai hynny [2]. Deled i'w gôf ef yn hydda a meddylied mai Canonistiaid o'r eiddo ef yw'r rhai hynny, a ddysgasant i'r bobl nad pechod yw godineb rhwng meibion a merched: megis pe dysgasent yr athrawiaeth hon gan Mitio yn llyfr Terens, lle mae ef yn dywedyd fel hyn: *Nid yw bechod, coelia fi, er i fab hel putteiniaid.* Meddylied mai yr eiddo fo

[1] Pab Rhufain.

[2] Johannes de Magistris, de Temperantia, 3. Quæst. 7. lata extr. de bigamis. Quia Circa.

yw'r rhai a wnaethant ddeddf na ddylid symmud Offeiriad o'i le am odineb. Galwed i'w gôf ddarfod i Gardinal Campegius, Albert Pighius, ac i lawer eraill o'i blaid ef, ddysgu i'r bobl fod yr Offeiriad a gadwo ordderch, neu feiriones, yn byw yn sancteiddiach ac yn ddiweiriach o lawer, na'r neb a fo a gwraig briod ganddo. Gobeithio na ollyngodd ef dros gôf fod llawer mil o butteiniaid yn Rhufain, a'i fod ef ei hunan yn casglu ardreth oddi wrthynt, ynghylch[3] naw mil o bunnau bob blwyddyn; ac na all efe ollwng dros gôf, fod o hono ef yn cadw putteindra cyffredin yn Rhufain, ac â'r gwobr brynta', trwy fryntni, a direidi, yn porthi ei chwantau ei hun. Ai pur a sanctaidd ydoedd pob peth yn Rhufain, pan oedd Ioanna, gwraig gymmedrolach o oedran nag o fuchedd, yn Bab Rhufain[4], ac yn cymmeryd arni[5] fod yn Ben ar yr Eglwys; ac ar ol iddi chwareu'r buttain ddwy flynedd yn yr eisteddfa sanctaidd, o'r diwedd wrth fyned mewn gorymdaith o amgylch y dref, yng ngwydd y[6] Cardinaliaid a'r Esgobion, hi esgorodd ar blentyn ar ganol yr heol, yng ngolwg pawb?

III. Pa raid dwyn ar gôf ordderchion a llateion? pechod cyffredinol elw-gar yw hwnnw yn Rhufain y pryd hyn. Eistedd yno mae putteiniaid yr amser yma, nid fel yr eisteddent gynt o'r tu allan i'r dref, wedi gorchuddio eu pennau a'u gwynebau, eithr trigo y maent mewn plasau, a thai gwychion, gan fyned wrth eu bodd i'r llys a'r heol, a'u gwynebau yn ddigudd-iedig; megis na bae hyn o helynt yn unig yn rhydd, namyn hefyd yn ganmoliaeth iddynt. Pa raid ychwaneg? mae bryntni eu buchedd hwynt yr awrhon yn hynod i'r holl fyd. Bernard a ysgrifenodd y gwir yn ddiragrith[7] am dylwyth tŷ Esgob Rhufain, a hefyd am yr Esgob ei hun: *Dy blâs di*, eb efe, *sy'n derbyn dynion da i mewn, ond heb wneuthur un da:*

[3] Amdd. "dros."

[4] Siwan Bab. Mae delw'r wraig hon yn esgor etto i'w gweled yn Rhufain.

[5] Gen. xxxviii. 14, 15.

[6] Amdd. "ei."

[7] In concilio delectorum cardinalium, t. 3.

*yno mae y rhai drwg*[8] *yn tyccio, a'r rhai da yn dryccio.* A phwy bynnag ydoedd hwnnw a ysgrifenodd y *Gwaith-Tri-Rhanog* a gyssylltwyd â'r Cynghor Lateran: *Cymmaint rhyfyg,* medd efe, *anllywodraeth sy heddyw, nid yn unig yn yr Ysgolheigion a'r Offeiriaid, eithr hefyd yn y Prelatiaid a'r Esgobion, ag y mae yn erchyll clywed son am dano.*

IV. A'r pethau hyn nid ydynt yn unig arferedig, ac wrth hir gydfod â hwynt yn gymmeradwy, megis eu holl helyntiau eraill, gan mwyaf, namyn bellach wedi myned yn hen ac yn bwdr addfed. Canys pwy nis gŵyr pa ddialedd a wnaeth Petr Aloisius[9], mab y Pab Paul y Trydydd, â Chosmus Cherius, Esgob Ffano? a'r peth a wnaeth Ioan Casa, Archesgob Benevento, ydoedd genhadwr oddi wrth y Pab at benaethiaid tref Venis, yr hwn Archesgob a ysgrifenodd yng nghanmoliaeth pechod ffiaidd erchyll, yr hwn ni ddylid crybwyll am dano, ac a'i gosododd ef allan â geiriau o'r fath serthaf, mewn cymhendod melldigedig? pwy ni chlywodd mor ddiffaith ac mor echryslawn y lladdodd Alphonsus Diazius (ydoedd Spaniard) ei frawd Ioan Diazius, gŵr gwirion sancteiddiol dros ben, oblegid ddarfod i'r Ioan hwnnw dderbyn Efengyl Iesu Grist, ac na fynnai efe ddyfod i Rufain ond hynny; o achos paham y danfonesid yr Alphonsus uchod o Rufain i Germania i'w ladd ef? Ond fe allai yr attebant hwy y dichon y fath bethau a'r rhai hyn weithiau ddigwydd lle y bo gorau y llywodraeth, a hynny yn erbyn ewyllys y Llywodraethwyr: a bod cyfreithiau da i gospi y cyfryw gamweddau.

V. Gadewch i hynny fod; ond trwy ba gyfraith dda y cospwyd y pethau bryntion hyn? Petr Aloisius ar ol gwneuthur o hono ef y diffeithwch a grybwyllwyd o'r blaen, a gafodd yn wastad wedi hynny ei goledd fel anwylyd ym mynwes ei dad y Pab Paul y Trydydd. Diazius yntau, ar ol iddo ladd ei frawd, a

[8] De consideratione ad Eugenium.
[9] Yn yr Amddiffyniad diwygir hwn i "Alphonsus."

ddïangodd drwy waith y Pab, fel na chai'r gyfraith dda afael arno i'w gospi. Ac am Ioan Casa, Archesgob Benevento, mae'r gŵr hwnnw etto'n fyw: ïe, a byw y mae efe yn Rhufain yng ngwydd y Pab sancteiddiol, a cher bron ei lygaid ef. Hwy a laddasant beth aneirif o'n brodyr ni heb achos yn y byd, ond am gredu o honynt yn Iesu Grist drwy wirionedd a duwioldeb. Eithr o gymmaint llu o butteiniaid, o rai aflan, ac o odinebwyr, pa un a ddarfu iddynt un amser, ni cheisiaf ddywedyd ei ladd, namyn pa un a ddarfu iddynt ei esgymmuno unwaith, neu roi dwylaw arno? Ai anlladrwydd, godineb, putteindra, lladd cerynt, gwarthus aflendid[1] rhwng cerynt, a ffieidd-dra mwy na hynny, nid ydynt bechodau yn Rhufain? neu os pechodau ydynt, ai rhydd i'r Pab sydd Ficar Crist, sydd yn dwyn swydd Petr Apostol, ac sydd sancteiddiolaf Dad, ai rhydd, meddaf fi, iddo ef mor hawddgar, ac mor ysgafn eu goddef, fel na baent bechodau mo honynt; a hynny hefyd yn nhref Rhufain, ac yn nghastell y sancteiddrwydd?

VI. O Ysgrifenyddion a Phariseaid sanctaidd! y rhai ni wybuont beth oedd y sancteiddrwydd hyn! O sancteiddrwydd! O y ffydd Gatholig! Nid y fath bethau a'r rhai hyn a addysgodd Petr i bobl Rhufain. Nid oedd Paul yn byw yn Rhufain yn y modd hyn. Nid oeddynt hwy yn cynnal putteindra cyffredin. Nid oeddynt hwy yn mynnu treth ac ardreth bob blwyddyn gan butteiniaid. Ni oddefent hwy i odinebwyr, a lladdwyr hynod, fyw yn ddigospedigaeth. Ni chymmerent hwy mo'r fath ddynion i'w mynwesau[2] nag i'w cynghor, nag i'w teulu, nag i gynnulleidfa'r Cristionogion. Ac am hynny ni buasai raid i'r gwŷr hyn wneuthur cymmaint twrf a thrin am ein buchedd ni. Synwyrolach fuasai y naill ai profi yn gyntaf peth, fod eu buchedd hwy eu hun yn dda; neu ynte, guddio eu buchedd, a'u beiau, ychydig yn ddirgelach.

VII. Canys mae gyd â ni etto mewn llawn grym a

[1] Llosgdeb. [2] Saes. "familiarity."

nerth, yr hen gyfreithiau gynt, a chyn belled ag y galler, yr amser sydd o honi yr awrhon pan yw buchedd dynion a phob peth wedi llygru, gosod allan yr ydym yr addysg eglwysig yn astud ac yn ddiragrith. Nid oes gennym ni deiau cyffredin putteinllyd, na llu o ordderchion, a godinebwyr: nid ŷm ni chwaith yn gosod allan odineb o flaen priodas, nac yn ymarfer â bryntni anifeilaidd: nac yn casglu ardreth oddi wrth butteindra; nac yn cynnwys godineb ym mysg cerynt, nac erchyll aflendid; nac yn gadael heb gospedigaeth y cyfryw laddwyr ag ydoedd Aloisius, Casa, a Diazius, oblegid ni buasai raid i ni ymadaw â chymdeithas y gwŷr hyn, pe buasai foddlawn gennym y pethau gwenwynllyd yma, y rhai sy gyd â hwynt-hwy mewn clôd a chymmeriad. Ac ni buasai raid i ni chwaith o ran ymadael â hwynt-hwy gael câs dynion, a bod hefyd mewn enbydrwydd anesgorawl. Nid oes etto lawer mis er pan ydoedd gan y Pab Paul y Pedwerydd, fagad o Ffrierod Awstiniaid, lawer o Esgobion, a rhif mawr o wŷr duwiol eraill yng ngharchar am achos Crefydd. Efe a'u rhoes hwy mewn poenau, ac a fu yn ymholi â hwynt, ac a dreiodd bob modd i beri iddynt gyfaddef: ond yn y diwedd, pa sawl dyn anllad, pa sawl putteiniwr, pa sawl godinebwr, pa sawl bryntyn, a allai ef gael yn eu plith hwy i gyd? I'n Duw ni y bo'r dïolch, er nad ydym fel y dylem ac fel yr ŷm ni yn cymmeryd arnom fod, etto pwy ddynion bynnag ydym, os cystedlir ni â hwynt-hwy, diammeu mai hawdd y dihaera'n buchedd a'n gwiriondeb ni yn y pethau y maent hwy yn eu camhaeru arnom. Annog y bobl i bob rhinwedd a daioni yr ydym ni, nid yn unig drwy lyfrau, a phregethau, eithr drwy esamplau, a buchedd. Hefyd, dysgu iddynt yr ydym ni, nad ffrost gwybodaeth ydyw yr Efengyl, namyn Cyfraith y bywyd; ac na ddylai Cristion, fel y dywed Tertulian[3], ddywedyd yn anrhydeddus, namyn byw yn anrhydeddus; a hefyd nad gwrandawyr namyn gweithwyr y Gyfraith

[3] In Apologet. 45.

a gyfiawnhêir ger bron Duw. Heblaw'r pethau yma, a haerasant hwy arnom, eu harfer yw dywedyd hyn hefyd, a'i helaethu drwy bob rhyw ddirmyg a dychan am danom; sef, mai dynion blin trallodus ydym, yn dwyn rhôl a llywodraeth oddi ar Frenhinoedd; gan gyffroi a rhoi arfau yn nwylaw'r bobl, bwrw i lawr eisteddfäau barn; torri cyfreithiau; gwneuthur hafog o bob meddiant; gostwng Brenhinoedd; a chodi'r Cyffredin; bwrw pob peth bendra-mwnwgl; ac, ar fyr o eiriau, na fynnwn ni na threfn, na chyfander, mewn teyrnas [4]. O Dduw! pa sawl gwaith drwy'r geiriau hyn y cynneuasant hwy lid Tywysogion i'n herbyn, megis y gallai y rhai hynny hwythau ddiffoddi goleuni yr Efengyl, yn ei thwf a'i hegin cyntaf, ac y gallent gashâu yr Efengyl cyn gwybod beth ydoedd. A hefyd fel y gallai'r Swyddog dybied ganfod o honaw ef ei elyn glas, bob gwaith ag y canfyddai un o honom ni.

VIII. Fe fyddai yn ofid tost i ni gael ein cyhuddo mor wenwynllyd o ddirfawr Draituriaeth [5], oni bae wybod o honom ni gael o Grist ei Hun, a'r Apostolion, ac aneirif o bobl dda, a Christionogion gynt, eu cashâu a'u cenfigennu am yr un affaith [6], yn ei herwydd. Canys er erchi o Grist, roddi i Cesar y peth oedd eiddo Cesar, er hynny fe'i cyhuddwyd Ef o gynhwrf, gan haeru arno fwriadu a chwennychu'r deyrnas. Ac am hynny y llefwyd yn groch yn ei erbyn Ef ger bron y frawdle, gan ddywedyd, *O gollyngi di Hwn yn rhydd, nid wyt ti garedig i Cesar* [7]. A'r Apostolion, er iddynt yn wastad, ac yn ddyfal, ddysgu i ddynion ymufuddhâu i'r Swyddogion, a bod yn rhaid i bob perchen enaid ymddarostwng i'r Awdurdodau uchel, a hynny nid yn unig herwydd llid, a dial, eithr er mwyn cydwybod; etto, nid anllai, yr haerwyd arnynt gyffroi y bobl, ac annog y gynnulleidfa i wneuthur gwrthryfel. Fel hyn yn bennaf dim, y parodd Haman i'r Brenin Ahas-

[4] Tertul. in Apolog. 1, 2, et 3.
[5] Sef, Teyrnfradwriaeth.
[6] Trosedd.
[7] Ioan xix. 12.

ferus gashâu enw a rhywiogaeth yr Iuddewon, gan ddywedyd, mai pobl wrthryfelgar gyndyn oeddynt, yn dirmygu gorchymynion Tywysogion [8]. Ahab Frenhin afradlawn, a ddywedodd wrth Elias Prophwyd Duw, *Tydi yw yr hwn sydd yn blino Israel* [9]. Amaziah, Offeiriad Bethel, a gyhuddodd y Prophwyd Amos o gyd-fwriadaeth, ger bron y Brenhin Ieroboam; "*Wele*, (eb efe,) *Amos a gyd-fwriadodd yn dy erbyn di yng nghanol tŷ Israel* [1]. Ar fyr o eiriau, peth arferedig, medd Tertulian,[2] yn ei amser ef, ydoedd y cyhuddiad hwn yn erbyn yr holl Gristionogion, sef, mai Traituriaid, gwrthryfelwyr, a gelynion rhywiogaeth dyn oeddynt.

Am hynny, od yw'r Gwir yn yr un agwedd yn cael gogan y pryd hwn; a chan fod y Gwir yr un fath beth ag ydoedd yr amser hwnnw, od yw efe yn cael yr un fath ddirmyg a diystyrwch yr awrhon ag yr oedd ef arferedig o'i gael gynt, er bod hyn yn ofid ac yn adfyd, etto ni ddylem ni dybied o honaw, fel peth a fae newydd a dïeithr.

IX. Hawdd oedd iddynt ddeugain mlynedd i heddyw, neu ychwaneg, ddychymmygu y pethau melldigedig hyn, a gwaeth na hyn, yn ein herbyn ni; pan yng nghanol tywyllwch yr oes honno y dechreuodd godi a thywynnu beth pelydr o'r Gwir, nid adwaenid, ac ni chlywsid son am dano y pryd hynny: pan ddaeth gyntaf i wybodaeth yr Efengyl, Martin Luther, a Hulderic Zuinglius, dau wr rhagorawl iawn a ddarfuasai i Dduw eu danfon i oleuo y byd; pan oedd yr athrawiaeth yn newydd, ac yn anhawdd gwybod pa fodd y cynnyddai: pan oedd meddyliau dynion yn llawn ammeu a rhyfeddod, a'u clustiau yn lled-agored i wrandaw pob anair ac anwir: a phan ni ellid dychymmyg rhemp mor erchyll, na bae'r bobl yn ei goelio yn ebrwydd, o ran newydd-der a dïeithrwydd y peth. Llyma'r modd gynt y cychwynodd Sym-

[8] Est. iii. 8, &c.
[9] 1 Bren. xviii. 17.
[1] Amos vii. 10.
[2] In Apolog. cap. 37.

machus, Celsus, Iulian, Porphyr, hen elynion yr Efengyl, gyhuddo yr holl Gristionogion o derfysg a Thraituriaeth, cyn gallu nac o'r Pennaethiaid, nac o'r bobl wybod, pa beth yr oeddynt yn ei gredu, na pha beth a fynnent. Eithr yr awrhon, ar ol i'n gelynion ni weled, ac na allant wadu ddarfod i ni bob amser drwy air ac ysgrifen yn ddyfal iawn goffhâu i'r bobl am y peth a weddai iddynt, sef ymufuddhâu i'w Tywysogion, a'u Swyddwyr (pe rhoem a'u bod hwy yn annuwiol), a chan fod hyn mor hynod trwy hir arfer a phrofiad, ac y mae llygaid pawb, pwy bynnag ydynt, a pha le bynnag y bônt, yn ei lwyr-ganfod, ac yn tystiolaethu gyd â ni; brwnt iawn y gwnaethant hwy roi y pethau hyn i'n herbyn; a chwedi methu ganddynt graffu ar ddim beiau newyddion yn hwyr o amser, yna hwdiwch chwi hwythau i geisio ein dwyn mewn câs a chenfigen drwy yr hen gelwyddau diflannedig gynt.

X. I'n Duw ni y bo'r diolch, yr Hwn a biau yr achos hwn, na ddamweiniodd erioed etto na therfysg, na Thraituriaeth, yn yr un o'r Teyrnasoedd, na'r Arglwyddiaethau, na Llywodraethau, a dderbyniasant yr Efengyl. Ni ddarfu i ni ddinystrio un Deyrnas, nac anrheithio Arglwyddiaeth neb, na gwneuthur cynhwrf mewn Llywodraeth gwlad yn y byd. Aros yn eu haddas radd a'u hen oruchafiaeth, y mae Brenhinoedd Lloegr, ein gwlad ni, Brenhinoedd Denmarc, Brenhinoedd Swetia, y Duciaid o Sacsonia, yr Ieirll Palatin, y Marquessiaid o Brandeburgh, y Lansgrafiaid o Hessia, Llywodraethau cyffredin y Swisseriaid, a'r Rhetiaid, a'r Dinasoedd rhyddion a elwir Argentina, Basilea, Ffrancoffordia, Ulma, Augusta, Norimberga; y rhai hyn i gyd sydd yn yr un cymmeriad a'r awdurdod yr oeddynt ynddo o'r blaen, neu yn rhagorach; gwell yw eu cyflwr hwy, herwydd bod eu pobl yn ufuddach drwy rinwedd yr Efengyl. Elont attolwg, i'r mannau hynny lle yr ydys drwy ddaioni Duw yn pregethu yr Efengyl: ym mha le y mae mwy braint a llai trawsedd y Tywysogion? ym mha fan yr ydys yn rhoi mwy o anrhydedd i'r Pennaeth? pa le mae y

bobl yn llai eu hafreol? ac ym mha fan y mae llywodraeth y cyffredin a'r Eglwys yn hawddgarach?

XI. Nid hwyrach y dywedwch chwi wneuthur o bobl y wlad gynhwrf a therfysg ym mhob man yn Germania, wrth ddechreuad athrawiaeth yr Efengyl. Gadewch i hynny fod; etto Martin Luther, cyhoeddwr yr athrawiaeth hon, a ysgrifenodd yn awchlym iawn ac yn hagraidd dros ben yn eu herbyn hwynt, ac a'u dygodd hwy drachefn i heddwch ac ufudd-dod.

XII. Ond lle y mae dynion anghyfarwydd yn dywedyd weithiau yng ngwrthwyneb i hyn, dan sôn am newidiad Llywodraeth y Swisseriaid, lladdiad Leopold y Duc o Awstria, a dad-roddi rhydd-did i'r wlad; e wnaethpwyd hynny (fel y tystiolaetha yr holl ystoriau) ychwaneg i ddau cant a thriugain mlynedd i heddyw, dan y Pab Bonifacius yr Wythfed, pan oedd fwyaf rhwysg a phennaf Llywodraeth Pab Rhufain; ynghylch dau can mlynedd cyn yr un o'r ddau, na dechreu o Hulderic Zuinglius bregethu yr Efengyl, na'i eni ef ychwaith. Ac er y pryd hynny etto, fe fu pob peth ganddynt hwy yn heddychlawn ac yn dangnefeddol, heb na thwrf gelynion dïeithr, na therfysg yn eu plith eu hunain.

Ac os ydoedd hyn bechod yn y Swisseriaid, ryddhâu o honynt eu gwlad eu hun oddi tan lywodraeth estron genedl, ac yn enwedig pan oeddynt yn cael eu gorthrechu drwy ddirfawr falchder a thrawsder; etto anghyfiawn ac anrhesymol yw bwrw beiau rhai eraill arnom ni, neu fwrw arnynt hwythau feiau eu Henafiaid.

XIII. Eithr, O Dduw tragywyddol! wrth hynny ynte, a gyhudda Pab Rhufain nyni o Draituriaeth? a ddysg efe i'r bobl ymufuddhâu a rhyngu bodd i'w Pennaethiaid? neu a yw efe yn gwneuthur bri yn y byd am fraint a mawredd Tywysogion? paham y mae yntau (y peth ni wnai yr un o hen Esgobion Rhufain gynt) yn gadael i'w wenieithyddion ei alw ef yn Arglwydd yr arglwyddi [3], megis mynnu o honaw ef i'r

[3] August. Steuchus Auton. de Rosellis.

holl Frenhinoedd, a'r Tywysogion, pwy bynnag ydynt, a pha le bynnag y maent, fod yn weision chwibanogl iddo ef? paham y mae yntau yn gwneuthur ffrost mai Brenhin y brenhinoedd ydyw efe, a bod iddo frenhinol lywodraeth ar ei ddeiliaid [4]?

Paham y mae ef yn peri i'r holl Amherawdwyr a'r Tywysogion, roi llŵ o ffyddlondeb, ac ufudd-dod iddo ef? paham y mae efe yn ffrostio fod yn uwch ei radd ef na gradd yr Amherawdwr, agos y dau can cymmaint: a hynny yn enwedig oblegid i Dduw wneuthur dau oleuad yn y Nef; ac er mwyn iddo wneuthur y Nef a'r Ddaear, nid mewn dau ddechreuad eithr mewn un? paham y darfu iddo ef, a'i ganlynwyr, yn ol dull yr Anabaptistiaid a'r Libertiniaid, fwrw yr iau heibio, ac ymryddhâu oddi dan pob awdurdod yn y byd [5], fel y gallent hwy foelystota [6] yn benrhyddach, ac yn ddiogelach?

XIV. Paham y mae ganddo ef Genhadwyr, sef yw hynny, yspïwyr ffel iawn, yn dirgel-ddisgwyl o fewn Llysoedd, Cynghorau, a Chyfrinach-ystafellau pob Brenhin? Paham y mae efe, pan fynno ef, yn rhoi y Tywysogion Cristionogaidd yn erbyn eu gilydd, ac wrth ei chwantau ei hun, yn aflonyddu yr holl fyd, drwy gynhwrf a chynhennau? Paham y mae efe yn esgymmuno ac yn peri cymmeryd fel Ethnig, a Phagan, bob Tywysog o Gristion a ymwrthodo â'i Lywodraeth ef? A phaham y mae efe yn addaw enaid-rhydd, a phardynau, cyn haeled, a chyn helaethed, i bwy bynnag a'r a laddo un o'i elynion ef, mewn ffordd yn y byd? Ydyw ef yn cynnal Amherodraethau, a Brenhiniaethau, neu yw efe unwaith yn chwennychu heddwch cyffredin? Ti a ddylit, ddarllenydd duwiol, faddeu i ni, er dy fod yn tybied adrodd o honom ni y pethau hyn yn chwerwach, ac â geiriau dûach, nag a weddai i wŷr eglwysig eu harfer; oblegid mae'r testun

[4] De major. et obed. Solit.

[5] De major. et obed. Unam Sanctam.

[6] Sef, rhedeg yn wyllt i gyflawni eu chwantau, yn debyg fel y gwelir gwartheg yn rhedeg i ben rhyw foel, neu le uchel, yn amser tês.

mor waradwyddus, ac awydd y Pab i ddwyn rhwysg yn y byd, mor anrhaith-oddef[7], na ellir traethu hyn yn llarieiddiach, nac â geiriau amgenach. Canys nid oedd gywilydd arno, na gwladeiddrwydd ynddo, ddywedyd mewn Cymmanfa-Gynghor, mai efe ei hun yw atteg holl awdurdod yr holl Frenhinoedd[8]. Ac o ran porthi ei chwant awyddus ef, i lywodraethu ac i deyrnasu fel Brenhin, efe a ddrylliodd yn ddarnau Amherodraeth Rhufain, ac a rwygodd holl Gred drwy drallod a therfysg. Diffaith ac fel bradwr y gwnaeth ef ryddhâu y Rhufeiniaid, a'r Italiaid, ac efe ei hun hefyd, o'r llŵ a gymmerasai efe a hwythau, i fod yn gywir i Amherawdwr Groeg, gan ŵyr-droi deiliaid yr Amherawdwr oddi wrtho; a galw Siarl Fawr Martel, o Ffraingc i Itali, a'i wneuthur ef yn Amherawdwr; yr hyn beth ni welsid erioed mo'i fath[9]. Efe a fwriodd Childric Brenhin Ffraingc (yr hwn nid ydoedd Dywysog drwg) allan o'i Deyrnas, yn unig er mwyn nad oedd ef yn rhyngu bodd iddo ef, ac a wnaeth Pipin yn Frenhin yn ei le ef. Ac ar ol iddo fwrw allan y Brenhin Philip Dêg, efe a ordeiniodd ac a farnodd (pe gallasai efe gwblhâu ei amcan) Frenhiniaeth Ffraingc i Albert Brenhin y Rhufeiniaid[1]. Efe a anrheithiodd yn llwyr difaddeu Ddinas a Llywodraeth Florens, ei wlad ei hun: efe a'i dygodd hi o rydd-did a thangnefedd, ac a'i dododd dan reolaeth un gŵr, fel y gallai hwnnw wneuthur pa lywodraeth a fynnai ef, wrth ei ewyllys a'i drachwant ei hun[2]. Efe a osododd yr Amherawdwr Siarl y Pummed, o'r naill du, a Francis Brenhin Ffraingc, o'r tu arall, i ddinystr Duciaeth Safoy cyn llwyred, ag na adewid i'r Duc aflwyddiannus braidd un Ddinas i roi ei ben ynddi.

XV. Blin ydym yn adrodd y fath bethau a'r rhai

[7] "Eu baich sydd *anrhaith* eu goddef [ei oddef]."—*Communion Service.* Mor anrhaith-oddef, mor *anhawdd* ei oddef. Spolium passurus, reus spolii. h. e. confiscationis bonorum, bonis spoliandus.—See *Dr. Davies's Dict.* Impotens.—*Jewell.* Anrhaith-oddef, Insufferable, intolerable.

[8] Clemens V. in Concil. Viennensi. Leo Papa III.

[9] Zacharias Papa. [1] Clemens Papa VIII. [2] Idem Clemens.

hyn, a phoenus iawn fyddai coffhâu holl gampau gwychion Pabau Rhufain. O ba blaid, attolwg, yr oedd y sawl a wenwynodd yr Amherawdwr Henri y Seithfed wrth gymmuno? ac a wenwynodd y Pab Victor yn derbyn y caregl [3]? ac a wenwynodd Ioan, Brenhin y Deyrnas yma, wrth yfed diod? Pwy bynnag, ac o ba blaid bynnag yr oeddynt, dïau nad oeddynt hwy na Lutheriaid, na Zuingliaid. Pwy heddyw sydd yn cynnwys Brenhinoedd a Thywysogion galluog i gusanu ei draed bendigaid ef? Pwy sydd yn peri i'r Amherawdwr sefyll wrth ben ei farch, ac yn gorchymyn i Frenhin Ffraingc ddal y warthafl iddo? Pwy a rwymodd mewn cadwyni Francis Dandalus, yr hwn ydoedd Dduc o Venis, Brenhin Creta, a Brenhin Cyprus, ac a'i taflodd ef dan ei fwrdd, i gnoi esgyrn ymhlith cŵn [4]? Pwy, nid â'i law, ond â'i droed, a goronodd yr Amherawdwr Henri y Seithfed, ac â'r un troed a fwriodd y goron oddi ar ben yr Amherawdwr, gan ddywedyd, allu o hono ef wneuthur Amherodrau, a'u dad-wneuthur hwynt, fel y mynnai efe [5]? Pwy a barodd i Henri y mab godi mewn arfau yn erbyn yr Amherawdwr Henri y Pedwerydd ei dad ef, ac a wnaeth i'r mab ddal ei dad ei hun yn garcharor? A phwy, wedi cneifio a dirmygu yr Amherawdwr, a wnaeth ei fwrw ef mewn Mynachlog, lle, drwy newyn, a nychdod, a thrymder, y bu efe farw [6]? Pwy mor frwnt aruthrawl a roddodd dan ei draed wddf yr Amherawdwr Frederic, a rhag na bae hynny ddigon trahaus, efe a draethodd yn ychwaneg y geiriau hyn o'r Psalmau, *Ar yr Asp a'r Basilisc y cerddi, a thi a sethri dan dy draed y Llew a'r Ddraig* [7]? Y fath ddirmyg a diystyrwch ar fraint a mawredd Tywysog ni chlywyd sôn am dano mewn oes yn y byd, na chynt na chwedi; oddi eithr y peth a wnaeth Tamberlan Brenhin Scythia, yr hwn ydoedd ŵr ffrom-wyllt, di-ddysg, di-ddawn; neu yr hyn a wnaeth Sapor Brenhin Persia.

[3] Neu y cwppan.
[4] Sabellicus.
[5] Cœlestinus Papa.
[6] Hildebrandus Papa.
[7] Alexander III.

Pabau ydoedd y rhai hyn, cymmain un, a phob un yn cadw eisteddle Petr Apostol, a phawb o honynt oeddynt sancteiddiolaf, a hefyd rhaid cymmeryd amryw eiriau pob un o honynt megis amryw Efengylon.

XVI. Od ydym ni Draituriaid, y sawl ydym yn anrhydeddu ein Tywysogion, ac yn ymufuddhâu iddynt megis y mae Gair Duw yn erchi, a hefyd yn gweddïo drostynt; Pa fath ddynion, ynte, ydynt hwy, y rhai heblaw gwneuthur o honynt y cwbl o'r pethau rhag-ddywededig, y mae hefyd yn gymmeradwy ganddynt y fath bethau, megis pe baent weithredoedd da dros ben? Ydynt hwy, ynte, yn dysgu y bobl fel yr ydym ni, i ymufuddhâu i'w Pennaethiaid, neu a allant hwy drwy onestrwydd haeru arnom, mai dynion cynhyrfus ydym, yn terfysgu yr heddwch cyffredin, ac heb fri gennym ar fraint a mawredd y Tywysogion? Yn wir, nid ydym ni yn bwrw ymaith iau'r ufudd-dod oddi arnom, nac yn cyffroi Teyrnasoedd, nac yn gwneuthur, nac yn dad-wneuthur Brenhinoedd; nac yn newidio Llywodraethau; nac yn rhoi gwenwyn i'n Brenhinoedd i'w yfed; nac yn estyn ein traed iddynt i'w cusanu; na thrwy anfeidrol ddirmygwch yn gosod ein traed ar gyrn eu gyddfau hwynt. Chwaithach hyn yw ein haddysg a'n hathrawiaeth ni, mai dyledus i bob perchen enaid o ba alwedigaeth bynnag fyddo, ai Mynach, ai Efengylwr, ai Prophwyd, ai Apostol, ymddarostwng i'r Brenhinoedd a'r Pennaethiaid[8]; ac y dylai y Pab ei hun alw a chyfaddef yr Amherawdwr yn arglwydd arno, ac yn feistr iddo; megis y gwnai Esgobion Rhufain gynt yn y byd a fu[9], oddi eithr mynnu o'r Pab gael ei gymmeryd yn uwch o radd na'r Efengylwyr, na'r Prophwydi, ac na'r Apostolion. Dysgu i'r bobl yn gyffredinol yr ydym ni, mai rhaid iddynt ymufuddhâu i'w Tywysogion, megis i wŷr wedi eu danfon oddi wrth Dduw ei Hun; a phwy bynnag a safo yn eu herbyn hwynt, sefyll y mae efe yn erbyn

[8] Chrysos. in Rom. xiii. [9] Greg. sæpe in Epist.

ordinhâd Duw. Hyn yw addysg ein hysgol ni: hyn sydd amlwg i'w weled ac i'w glywed yn ein llyfrau a'n pregethau ni; ac hefyd ym muchedd ac yn llarieidd-ymddygiad ein pobl ni.

XVII. A lle y maent hwy yn dywedyd ddarfod i ni ymadaw âg undeb yr Eglwys Gatholig, peth atgas iawn yw hyn; a hefyd, er nad Gwir mo honaw, etto y mae lliw a llun Gwirionedd arno. Herwydd y cyffredin a'r gynnulleidfa anwybodus, ni choeliant yn unig y pethau sydd Wir a diammheuol, eithr hefyd y pethau a ddamweiniant yn debyg i Wir. Ac am hynny ni a welwn beth yn wastadol a wnai y rhai ffel-gyfrwys, oblegid nad oedd Gwirionedd ar eu tu hwynt, ymddadleu ac ymrafael a wnaent ym mhlaid pethau cyffelybus i Wir, megis y twyllid drwy ryw eilun, a chyffelybrwydd Gwir, y rhai ni allent weled gwaelod ac eigion yr achos[1]. Yn yr amseroedd gynt pan weddïai y Cristionogion cyntaf, ein Hynafiaid ni, gan droi eu gwynebau tu a'r Dwyrain, yr oedd rhai a ddywedai arnynt eu bod hwy yn addoli yr Haul yn lle Duw. Ac er mwyn dywedyd o'n Hynafiaid ni gynt, tu ag at am fywyd tragywyddol difarwol, nad oedd ganddynt fodd i fyw ond ar Gig a Gwaed yr Oen diamliw[2], sef ein Harglwydd Iesu Grist; yna y rhai cenfigennus, gelynion Croes Crist, nid oedd arnynt ofal mwy na pha fodd y gallent ddwyn y Grefydd Gristionogaidd bob ffordd mewn cam-ogan, a wnaent i'r bobl goelio, mai pethau echryslawn oeddynt hwy, yn aberthu cig dynion, ac yn yfed eu gwaed[3]. Ac er mwyn dywedyd o'r Cristionogion gynt, nad oedd ger bron Duw, na gwrryw, na banyw, na gwahanragoriaeth yn y byd rhwng dynion, tu ag am allu dyfod i'r uniawnder; ac o ran iddynt alw bawb eu gilydd yn Frodyr, ac yn Chwiorydd, wrth ymgyfarch; yna rhai a haerent y pryd hynny ar y Cristionogion, nad oedd yn eu plith hwy ddim gwahân, nac o oed,

[1] Tertul. in Apol. cap. 16.
[2] Di-amliw [aml-lliw], difrycheulyd.
[3] Tertul. in Apol. cap. 7, 8, 9.

nac o rywiogaeth; eithr cyd-orwedd o honynt bawb gyd â'u gilydd yn ddi-waharddedig fel anifeiliaid [4]. A phan ymgyfarfyddai'r Cristionogion yn fynych, mewn lleoedd dirgel neillduol, o ran gweddïo ynghyd a gwrandaw pregethu Gair Duw, ac er mwyn bod gwrthryfelwyr yn arferu ymgynnull yn yr un modd, fe roed gair allan, mai cyd-fwriadu, a chyd-ymgynghori yr oeddynt, y naill ai i ladd y Pennaethiaid, ai ynte i ddadwreiddio y Llywodraeth gyffredin [5]. A phan gymmerent hwy fara a gwin, i gwblhâu y Sacrament cyssegr-lân, yn ol defod Crist, llawer a dybiasant nad oeddynt yn addoli Crist, namyn Ceres a Bacchus; er mwyn arferu o'r bobl Ethnig, â bara, ac â gwin, addoli'r coeg-dduwiau hynny, yn y gyffelyb agwedd, drwy gam-grediniaeth.

Yr oedd llawer yn coelio y pethau hyn, nid o ran eu bod yn Wir, (canys beth a allai fod yn anwirach?) eithr o blegid eu bod hwy yn debyg i'r Gwir, a thrwy lun Gwirionedd yn hawdd iddynt dwyllo yr anghyfarwydd.

XVIII. Felly y maent hwy yn cam-haeru arnom, ein bod ni yn Hereticiaid, a darfod i ni ymadael âg Eglwys, ac â chymdeithas Crist: nid er mwyn eu bod hwy yn coelio fod hyn yn Wir (o blegid nid mawr ganddynt am hynny), ond o herwydd y gallai y rhai anghyfarwydd dybied drwy ryw fodd, ysgatfydd, mai Gwir ydyw. Canys nid ymadawsom ni âg Eglwys Crist yn ol arfer yr Hereticiaid, eithr ymadael a wnaethom â dynion drwg, ac â rhagrithwyr, fel y dylai pob rhai da, rhag ofn gwaethygu o honom wrth fod ynghyd â hwy. Etto er hynny gwneuthur ffrost a rhodres rhyfedd y maent hwy, gan ddywedyd mai hwynt-hwy ydyw yr Eglwys [6]: mai eu Heglwys hwy ydyw *Priodas-ferch Crist*, *Colofn y Gwirionedd*, *Arch Noah*, allan o'r hon nid oes obaith cael dim iechydwriaeth. O'r tu arall, dywedyd am danom ni y maent hwy, ddarfod i ni gilio ymaith: ddarfod i ni rwygo

[4] Tertul. in Apol. cap. 39.
[5] Augustinus.
[6] Lat. "Illam esse ecclesiam.

gwisg Crist; ddarfod ein tynnu ni i ffwrdd oddi wrth Gorph Crist; a darfod i ni wrthod y Ffydd Gatholig. Ac er na adawsant hwy ddim heb ddywedyd a'r a ellid drwy anwiredd ac enllib ei gam-haeru arnom; etto ni allant hwy byth ddywedyd (a dywedyd y Gwir) ddarfod i ni ymadael â Gair Duw, nac â'r Apostolion, nac â'r Brif-Eglwys.

XIX. Ni a farnasom y Brif-Eglwys o'r eiddo Crist, a'r Apostolion, a'r Tadau sanctaidd, yn Eglwys Gatholig: nid ammheuwn ychwaith alw yr Eglwys honno, yn *Arch Noah*, yn *Briodas-ferch Crist*, yn *Golofn* ac yn *Gynhaliaeth* y *Gwirionedd:* ac nid ammeu gennym hefyd gyflëu ynddi hi holl hanfod ein hiechydwriaeth.

Diammeu mai peth gwrth-gas yw ymadael â chymdeithas y sawl y buoch chwi gynnefin â hwynt, ac yn enwedig â'r rhai a gânt eu gadael a'u galw yn Gristionogion, er nad ydynt. Ac o ddywedyd y Gwir, nid ydym ni yn dirmygu Eglwys y gwŷr hyn (pa drefn bynnag sydd arni yr awrhon), er mwyn ei henw Cristionogaidd, a hefyd er mwyn i Efengyl Iesu Grist gael gynt ei gosod allan yn yr Eglwys honno, drwy burdeb a Gwirionedd: ac nid ymadawsem ni âg y hi ychwaith, oni buasai mewn anghenrhaid, ac o'n hanfodd. Ond beth ynte, o gosodwyd i fynu eilun yn Eglwys Dduw, a bod y diffeithwch hwnnw a brophwydodd Crist am dano, yn sefyll yn amlwg yn y lle sanctaidd [7]? Beth os yspeilydd neu *birat* sy'n meddiannu *Arch Noah* drwy drais? Y dynion hyn cyn fynyched ag y crybwyllant hwy am yr Eglwys, meddwl y maent hwy, mai hwy eu hun yn unig ydyw'r Eglwys; gan gyfroddi holl enwau yr Eglwys iddynt eu hun; a ffrostio fel y rhai gynt a lefent, *Teml yr Arglwydd*, *Teml yr Arglwydd:* neu fel y Phariseaid a'r Ysgrifenyddion, y rhai a wnaent ffrost eu bod hwy yn etifeddion i Abraham [8].

XX. Llyma i chwi trwy goeg-wych ymddangos, fel

[7] Matt. xxiv. 15. [8] Ioan viii. 39.

y maent hwy yn twyllo'r rhai anwybodus, ac yn ceisio rhoi bachell ysgwydd i ni drwy nerth enw'r Eglwys yn unig: yr un agwedd a lleidr ar ol iddo unwaith frathu i fewn tŷ gŵr arall, ac y naill ai gwthio allan, ai ynte lladd perchen y tŷ, a ddywedai gwedi hynny, mai efe ei hun biau y tŷ, ac a gadwai'r aer allan o'i feddiant. Neu yn yr un modd a phe y dywedai Anghrist ar ol ei ddyfodiad i fewn Teml Dduw, Bellach fy Nhŷ i yw hwn, nid oes i Grist ddim a wnêl âg efo. Canys y gwŷr hyn, er na ddarfu iddynt adael dim yn Eglwys Dduw sy gyffelybus i'r Eglwys, etto hwy a fynnent gael eu cymmeryd yn amgeleddwyr, ac yn amddiffynwyr yr Eglwys: ar ol y cyfryw ffordd ac yr amddiffynai Grachus gynt y Cyfoeth Cyffredin yn Rhufain, pan drwy ehud-draul, a gwario lled-ynfyd, ni ddarfuasai iddo ef adael dim o'r cyfoeth heb wneuthur pen am dano. Ni bu dim erioed etto mor annuwiol, ac mor anrhesymol, na ellid ei hulio a'i amddiffyn dan enw'r Eglwys. Canys fe wna'r caccwn ddiliau mêl, fel y gwenyn: a chynnulleidfäau sy gan y rhai annuwiol, megis gan Eglwys Dduw.

Oblegid nid ydynt, yn ebrwydd, yn bobl Dduw, yr holl rai a elwir yn bobl Dduw; ac nid Israeliaid mo'r cwbl a ddaeth o'r tad Israel. Yr Ariaid, nid anllai, er eu bod hwy yn Hereticiaid, etto ffrostio a wnaent mai hwynt-hwy yn unig oeddynt Gatholigiaid, ac a alwent bawb ereill, weithiau yn Ambrosiaid, weithiau yn Athanasiaid, weithiau yn Ioaniaid [9]. Er bod Nestorius yntau yn Heretic, fel y dywedodd Theodoret, etto er hynny, efe a fedrai ei hulio ei hunan τῆς ὀρθοδοξίας προσχήματι, sef, yw hynny, *dan ryw rith a gorchudd y Ffydd gywir*. Er bod Ebion o'r un feddwl a'r Samaritaniaid, etto, fel y dywedodd Epiphanius, efe a fynnai ei alw yn Gristion. Y Mahometaniaid heddyw, er bod yr holl ystoriau yn dangos, a hwy eu hunain hefyd ni allant wadu, ddyfod dechreuad eu holl rieni hwynt o Agar y gaeth-forwyn, etto er mwyn yr enw,

[9] August. epist. 48. ad Vincen.

a'r genedl-lwyth, gwell ganddynt eu galw yn Saracen-iaid, megis pettynt wedi dyfod o Sarah y wraig rydd, yr hon ydoedd briod i Abraham.

XXI. Felly y gau-brophwydi o bob oes, y rhai a ymosodasant yn erbyn Prophwydi Duw, yn erbyn Esaiah, yn erbyn Ieremiah, yn erbyn Crist, ac yn erbyn yr Apostolion, nid oeddynt un amser yn bostio o ddim cymmaint ag o enw yr Eglwys. Ac nid oeddynt mor aruthrawl yn ymgynddeiriogi wrthynt, ac yn eu galw hwy yn Williaid[1], ac yn Apostatiaid[2], am achos arall yn y byd, ag am iddynt ymadael â'u Cymdeithas hwy, ac na chadwent ddefodau'r Henafiaid. Am hynny pe y canlynem ni yn unig farn y gwŷr hyn, a oeddynt yn rheoli'r Eglwys y pryd hwnnw, ac na cheisiem wneuthur ystyriaeth o Dduw, nac o'i Air, nac o ddim arall; yna ni ellir gwadu nad yn gyfreithlawn· ac yn ddigon cyfiawn y condemniwyd yr Apostolion, am iddynt ymddidoli oddi wrth yr Esgobion a'r Offeiriaid (yr hyn yw, meddant hwy, oddi wrth yr Eglwys Gatholig), ac am iddynt newid a newyddhâu llawer peth yn y Grefydd, o anfodd yr Esgobion a'r Offeiriaid, ac er eu bod hwy yn dywedyd yn erbyn hynny. Am hynny, fel y gorfu i Hercules gynt wrth ymaflyd âg Anteus y Cawr, ei windio[3] ef oddi ar y ddaear ei fam, cyn gallu o hono orchfygu y Cawr; felly mae'n rhaid windio ein gwrthwynebwyr ni, oddi wrth eu mam hwy, sef yw hynny, oddi wrth goeg eilun a chysgod yr Eglwys, drwy'r hyn y maent yn ymrithio ac yn amddiffyn eu hunain; ac onide, ni ellir peri iddynt roi lle i Air Duw. O ran hyn y dywedodd Ieremiah y Prophwyd, *Na wnewch gymmaint rhodres fod Teml yr Arglwydd gyd â chwi; nid yw hyn ond coeg hyder; canys celwyddau yw y geiriau hynny*[4]. Ac medd yr Angel yng Ngweledigaeth Ioan Efengylwr, *Dywedyd y maent hwy mai Iuddewon ydynt, eithr Synagog Satan ydynt*[5]. A Christ a ddywed wrth y

[1] Encilwyr.
[2] Gwrthgilwyr; Ffydd-wadwyr.
[3] Sef, ei godi i fynu.
[4] Ier. vii. 4.
[5] Dat. ii. 9.

Phariseaid, pan ffrostient eu bod hwy yn genedl a gwaedogaeth Abraham, *O'ch tad diafol* (eb Efe) *yr ydych chwi, nid tebyg mo honoch i'ch tad Abraham*[6]. Cymmaint oedd hynny a phe y dywedasai Fo, Nid ydych chwi mo'r dynion a fynnech mor chwannog gael eich cymmeryd: twyllo y bobl yr ydych trwy ofer enwau; a cham-arfer yr ydych enw'r Eglwys, i gwbl anrheithio yr Eglwys. Rhan ein gwrthwynebwyr ni a fuasai gan hynny, yn gyntaf dim, gwneuthur prawf gwir diammheuol, fod Eglwys Rhufain yn Eglwys iawn hyfforddedig y gwir Dduw: a'i bod hi yn y modd y mae hi yn cael ei llywodraethu'r pryd hyn, yn gyfattebol i Brif-Eglwys Crist, a'r Apostolion, a'r Tadau sanctaidd, yr hon Brif-Eglwys nid ammheuwn nad ydoedd y wir Eglwys Gatholig.

Am danom ni, pe y barnasem y gellid rhyngu bodd i Dduw ac ennill iechydwriaeth tragywyddol, drwy anwybodaeth, amryfusedd, coel-fuchedd, addoliaeth eilunod, a thrwy ddychymmygion dynion, a'r rhai hynny yn fynych yn gwrthwynebu'r Ysgrythyr Lân; neu pe y medrasem ymroi i goelio ddarfod ysgrifenu Gair Duw dros swrn o flynyddoedd yn unig, ac y bwrid ef heibio wedi hynny; neu pe y meddyliasem fod yn rhaid i archiad a gorchymynion Duw ymddarostwng i ewyllys dyn: neu beth bynnag a ddywedai neu a archai Duw, na ddylid cymmeryd mo hono namyn fel peth di-ddim, di-ddywededig, oddi eithr i Bab Rhufain orchymyn ac erchi'r un peth: pe y clywsem ni (meddaf) ar ein calonnau goelio a chredu'r pethau yma, cyfaddef yr ydym na buasai achos yn y byd i ni ymadael â Chymdeithas y gwŷr hyn. Ond am a wnaethom ni, sef, ymadael â'r Eglwys honno ydoedd a'i hamryfusedd yn amlwg wedi ei dystiolaethu i'r byd, ac wedi darfod iddynt gyfeiliorni oddi ar ffordd Gair Duw; ac ymadael o honom, nid oddi wrth yr Eglwys, namyn oddi wrth ei hamryfusedd; a hynny nid mewn cynhwrf, neu'n anweddus, eithr drwy dang-

[6] Ioan viii. 44.

nefedd a llarieiddrwydd: ni wnaethom ni yn hyn o beth ddim gwrthwyneb i Grist na'r Apostolion. Herwydd nid ydyw Eglwys Dduw'r fath beth na ddichon llwch a brychau ddigwydd arni, neu nad rhaid un amser adgyweirio mo honi: pettai hi felly, pa raid fyddai wrth gynnifer Cymmanfäau a Chynghorau, y rhai, medd Ægidius[7], ni all Ffydd Crist sefyll hebddynt? *Herwydd cyn fynyched ag y peidier a dyfyn Cymmanfa-Gynghorau, cynnifer gwaith y mae yr Eglwys yn cael ei gadael heibio gan Grist.* Neu, onid rhaid unon[8] na ddichon dim tramgwydd ddamwain i'r Eglwys, pa raid, ynte, wrth enwau diles yr Esgobion, fel y maent ymhlith ein gwrthwynebwyr ni y pryd hyn? Canys, paham yr ydys yn eu galw hwy yn Fugeiliaid, onid oes mo'r Defaid a allant fyned ar wasgar? Paham y gelwir hwy yn Warcheidwaid, onid oes un Ddinas a ellir ei bradychu? Paham y maent hwy yn cael eu galw yn Golofnau, onid ydynt yn attal dim rhag syrthio i lawr? Yn ebrwydd, ar ol Creadwriaeth y Byd, y dechreuodd Eglwys Dduw gynnyddu; ac yna, fe'i cynnysgaethwyd hi â'r Gair nefol, yr hwn a lefarodd Duw o'i enau ei Hun; ei dodrefnwyd hi â defodau duwiol: hi a gafodd ei dysgu gan yr Yspryd Glân, gan y Patrieirch, a'r Prophwydi; ac felly y parhaodd hi hyd yr amser yr ymddangosodd Crist ei Hun yn y cnawd.

XXII. Eithr, O Dduw tragywyddol! mor fynych, ac mor erchyll, yn y cyfamser, y twyllwyd, ac y difwynwyd hi! herwydd ym mha le yr oedd yr Eglwys y pryd hynny, pan *ddarfuasai i bob cnawd ar y ddaear aflanhâu ei ffordd ei hun*[9]? Ym mha le yr oedd hi pan, o holl aneirif[1] bobl y byd, nid oedd onid wyth-nyn o ddynion, na'r rhai hynny chwaith i gyd yn ddiwair ac yn dduwiol, y rhai a fynnai Duw eu cadw a'u coledd yn fyw, oddi wrth yr aruthrawl gelanedd a'r

[7] In Lateran. Concil. sub Iulio II.
[8] Unon, unofn, ofni.
[9] Gen. vi. 12.
[1] Aneirif [an-rhif], the letter *e* inserted, *euphoniæ gratia.*

farwolaeth a fu o'r holl fyd? Pa le yr oedd hi pan gwynodd y Prophwyd Elias mor alarus ac mor dost, *na adawsid ond efe ei hun*, o holl ddynion y byd, yn addoli Duw yn gywir ac yn gyfiawn [2]? A phan ddywedodd y Prophwyd Esaiah, *fod arian pobl Dduw* (sef yr Eglwys) *wedi myned yn sothach: a bod y ddinas honno a fuasai ffyddlawn gynt, wedi myned yn buttain: ac nad oedd ynddi fan iach drwy yr holl gorph, o wastad y pen hyd wadn y troed* [3]? Neu pan ddywedodd Crist *ddarfod i'r Phariseaid, a'r Offeiriaid, wneuthur ogof lladron o Dŷ Dduw* [4]? Gwir ydyw am yr Eglwys, yn yr un modd ag am faes ŷd, onis erddir, onis llafurir, onis trinir, ac onis trwsir, yn lle gwenith fe a dŷf ysgall, llêr, a danadl. Am hyn y danfonodd Duw yn gynnefinol Brophwydi ac Apostolion, ac, yn ddiweddaf o'r cwbl, ei Fab ei Hun, i ddwyn y bobl i'r ffordd uniawn o gyfeiliorni, a hefyd i adnewyddu adail, ac i gryfhâu gwendid a gogwyddiad, yr Eglwys.

Ond rhag i ryw rai ddywedyd ddarfod i hyn ddamwain yn unig yn amser y Ddeddf, a'r Cysgodau, ac ieuengctid, pan guddid Gwirionedd dan Arwyddion a Seremonïau, pan nid oedd dim etto wedi ei ddwyn i berffeithrwydd, pryd nid oedd y Ddeddf wedi ei hysgrifenu yng nghalonnau dynion, eithr mewn llechau o gerrig; er nad yw hyn ond dywediad lled-ffol, herwydd yn y dyddiau hynny yr oedd yr un Duw ag sydd yr awrhon, yr un Yspryd, yr un Crist, yr un Ffydd, yr un Athrawiaeth, yr un Gobaith, yr un Etifeddiaeth, a'r un nerth a rhinwedd i Air Duw: a hefyd, medd Eusebius, *yr holl rai ffyddlawn, o Adda hyd amser Crist, oeddynt i gyd yn Gristionogion, er na elwid monynt felly* [5]; ond, meddaf, rhag i ryw rai ddywedyd y fath beth a hyn, Paul Apostol a ganfu y fath amryfusedd a chwympiadau yn ei amser ef, pan oedd yr Efengyl mewn perffeithrwydd a goleuad, hyd oni orfu iddo ysgrifenu fel hyn at y Galatiaid, y rhai a

[2] 1 Bren. xix. 14.
[3] Esa. i. 21, 22.
[4] Matt. xxi. 13.
[5] Eccl. Hist. lib. i. cap. 4.

ddarfuasai iddo eu hyfforddi o'r blaen; *Mae arnaf ofn am danoch, rhag darfod i mi gymmeryd poen yn ofer yn eich plith, ac i chwi wrandaw yr Efengyl yn ofer*[6]*: Fy mhlant bychain, y rhai yr wyf fi yn eu hail-esgor hyd oni ffurfier Crist ynoch*[7]. Ac am Eglwys y Corinthiaid, pa wedd yr oedd hi wedi ei thrybaeddu mewn brynti, nid rhaid crybwyll. Wele ynte, gan hynny, a allai Eglwysi y Galatiaid a'r Corinthiaid ogwyddo, a myned ar fai, ac Eglwys Rhufain yn unig, ni ddichon na gŵyro na gogwyddo? Crist yn ddïau a ddywedodd, gyhyd o'r blaen, am ei Eglwys Ef, y deuai amser pan safai diffeithwch yn y lle sanctaidd[8]. A Phaul a ddywedodd y gosodai Anghrist ei babell yn Nheml Dduw[9]; ac y deuai amser *pryd na oddefai dynion Athrawiaeth iachus, namyn troi o wnaent at chwedlau*, a hynny yn yr Eglwys hefyd[1]. A Phetr a ddywedodd y byddai Athrawon celwyddau yn Eglwys Crist[2]. A Daniel y Prophwyd, wrth fynegi am amseroedd diweddaf Anghrist, *Y Gwir* (eb efe) *a fwrir dan draed y pryd hynny, ac a sethrir arno yn y ddaear*[3]. A Christ a ddywedodd, y byddai cymmaint gofid a gorthrymder yn y byd, *a phe byddai bosibl y dygid y rhai etholedig mewn amryfusedd*[4]. Ac y deuai hyn i gyd i ben, nid ym mysg y Paganiaid, neu y Tyrciaid, eithr yn y lle sanctaidd, yn Nheml Dduw, yn yr Eglwys, yng Nghynnulleidfa a Chymdeithas y rhai a gyd-addefent Enw Crist.

XXIII. Er gallu o hyn yn unig o rybudd wasanaethu i ddyn synhwyrol, na adawo efe ar fyrbwyll mo'i dwyllo drwy enw yr Eglwys, megis na bae iddo edrych ym mhellach o'r plegid yng Ngair Duw; etto, heblaw hyn i gyd, llawer o Dadau, a llawer o wŷr dysgedig duwiol, a gwynasant yn dost iawn, ddarfod digwyddo yr holl bethau hyn yn eu hamseroedd hwy. Herwydd yng nghanol niwl y tywyllwch, fe fynnai

[6] Gal. iv. 11.
[7] Adn. 19.
[8] Matt. xxiv. 15.
[9] 2 Thess. ii. 4.
[1] 2 Tim. iv. 3, 4.
[2] 2 Pet. ii. 1.
[3] Dan. viii. 12.
[4] Matt. 24. 24.

Duw fod rhai, er na roddent oleuni gloyw-amlwg, etto a gynneuent megis rhyw wreichionen, fel y gallai'r dynion yn y tywyllni ei chanfod. Hilari, pan oedd pethau eglwysig yn ddilygredig, yn eu herwydd [5], ac yn ddiwall; *Drwg* (eb efe) *y gwnaethoch chwi garu y parwydydd: drwg yr ydych chwi yn addoli Eglwys Dduw, gan eich bod i'w haddoli hi mewn tai ac adeiladoedd; drwg yr ydych yn dwyn i mewn enw tangneddef dan fargodau. Ai ammheuol ydyw nad eistedd Anghrist yn yr adail hyn? diogelach, dybygwn i, yw y mynyddoedd, a'r coedydd, a'r llynnoedd, a'r carcharau, a'r suglennydd; oblegid y Prophwydi* [6], *naill ai yn aros, ai ynte, wedi boddi yn y lleoedd hynny, a brophwydasant drwy Yspryd Duw.* Gregori, fel un oedd yn gweled, ac yn canfod o'r blaen yn ei feddwl, ddistrywiad pob peth, a ysgrifenodd at [7] Ioan Esgob Caer Gystennyn, yr hwn ydoedd y gŵr cyntaf o'r cwbl a orchymynodd ei alw ei hun yn Ben-Esgob Eglwys Crist drwy yr holl fyd; *Os ar un gŵr* (ebe Gregori) *y rhoir pwys yr Eglwys, hi a gwymp i gyd i lawr* [8]. A phwy nid yw yn gweled, ddarfod cwblhâu hyn er ys talm byd? herwydd hir iawn ydyw er pan fynnodd Pab Rhufain i'r holl Eglwys orphwys arno fo ei hunan; ac am hynny nid rhyfedd ddarfod iddi gwympo i gyd er ys talm o amser. Barnard yr Abad, er ys mwy na phedwar can mlynedd i heddyw, a ysgrifenodd fel hyn; *Nid oes yr awrhon ddim yn bur ac yn berffaith yn y Gwŷr Eglwysig: nid oes bellach yn ol onid datguddio dyn y pechod.* A'r unrhyw Barnard a ysgrifenodd yn y llyfr a wnaeth ef o Droadigaeth Paul i'r Ffydd: *Cyffelyb yw* (eb efe) *ddarfod peidio bellach ag erlid: nage, cyffelyb yw mai dechreu erlid yr awrhon y mae y rhai sy'n dwyn pennaf rwysg yn yr Eglwys. Dy hoff-ddynion a'th gymmydogion a ymnesasant, ac a safasant yn dy erbyn di; o wadn dy droed hyd yn wastad*

[5] Yn rhywfodd.
[6] Contra Auxentium.
[7] "Am Ioan" (at Morris).—*Amdd.*
[8] In Regist. Epist. ad Mauritium, lib. iv. epist. 32.

*dy ben, nid oes un fan iach. Anwiredd sydd yn deilliaw oddi wrth yr Henuriaid, a'r Barnwyr, a'r Rhag-Bennaethiaid, y rhai sydd yn cymmeryd arnynt lywodraethu dy bobl. Ni allwn ni ddywedyd yr awrhon, Fel y mae y bobl, felly mae'r Offeiriaid: oblegid nid yw y bobl cynddrwg ag ydyw yr Offeiriaid. Och, och, Arglwydd Dduw! yr un gwŷr hynny sy bennaf i'th erlid Di, y rhai a welir yn hoffi y lle pennaf, ac yn dwyn y llywodraeth bennaf yn dy Eglwys Di.* Yr un Barnard hefyd, ar Ganiadau Selef ddoeth, a ysgrifenodd fel hyn: *Dy hoff-ddynion ydynt i gyd, ac er hynny dy elynion ydynt i gyd; maent hwy i gyd yn gerynt it', ac er hynny dy wrthwynebwyr ydynt i gyd: ydynt wasanaethwyr Crist, yn gwasanaethu Anghrist. Wele, yn fy ngorphwys, fy chwerwedd sy chwerwaf*[9]. Roger Bacon, gŵr enwog iawn, ar ol iddo mewn araith hagr osod allan pa fyd diffaith gresynol oedd o honi yn ei amser ef, *Y cymmaint hyn* (medd efe) *o amryfusedd, sy'n taer ofyn ac yn edrych am Anghrist*[1].

XXIV. Mae Gerson yntau yn cwynfan yn ei amser ef, ddarfod troi holl rym a myfyrdod cyssegr-lân Duwioldeb i goeg-philoreg, ac i chwennychu clod trwy ffrost-ymrafael pwy oreu ei synwyr!

A'r Mynachod o Lyons[2], gwŷr diddrwg o ran eu buchedd, oeddynt arferol o ddywedyd yn hyderus, mai Eglwys Rhufain (oddi wrth yr hon yn unig yr oeddid yn ceisio pob cynghor a threfn y pryd hynny) ydoedd y *Buttain o Babilon*, a'r *llu o Gythreuliaid* y rhai y mae y brophwydoliaeth yng Ngweledigaeth Ioan Efengylwr mor hynod yn sôn am danynt.

Mi a wn yn hyspys na wna ein gwrthwynebwyr ni fawr fri ar awdurdod y gwŷr hyn. Beth ynte, o dygaf fi yn dystion y rhai yr oeddynt hwy eu hunain arferol o'u hanrhydeddu?

Beth os dywedaf ddarfod i Adrian Esgob Rhufain gyfaddef yn rhwydd, mai o oruch-eisteddfa'r Pab y daethai y drygioni hyn gyntaf[3]?

[9] Serm. 39.
[1] In libello de idiomate linguarum.
[2] Pauperes a Lugduno.
[3] Platina.

Pighius hefyd sydd yn addef ddarfod gwneuthur ar fai, ddwyn cymmaint o gam-arferau i'r Offeren; yr hon Offeren a fynnai efe (oni bae hynny) gael eu gadael yn beth sanctaidd parchadwy. E ddywedodd Gerson ddarfod, drwy luosogrwydd Seremonïau coegion, ddiffoddi holl rinwedd yr Yspryd Glân, yr hwn a ddylai lawn-weithio ynom, a hefyd ddarfod diffodd pob Duwioldeb. Holl wledydd Groeg, ac Asia, sy'n cwyno ddarfod i Babau Rhufain, drwy ffeiriau eu purdan a'u pardynau, dreisio cydwybodau dynion, ac yspeilio eu pyrsau.

XXV. Tu ag at am drawsedd Pabau Rhufain, a'u hanfeidrol falchder Persianaidd (er na soniom am eraill y rhai, ysgatfydd, y mae y Pabau yn eu cymmeryd yn elynion, oblegid iddynt, yn hyf, ac yn ddiragrith, ddangos eu drwg-gampau), nid amgen na'r gwŷr yma, sef, Laurentius Valla, Marsilius Patavinus, Francis Petrarch, Hieronimus Savanarola; yr Abad Ioachim, Baptista Mantuanus, ac o'u blaen hwythau yr Abad Barnard: y rhai hyn i gyd, meddaf, a gwynasant yn fynych, ac yn ddirfawr iawn, ar y Pabau. A'r gwŷr hyn oeddynt yn dwyn eu byd yn Rhufain, yn y Dref sanctaidd, yng ngolwg y sancteiddiolaf Dad, ac oeddynt yn gallu gweled holl gyfrinachau y Pabau; A'r rhai hyn nid ymadawsant ddim â'r Ffydd Gatholig. Ie, a chan eich cennad, hwy a roent weithiau ar ddeall i'r bobl, mai'r Pab ei hun ydyw'r Anghrist; pwy un ai gwir ai celwydd a ddywedasant, ni cheisiwn ni yngan: ond dïau ddywedyd o honynt hwy hynny yn ddiarswyd.

Ni ddichon neb ddywedyd mai disgyblion Luther, neu Zuinglius, oedd y rhai hyn; o herwydd yr oedd y rhai hyn nid yn unig swrn o flynyddoedd, eithr swrn o oesau, cyn clywed gair o sôn am enwau Luther na Zuinglius. Hwy a welsent, y pryd hynny, ddarfod i amryfusedd ymlusgo i'r Eglwys, ac oeddynt yn chwennych cael diwygiad o honaw. Ac o ddywedyd y gwir, Pa ryfeddod er bod yr Eglwys, yr amser hwnnw yn enwedig, yn llawn amryfusedd, pryd nad oedd na'r

Pab (ydoedd yn dwyn yr holl rwysg ei hunan) na neb arall yn gwneuthur y pethau oeddynt ddyledus, nac ychwaith yn gwybod beth oedd ddyledus iddynt ei wneuthur? Prin y gellir coelio tra'r oeddynt hwy yn segurllyd, fod y Diafol yntau hyd yr amser hwnnw, y naill ai yn cysgu heb ddeffro, ai yn segur heb orchwyl. Eithr beth yr oeddynt arno yn y cyfamser, ac mor ffyddlawn yr oeddynt yn gofalu am Dŷ Dduw, er tewi o honom ni, etto gwrandawant Barnard eu cyfaill hwy eu hun.

*Nid yw'r Esgobion* (eb efe) *sydd yn rheoli yr Eglwys y pryd hyn Ddysgawdwyr, ond twyllodwyr; nid ydynt Fugeiliaid, namyn hudoliaid; nid Prelatiaid, eithr Pilatiaid ydynt* [4].

Llyma fel y dywedodd Barnard am y Pab, yr hwn oedd yn galw ei hun yn Ben-Esgob ar y cwbl; a llyma ei feddwl ef am yr Esgobion eraill, a oeddynt yn llywodraethu yn yr amser hwnnw. Nid ydoedd Barnard yn Lutheran, nid ydoedd ef Heretic, nid ymadawsai efe â'r Eglwys Gatholig; etto er hyn i gyd, ni rusodd efe alw yr Esgobion, ag oeddynt y pryd hynny, yn dwyllodwyr, yn hudoliaid, ac yn Bilatiaid. Gan hyn, pan oeddid yn amlwg-dwyllo'r bobl, ac yn bwrw hud ar lygaid y Cristionogion, a phan oedd Pilat yn eistedd ar farn, ac yn barnu Crist, a'i aelodau i'w lladd ac i'w llosgi; O Dduw daionus, ym mha gyflwr yr oedd Eglwys Crist yr amser hwnnw! Eithr o gymmaint nifer o gamweddau aruthrol a hyn, pa un erioed etto a ddarfu iddynt ei ddiwygu? neu pa gamwedd a ddarfu iddynt unwaith ei gydnabod a'i gyfaddef?

XXVI. Ond gan eu bod hwy yn dywedyd mai hwy piau meddiant yr Eglwys Gatholig trwy'r holl fyd, ac er mwyn iddynt ein galw ni yn Hereticiaid, am nad ydym yn coelio megis y maent hwy, moeswch weled, ar nawdd Duw, pa nôd neu arwydd sy gan yr Eglwys honno o'r eiddynt hwy, modd y gellir gwybod mai Eglwys Dduw ydyw. Dïau nad yw cyn anhawsed

[4] Ad Eugenium.

adnabod a chael Eglwys Dduw, od aiff dyn yn astud ac mewn llawn-fryd i'w cheisio. Canys y mae Eglwys Dduw wedi ei gosod mewn lle uchel amlwg, ar ben bryn [5], a chwedi ei hadeiladu ar wadnau a sylfeini [6] yr Apostolion a'r Prophwydi [7]. *Ceisiwn yno'r Eglwys*, medd Awstin [8], *treiwn ein hachos yno:* ac, fel y dywedodd efe mewn lle arall [9], *rhaid yw dangos yr Eglwys allan o'r Ysgrythyrau Glân Canonedig; a'r hon ni ellir mo'i dangos allan o honynt hwy, nid yr Eglwys mo honi.*

Er hyn i gyd, ni wn i pa fodd, pa un ai o barch, ai o gydwybod, ai ynte o ddrwg obaith gallu gorfod, fel y lleidr am y crogbren, y maent hwy yn arswydo ac yn cilio oddi wrth Air Duw. Ac yn wir nid rhyfedd mo hynny: herwydd megis y dywedir y bydd marw y Cantharus [1] yn gyttrym [2] ag y gosodir ef mewn Balm, nid anllai, er bod Balm o honaw ei hun yn ennaint arogl-bêr iawn: felly'r gwŷr hyn a welant ddinystr a darfod am eu hachos hwy, yng Ngair Duw, yr un agwedd ag mewn gwenwyn.

Am hynny yr Ysgrythyrau Glân, y rhai a ddarfu i'n Prynwr Iesu Grist, nid yn unig eu harfer yn awdurdod ym mhob ymadrodd, eithr hefyd eu selio yn y diwedd â'i waed ei Hun; y mae y gwŷr hyn, ar hyder gallu ymlid y bobl oddi wrthynt, âg ychydig o boen, megis oddi wrth beth yn llawn [3] perygl [4] a niweid, yn arfer o'u galw yn *llythyren noethlyd, ammheüus, ddiles, fud, llythyren yn lladd, a llythyren farw:* yr hyn yr ydym ni yn ei ddeall megis pe dywedent nad yw yr Ysgrythyrau i ddeunydd yn y byd; ac nad ydynt ddim yn eu herwydd. Ac yn ychwaneg i hyn, mae ganddynt gyffelybiaeth, nid addas iawn moni, sef, fod yr Ysgrythyrau yn debyg i drwyn o gŵyr [5]: y gellir eu troi, a'u plygu bob ffordd, i wasanaethu ewyllys

[5] Esa. ii. 2.
[6] Seiliau.
[7] Ephes. ii. 20.
[8] De unitate Eccles. c. 3.
[9] Cap. 4.
[1] Cylion Paradwys.
[2] Yn y fan, yn uniawn.
[3] Enbydrwydd.
[4] Pighius in Hierarchia.
[5] "Or a shipman's hose."-Saes.

pawb. Ai ni ŵyr y Pab mai ei anwyl ddynion ef a ddywedodd y pethau hyn? neu, ai nid yw efe yn deall fod ganddo y fath amddiffynwyr a'r rhai hyn?

XXVII. Gwrandawed ynte mor sanctaidd, ac mor dduwiol, ynghylch hyn o beth, yr ysgrifenodd Hosius (Esgob yn Mholonia [6], fel y mae ei eiriau ef ei hun yn dangos), yr hwn yn wir ydoedd ŵr ymadroddus ac nid annysgedig, a hefyd ydoedd amddiffynwr awchlym di-hafarch ym mhlaid y Pab. Fe ryfeddai un, debygwn i, pa fodd y gallai gŵr da dybied mor ammharchus, neu ysgrifenu mor ddirmygus, am y geiriau hynny, y rhai a wyddai efe ddarfod iddynt ddeilliaw o enau Duw; ac yn enwedig ysgrifenu o honaw ef yn y fath agwedd, na ellid tybied mai ei farn ef yn unig oedd hynny, eithr mai coel pawb o'r tu hwnnw [7].

*Nyni* (medd efe [8]) *a barwn roi heibio yr Ysgrythyrau hynny, o'r rhai y gwelwn gymmeryd, nid yn unig cymmaint amryw ddeall, eithr gwrthwynebus ddirnad, a gadewch i ni glywed Duw yn ymadroddi, rhagor na chyrchu o honom at yr elfennau noeth-llymion hyn, a chyfleu ein hiechydwriaeth ynddynt. Nid rhaid i ddyn fod yn gyfarwydd yn y Ddeddf, a'r Ysgrythyr; eithr rhaid iddo gael ei ddysgu gan Dduw. Ofer yw'r boen a gymmerer yn yr Ysgrythyrau. Herwydd creadur a llythyren noeth-lom yw'r Ysgrythyr.* Dyma ddywediad Hosius; drwy yr un yspryd, a'r meddwl yn hollawl, ag oedd gynt gan Montanus a Marcion, y rhai y mae'r gair, pan wrthodent hwy yn drahaus iawn yr Ysgrythyrau Glân, arferu o honynt ddywedyd, eu bod hwy yn gwybod llawer peth mwy, a gwell, nag a wybu na Christ, na'i Apostolion. Beth ynte a ddywedaf yma wrth hynny? O chwychwi Golofnau Crefydd!

[6] Polonia, Poland; Gwlad y Pwyl.

[7] "Yr wyf yn addef yn wir ei fod ef yn ffugio, ac yn celu yr hyn yw, ac yn darlunio'r matter, fel pe nad efe a'i blaid, eithr yr Hereticiaid Zuenckfeldiad a lefarasaat felly.—*Saes.*

[8] Hosius in libro de expresso verbo Dei. Hyn a ysgrifenodd Hosius yn ddichellgar, megis nid o honaw ei hun, eithr yn enw arall, er dywedyd o honaw yn llathraidd yr un peth mewn modd amgenach yn yr un llyfr.

O chwychwi Arch-Lywodraethwyr Eglwys Crist! ai dyma'r parch sy gennych i Air Duw? yr Ysgrythyrau Glân, y rhai, medd Sant Paul, ydynt wedi eu hanadlu o Dduw, y rhai a hynododd Duw drwy gymmaint o wyrthiau, yn y rhai y mae gwir ôl ac olrhain cerddediad Crist, y rhai y darfu i'r holl hen Dadau sanctaidd, a'r Apostolion, a'r Angylion, a hefyd i Grist ei Hun, Mab Duw, eu dwyn yn brofiaid, ac yn dystiolaeth, cyn fynyched ag yr oedd rhaid; a berwch chwi droi ymaith y rhai hyn megis na thalent hwy gael eu gwrandaw gennych? sef yw hynny, a berwch chwi i Dduw dewi, sy'n dywedyd yn eglur iawn wrthych, yn yr Ysgrythyr Lân? Neu'r Gair hwnnw drwy'r hwn yn unig, medd Paul, y'n cymmodir â Duw; a'r hwn, medd y Prophwyd Dafydd, sydd *Air sanctaidd, pur, ac a barhäa byth bythoedd*[9]; a elwch chwi hwnnw ddim amgen na *llythyren noeth, lom, farw?* Neu a ddywedwch chwi mai ofer yw'r holl boen a gymmerom ni yn y Gair, yr hwn a erchis Crist i ni ei ddyfal chwilio[1], a'i fynnu yn wastad ger bron ein llygaid? Neu, a ddywedwch chwi fod Crist a'i Apostolion yn ceisio twyllo'r byd pan annogent hwy'r bobl i ddarllen yr Ysgrythyrau Glân, fel y gallent drwy y rhai hynny fod yn llawn doethineb a gwybodaeth? Nid dim rhyfedd er i'r gwŷr hyn ein diystyru ni, a phob peth a wnelom, gan iddynt wneuthur bri cyn lleied o Dduw ei Hun, ac o'i Wir Ymadrodd. Etto, wele, gwall synwyr oedd arnynt, pan wnaent hwy'r fath lwyr-gam â Gair Duw, o wir fwriad drwg i ni.

Ond fe lefa Hosius yma, gan ddywedyd, ein bod yn gwneud cam âg ef, ac mai nid ei eiriau ef ei hun yw y rhai hyn, eithr geiriau yr Heretic Zuenckfeldius. Ond pa sut ynte y bydd hi, os llefa Zuenckfeldius ar y llaw arall, gan ddywedyd, mai nid yr eiddo ei hun, eithr eiddo Hosius, ydyw y geiriau? Oblegid dywedwch i mi ym mha le yr ysgrifenodd Zuenckfeldius hwynt erioed? Neu, os ysgrifenodd efe hwynt, ac

[9] Psal. xix. 8. [1] Ioan v. 39.

y barnodd Hosius hwynt yn ddrygionus, paham na lefarodd Hosius gymmaint ag un gair i'w gwrthbrofi? Beth bynnag, er fe allai na oddefa Hosius y geiriau hynny, etto nid yw yn naccâu addef ystyr y geiriau. Oblegid agos ym mhob dadl, ac yn enwedig mewn perthynas i'r arferiad o *Gymmuno dan y ddau ryw*, er fod geiriau Crist yn amlwg ac eglur, etto y mae Hosius yn eu gwrthod yn ddiystyrllyd, fel pe na byddent well nag *elfennau oerion a meirwon;* ac yn gorchymyn i ni gredu rhyw wersi newyddion, a bennodwyd gan yr Eglwys, a rhyw ddatguddiadau, nas gwn i pa beth, o eiddo yr Ysbryd Glân. A dywed Pighius, *Ni ddylai dynion gredu, hyd yn nod y geiriau egluraf ac amlyccaf o'r Ysgrythyrau, os na chaniatteir y cyfryw drwy ddeongliad ac awdurdod yr Eglwys*[2].

XXVIII. A megis na bae hyn ddigon dirmygwch, y maent hwy yn llosgi yr Ysgrythyrau Glân (fel y gwnae gynt y Brenhin annuwiol Aza, ac Antioch, a Macsen), gan eu galw hwy yn llyfrau Hereticiaid[3]: a dïau iawn, er dim a ellir ei weled, eu bod hwy yn ceisio gwneuthur y fath beth ag a wnaeth Herod gynt fel y gallai ef gadw yn ddiogelach ei rwysg a'i lywodraeth yn Iudea. Herwydd yr Herod yma, er bod ei hanfod ef o Idumea, ac nad oedd ef ond gwir-estron i genedl a gwaedogaeth yr Iuddewon, etto er hynny, chwennych yr oedd efe gael ei gymmeryd yn Iuddew, ar hyder y gallai efe felly gadarnhâu iddo ei hun, i'w hil, a'i eppil, Frenhiniaeth gwlad yr Iuddewon; yr hon a gawsai efe gan Augustus Cesar yr Amherawdwr. Er mwyn hyn, y parodd ef ddileu a llosgi holl achau yr Iuddewon, rhag ofn adael dim i ddangos ar ol llaw, mai estronwaed ydoedd ef. Yr hyn achau a gedwesid drwy ofalwch ymhlith yr Iuddewon, yn y Trysor-dŷ er yn amser Abraham, oblegid yn yr achau hynny y gellid gweled a gwybod yn hawdd, ac yn ddiammheuol, o ba lwyth a chenedl yr oedd pawb o honynt yn dyfod.

[2] "Wrth yr hyn y meddylia Eglwys Rhufain."—*Amdd.*
[3] Africanus apud Euseb. Eccl. Hist. lib. i. cap. 7.

Felly y gwŷr hyn, hwythau yn gwbl, gan geisio parch a chymmeriad i'w holl ofer-goelion eu hunain, megis pe baent wedi traddodi o'r Apostolion, neu ynte o Grist ei Hun, rhag ofn gadael dim yn un lle a allai argyhoeddi y fath freuddwydion a chelwyddau sy ganddynt; eu harfer ydyw, y naill ai llosgi yr Ysgrythyrau Glân, ai ynte eu gwneuthur ymaith oddi ar ffordd y bobl.

Gwir iawn a digon cymhwys y mae Chrysostom [4] yn dywedyd am danynt hwy; *Yr Hereticiaid* (medd efe) *a gauant y drysau yn erbyn y Gwir: canys hwy a wyddant yn dda, pe bae y drysau yn agored, na byddai yr Eglwys ddim yn eiddynt hwy.* A Theophilact a ddywedodd mai *Gair Duw ydyw'r ganwyll, wrth oleu'r hon y canfyddir y lleidr.* Medd Tertulian yntau, *Yr Ysgrythyr Lân sydd yn eglur ddangos twyll a lledrad yr Hereticiaid.* Canys paham y maent yn cuddio, ac yn cadw i lawr yr Efengyl, a fynnai Crist ei phregethu yn groch o ben y tŷ? Paham y maent hwy yn rhoi dan hobaid y ganwyll a ddylai sefyll mewn canwyllbren? Paham y maent hwy yn rhoi mwy hyder mewn diwybodaeth, a dall anghyfarwyddyd y bobl, nag mewn daioni eu hachos? Ai tybied y maent hwy nad ydys bellach yn cwbl weled eu ffiêd [5] a'u dichellion hwy? Neu allu o honynt y pryd hyn fyned yn ddiganfodedig, megis pe bae modrwy Gyges ganddynt, ac wrth wisgo honno na ellid mo'u gweled? Mae pawb bellach yn gweled digon, ac yn ddigon amlwg, pa ddefnydd sydd yng nghist dwyfron y Pab. Fe ddichon hyn fod yn brawf goleu, nad oes na gwirionedd, na dim yn iawn, yn y peth y maent hwy arno. Da y dylai yr achos hwnnw gael ei ddrwg-dybio, a gilio oddi wrth dreiadigaeth [6], ac a ofna y goleuni. Herwydd, fel y dywedodd Crist, *ceisio y tywyllwch. a chashâu y goleuad, y mae y neb a wnêl ddrwg* [7]. Cydwybod gwirion a ymddengys yn ddigon parod, fel y gellir gweled y gweithredoedd sydd yn hanfod

[4] In opere imperfecto.
[5] Ffled; *yma* twyll, hocced.
[6] Prawf.
[7] Ioan iii. 20.

o Dduw. Nid ydynt hwythau chwaith cyn ddalled na welant yn amlwg ddarfod am eu teyrnas hwy, o chaiff yr Ysgrythyr Lân unwaith y llaw yn uchaf: ac fel yr ydys yn dywedyd am eilunod y Cythreuliaid gynt, gan y rhai yr oeddid arfer o gael atteb ym mhob cyfyng-gynghor y pryd hynny, eu myned hwy yn fudion yn ddisymmwth, wrth welediad Crist, ar ol iddo ddyfod i'r byd yma; yn yr un ffunud maent hwy yn canfod y cwymp eu holl ddichellion hwy i lawr, yn y fan, wrth welediad yr Efengyl. Herwydd ni fwrir Anghrist i lawr bendra-mwnwgl, ond wrth ddisgleiriad dyfodiad Crist[8].

XXIX. Am danom ein hunain, nid ydym ni yn rhedeg at y tân i losgi dynion am Grefydd, megis y mae arfer y gwŷr hyn; eithr rhedeg yr ydym ni at yr Ysgrythyrau Glân: nid ydym ni chwaith yn eu hamgylchu[9] hwy â dur ac â haiarn, eithr â Gair Duw. *A hwnnw* (fel y dywedodd Tertulian) *yr ydym ni yn porthi ein ffydd: drwy hwnnw yr ydym ni yn codi ein gobaith, ac yn cadarnhâu ein hyder.* Herwydd ni a wyddom mai *Efengyl Iesu Grist ydyw galluogrwydd Duw i iechydwriaeth*[1], ac mai yn yr Efengyl y mae bywyd tragywyddol. Ac fel y mae Paul yn ein rhybuddio, *Ni wrandawn ni pettai Angel Duw yn dyfod o'r nef, o chais ef ein tynnu ni oddi wrth un darn o'r Athrawiaeth hon*[2]. Ië, ac ychwaneg i hyn, megis y dywedodd Iustin y Merthyr sancteiddiolaf am dano ei hun, Ni roem ni ddim coel i Dduw ei Hun, pe bae yn mynnu dysgu i ni Efengyl arall amgenach. Oblegid lle mae'r gwŷr hyn yn peri troi ymaith yr Ysgrythyrau Glân, fel pethau mud, diffrwyth, gan arwain y bobl yn rhagorach at Dduw ei Hun, sydd yn siarad yn yr Eglwys ac mewn Cynghorau; sef yw hynny, i wrandaw ar eu chwedlau, ac i goelio eu rhingcynau hwy: dyna, wrth geisio'r Gwirionedd, ffordd yw honno anhyfedr iawn, a pheryglus aruthr, ïe, yn ei herwydd, ffordd led ynfyd, yr hon ni bu erioed gymmeradwy gan y Tadau

[8] 2 Thess. ii. 8.
[9] Lat. "obsidemus." Saes. "reason."
[1] Rhif. i. 16.
[2] Gal. i. 8.

sanctaidd. Chrysostom a ddywedodd *fod llawer yn gwneuthur ffrost o'r Yspryd Glân; eithr y sawl sy'n dywedyd ar eu pennau eu hun, celwyddus yw eu ffrost hwy, fod ganddynt yr Yspryd Glân. Canys* (eb efe) *megis y gwadodd Crist ei fod Ef yn dywedyd o honaw ei Hun, pan oedd Ef yn traethu allan o'r Ddeddf a'r Prophwydi; felly yr awrhon, o cheisir gwthio arnom yn Enw yr Yspryd Glân, ddim amgenach na'r Efengyl, ni ddylem ni goelio mo honaw. Herwydd megis y mae Crist yn gyflawnder y Ddeddf a'r Prophwydi, felly yr Yspryd Glân sy gyflawnder yr Efengyl.* Hyn yw meddwl Chrysostom.

---

## PENNOD V.

*Ynghylch yr Attebion a'r Gwrthebion allan o'r Tadau a'r Cymmanfa-Gynghorau.*

I. Ac yma nid hwyrach y dywedant hwy, er nad oes mo'r Ysgrythyrau Glân ganddynt, etto, ysgatfydd, y mae gyd â hwy yr hen Athrawon, a'r Tadau sanctaidd. Yn hyn y bu fawr iawn eu ffrost hwy, a'u rhodres erioed, sef, fod holl Henafiaeth, a gwastadol Gyttundeb yr holl oesoedd yn pwyso ar eu tu hwy. Ac nad yw holl byngciau ein Crefydd ni, onid pethau newyddion, diweddar, a phethau, hyd ychydig o'r blynyddoedd diweddaf yma, ni chlywsid erioed sôn am danynt.

II. Dïau na ellir dywedyd dim atgasach yn erbyn Crefydd Duw na'i gyhuddo o newyddwch, fel peth newydd ddyfod. Canys megis nad oes dim o newydd yn Nuw ei Hun, felly ni ddylai bod na newid na newyddwch yn ei Grefydd Ef. Ond etto er hyn, ni wyddom ni pa fodd, ni a welwn yn wastad mai peth arferedig ydyw er y dechreuad, cyn fynyched ag yr ennynodd Duw ei Wirionedd, ac yr eglurhâodd ef i ddynion, er bod y Gwirionedd nid yn unig o'r Henaf-

iaeth mwyaf, eithr o holl Dragywyddoldeb; etto y rhai melldigedig annuwiol, a'r gelynion, a'i galwent ef yn beth diweddar, wedi ei newydd wneuthur. Haman gythreulig, greulawn, yn ceisio gwneuthur i Frenhin Ahasferus fod yn gâs erchyll ganddo yr Iuddewon, efe a'u cyhuddodd hwy wrth y Brenhin yn y modd hyn: *Y mae yma* (eb efe) *gennyt ti, O Frenhin, bobl a chanddynt fath ar gyfreithiau newydd; eithr cyndyn a gwrthryfelgar ydynt yn erbyn dy gyfreithiau di* [1]. Pan ddechreuodd Paul gyntaf bregethu a deongli yr Efengyl yn Athen, ei galwyd ef yn ymadroddwr duwiau newydd, sef yw hynny, Crefydd newydd [2]. *Onid allwn ni* (eb yr Atheniaid) *gael gwybod gennyt ti, pa Athrawiaeth newydd yw hon?* Celsus yntau, pan oedd efe o wir lawnfryd yn ysgrifenu yn erbyn Crist, fel y gallai fe, drwy draha, watwar yr Efengyl, dan ei galw yn beth newydd: *Ai* (eb efe) *ar ol cynnifer o oesoedd, yr awrhon yn y diwedd, mor hir ac mor hwyr, y daeth hyn yng nghôf Duw?* Y mae Eusebius hefyd yn tystiolaethu fod yn arferedig er y pryd cyntaf o alw y Grefydd Gristionogol [3], drwy wir gâs a chenfigen, yn *νέα κὰι ξένη*, sef yw hynny, yn beth dïeithr, newydd. Llyma i chwi y modd y mae y gwŷr hyn yn barnu ac yn bwrw pob peth o'r eiddom ni yn ddïeithr, ac yn newydd; ond hwy a fynnant ganmol yr eiddynt eu hun, beth bynnag font, fel pethau o'r Henafiaeth hwyaf. Yn yr un ffunud a'r Sŵynwyr, a'r Cyfaredd-wyr y pryd hyn, y rhai (gan fod iddynt a wnelont â Chythreuliaid) ydynt arfer o ddywedyd, fod eu llyfrau, a'u holl gyssegr-ddirgelion hwy, wedi dyfod oddi wrth Athanasius, Cyprian, Moses, Abel, Adda, a hefyd oddi wrth yr Arch-Angel Raphael; megis, o ran deilliaw eu celfyddyd hwy oddi wrth y fath Athrawon a Diffynwyr a'r rhai hyn, y gellid eu barnu yn ardderchoccach ac yn dduwiolach. Ar ol yr unrhyw agwedd, y gwŷr hyn, er mwyn mynnu o honynt yn

[1] Esth. iii. 8, &c.
[2] Actau xvii. 18, 19.
[3] Eccl. Hist. l. i. c. 4.

hawsach ac yn rhagorach beri i'r rhai ffolion, ac i'r sawl nid mawr ganddynt beth a wneler, goelio, a chofleidio y Grefydd honno o'r eiddynt hwy (a ddarfu iddynt eu hunain ei dwyn i'r byd, na hynny er ys chwaith hir o amser mo honaw) y maent hwy yn arfer o ddywedyd, gael o honynt hwy eu Crefydd oddi wrth Awstin, Ierom, Chrysostom, Ambros[4], oddi wrth yr Apostolion, ac oddi wrth Grist ei Hun.

Canys hwy a wyddant yn hyspys nad oes dim groesawach, na chynnefinach, gan y cyffredin bobl, na'r henwau hyn. Ond beth o cheir gweled mai yr hyn y maent hwy yn ei alw yn newydd, yw y pethau hynaf o'r cwbl? O'r tu arall, am y pethau y maent hwy yn eu gosod allan drwy fraint Henafiaeth; beth, ar ol eu dyfal chwilio, a'u manwl chwalu, o cheir gweled yn y diwedd, nad yw yr holl bethau hynny gan mwyaf ond pethau newydd, wedi eu dychymmyg yn hwyr o amser?

III. Dïau 'iawn, am Gyfreithiau a Defodau yr Iuddewon, na ddichon un dyn a fae mewn pwyll uniawn, dybied mai newydd oeddynt, er darfod i Haman haeru hynny; herwydd fe ddarfuasai eu hysgrifenu mewn llechau hen iawn o Henafiaeth. Ac er i lawer dybied, ddarfod i Grist gymmeryd llwybr amgenach nag a gymmerasai Abraham a'r hen Dadau, a dwyn o honaw Ef i blith y bobl ryw fath newydd ar Grefydd, yn ei enw ei Hun, etto Efe a'u hattebodd yn uniawn: *Pettaeth yn coelio Moses, chwi a'm coeliech Innau hefyd*[5]. Nid yw fy Athrawiaeth I cyn newydded ag yr ydych yn ei chymmeryd. Herwydd Moses yr Athraw hynaf ei Henafiaeth, i'r hwn yr ydych yn rhoi coel am bob peth, efe a fynegodd am danaf Fi. A St. Paul a ddywedodd, Er bod llawer yn barnu mai peth newydd ydyw Efengyl Iesu Grist, etto y mae ganddi dystiolaeth henaf y Ddeddf a'r Prophwydi. Ond am ein Hathrawiaeth ni, neu yn hytrach yr hon allwn ei galw yn Athrawiaeth Gatholig

[4] Nid yw "Ambros" yn y Saes.

[5] Ioan v. 46.

Crist, y mae hi cybelled oddi wrth newyddwch, a darfod i Dduw (yr hynaf o'r cwbl) a Thad ein Harglwydd Iesu Grist, ei gadael hi i ni yn yr Efengyl, ac yn llyfrau'r Prophwydi a'r Apostolion, y rhai sydd uchelfraint holl Henafiaeth. A chan hynny, ni ddichon neb bellach dybied mai newydd yw ein Hathrawiaeth ni, oddieithr i neb a dybio fod Ffydd y Prophwydi, a'r Efengyl, a Christ ei Hun, yn newydd. Os yw eu Crefydd hwy o gymmaint a chyhyd Henafiaeth ag y mynnent hwy i'r byd goelio, paham ynte nad ydynt hwy yn profi hynny yn wir, drwy siamplau y Brif-Eglwys, a'r hen Dadau, a'r Cymmanfa-Gynghorau o Henafiaeth gynt? Paham y mae Achaws cyn hyned yn aros cyhyd yn y llwch heb ddadleuydd? Yr oedd tân, a dûr, a haiarn ganddynt gerllaw yn wastadol; eithr am yr hen Gymmanfa-Gynghorau, a'r Tadau, mawr yw y gosteg. Yn wir, anrhesymol iawn y gwnaethant ddechreu â'r moddion llidiog, creulon hyn, pe y medrasent gael ffyrdd eraill a fuasai hawsach, a hynawsach, eu tramwy.

IV. Ac os ydynt o ddifrif yn bwrw cymmaint hyder ar lyfrau Henafiaeth, paham, o fewn ychydig o flynyddoedd a aethant heibio, y darfu i Ioan Clement, gŵr o'n gwlad ni, yng ngwydd gwŷr da, a ddylent gael eu coelio, rwygo a bwrw i'r tân swrn o ddalenau allan o lyfr Theodoret, un o'r Tadau o Henafiaeth ac Esgob yn Groeg, yn yr hyn ddalenau yr oedd yr Esgob yn dangos yn eglur, ac yn dysgu i ddynion yn hyffordd, nad ydyw naturiaeth y bara yn y Cymmun yn myned ymaith nac yn diflannu? A hynny a wnaeth Ioan Clement, gan dybied nad oedd un copi arall o lyfr Theodoret onid hwnnw yn unig [6]. Paham y dywedodd Albert Pighius, ddarfod i'r hen Dad Awstin dybied ar gam ynghylch pechod gwreiddiol? ac iddo gam-gymmeryd drwy gelwydd a ffals [7] Ddialectigyddiaeth [8], oblegid dywedyd o honaw am

[6] Dist. 27. Quidam. August. de bono viduitat. cap. 10.
[7] Rhesymeg.
[8] Caus. 27. c. 4. nuptiarum bonum. In controversiis.

briodas ar ol adduned, a diofryd o'r blaen, mai priodas deilwng ydyw, ac na ellir mo'i dattod? Heblaw hyn hefyd, pan roisant hwy ym mhrint yn hwyr o amser y llyfr a ysgrifenasai'r hen Dad Origen ar Efengyl Ioan, paham y gadawsant hwy allan y Chweched Bennod yn hollawl? lle mae'n gyffelybus, neu chwaithach, yn ddïau, ac yn ddiammeu, ddarfod i Origen ysgrifenu llawer am y Sacrament, yng ngwrthwyneb ewyllys y gwŷr hyn; a hwy a'u gosodasant ef allan yn ammherffaith felly [9]; wedi ei anafu rhag ofn y beiasai fo ar eu hamryfusedd hwy. Ai rhoi hyder yn Henafiaeth y gelwch chwi rwygo, darnguddio, anafu, a llosgi llyfrau yr hen Dadau sanctaidd?

V. Ac am y Tadau y rhai y maent hwy'n gwneud ffrost o honynt, sef eu bod yn pwyso ar eu tu hwy, odiaeth yw gweled mor hyfryd, o ran Crefydd, y maent yn cyttuno â'r rhai hynny. Yr hen Gymmanfa-Gynghor Elibertin [1] a wnaeth ddeddf, na bae rydd paentio yn yr Eglwys ddim a'r y bo'r bobl yn ei addoli. Yr hen Dad Epiphanius sy'n dywedyd *mai peth erchyll a diffeithwch anoddefol yw gosod llun paentiedig yn Eglwysi y Cristionogion, ïe, pettai fo lun Crist ei Hunan.* Etto y maent hwythau yn llenwi pob Eglwys a phob cilfach o'r eiddynt â delwau ac â lluniau, megis na thalai y Grefydd ddim hebddynt.

Yr hen Dadau, Origen a Chrysostom [2], sy'n annog y bobl i ddarllen yr Ysgrythyrau Glân, i brynu llyfrau, ac i ymresymu, gwŷr a gwragedd, tadau a phlant, gartref rhyngddynt eu hunain ynghylch pethau duwiol. Hwythau ydynt yn bwrw'r Ysgrythyrau yn elfennau meirw, a chymmaint byth ag allont, yn gwahardd ac yn cadw'r bobl oddi wrthynt.

Medd y Tadau sanctaidd, Cyprian, Epiphanius, a Ierom [3], am y neb a wnelo adduned, ac a roddo

[9] Liber hodie extat, et circumfertur mutilus.
[1] Habitum Anno Christi 305. Vide cap. 3.
[2] Origines in Levitic. c. 6. Chrysos. in Mat. hom. 2. Idem in Ioan. hom. 31.
[3] Cyprian. lib. i. Epist. 11. Epiphan. contra Apostolicos, Hær. 61. Hieron. ad Demetriadem.

ddiofryd[4] priodas, a chwedi hynny a fo'n byw yn anniwair, heb allu diffodd tân y chwantau cnawdol, *mai gwell iddo briodi, a byw'n ddiwair mewn priodas.* Ac y mae'r hen Dad Awstin yn barnu'r briodas honno yn berffaith gymmeradwy, ac na ddylid mo'i dattod. Hwythau am y neb a rwymo ei hun unwaith â llŵ, ac â diofryd, er ei fod ef yn llosgi gwedi hynny, er ei fod yn ymarfer â phutteiniaid, er iddo lygru a halogi ei fuchedd, yn frwnt anrhaith-oddef[5], etto er hynny, ni adawant hwy iddo mo'r priodi: neu o damwain iddo ysgatfydd briodi, etto nid ydyw hynny briodas mo honi yn eu dysg hwy. A gwell a sancteiddiach, meddant, i'w cadw gordderch, a phuttain, na byw yn briod yn y modd hwnnw.

Yr hen Dad Awstin oedd yn cwyno ac yn beio ar y lluosogrwydd o Seremonïau, o'r rhai yr oedd ef yn gweled fod gormod llwyth ar feddyliau a chydwybodau dynion yn ei amser ef. Eithr y gwŷr hyn, megis na bae Duw yn gwneuthur ystyriaeth o ddim onid Seremonïau, a ddarfu iddynt amlhâu y rhai hynny i beth mor anfeidrol, nad oes gan mwyaf ddim arall amgenach wedi ei adael yn eu Heglwysi, a'u Capelau hwy. Hefyd, medd yr hen Dad Awstin, nid rhydd i Fynach dreulio ei oes yn fusgrell[6], ac yn segurllyd, a byw ar eraill dan gymmeryd arno liw a llun sancteiddrwydd. A phwy bynnag a fo byw felly, tebyg yw ef i leidr, medd yr hen Dad Apolonius. Ond ganddynt hwythau, y mae, pa un a ddywedaf ai llawer gŷrr ai llawer mintai o Fynachod? y rhai, er nad ydynt yn gwneud dim, nac ychwaith yn cymmeryd arnynt nac ail na chyffelybiaeth sancteiddrwydd, etto nid ydynt hwy yn unig yn byw, namyn hefyd yn gloddest, ar dda eraill.

Yr hen Gymmanfa-Gynghor yn Rhufain[7] a ordeiniodd na bae rydd i neb ddyfod i wrandaw'r Gwasanaeth a ddywedai'r Offeiriad, yr hwn y gwyddid arno yn hyspys ei fod ef yn cadw gordderch. Eithr y gwŷr hyn sy'n llogi gordderchion i'w Hoffeiriaid, ac yn

[4] Adduned.
[5] Yn anoddefol frwnt.
[6] De opere monachorum.
[7] Can. 3.

chwaneg i hyn, yn gyrru y bobl o'u hanfodd i wrandaw'r melldigedig Wasanaeth[8] a ddywedo'r Offeiriaid hynny.

Canonau hen yr Apostolion[9] sy'n peri symmud o'i swydd yr Esgob hwnnw a fynnai fod yn Swyddog lleyg, a hefyd yn Wr Eglwysig. Etto hwynt-hwy ydynt ac a fynnant wasanaethu bob un o'r ddau. A chwaithach i hyn hefyd, nid ymyrrant hwy â'r un o'r swyddau yr hon a ddylent ei dwyn yn bennaf, ac etto nid oes neb yn gorchymyn eu symmud hwy o'u lleoedd.

Yr hen Gymmanfa-Gynghor Gangrense sy'n peri na wnelo neb y fath ragoriaeth rhwng Offeiriaid priodol ac ammhriodol, a bod iddo dybied fod y naill o ran ammhriodoldeb yn sancteiddiolach na'r llall. Eithr y mae'r gwŷr hyn yn gwneuthur cymmaint rhagoriaeth, a bod o honynt yn tybied yn y fan, ddarfod diwyno eu holl sanctaidd Wasanaeth, os gŵr duwiol a fydd yn ei gylch ef.

Yr hen Amherawdwr Iustinian[1] a orchymynodd draethu pob peth yn y Gwasanaeth bendigaid, â lleferydd rhwydd, uchel, llathraidd, megis y gallai'r bobl dderbyn ffrwyth o honaw. Hwythau, fel na allo'r bobl ddim eu deall, nid yn unig sisial eu Gwasanaeth y maent mewn lleferydd isel, afrwydd, namyn hefyd mewn iaith ddïeithr, ddi-ddeall.

Yr hen Gymmanfa-Gynghor yn Carthago[2] a orchymynodd na ddarllenid dim yng Nghynnulleidfa Crist ond yr Ysgrythyrau Glân Canonedig: eithr darllen y mae'r gwŷr hyn yn eu Heglwysi y pethau y gwyddant hwy eu hunain mai celwyddau a choeg chwedlau ydynt.

Ond, od oes neb yn tybied fod yr awdurdodau a fynegwyd o'r blaen yn llesg ac yn ddiffrwyth, herwydd darfod eu gosod, a'u gorchymyn, trwy archiad Amherodrau ac Esgobion go isel, a Chymmanfa-

[8] "Illorum sacrilegia."—*Amdd.*
[9] Can. 8.
[1] In Novellis Const. 123.
[2] Tertium Carth. cap. 47.

Gynghorau nid o'r fath gyflawnaf; a bod yn hyfrydach ganddo o lawer gael tystiolaeth, yn enw a than awdurdod y Pab, nid hynod, ynte, i'r neb a fo o'r meddwl hwnnw, erchi o'r Pab Iulius[3], yn anad dim, na wlychai'r Offeiriaid mo'r bara yn y caregl wrth wasanaethu'r Cymmun. Hwythau, yng ngwrthwyneb gorchymyn Iulius y Pab, ydynt arfer o rannu a gwlychu'r bara yn y gwin.

Medd y Pab Clemens, *Nid rhydd i Esgob ddwyn bob un o'r ddau gleddyf* (sef, awdurdod lleyg ac awdurdod llên), *herwydd*, eb efe, *o mynni di'r ddau gleddyf, ti a'th dwylli dy hun, a'r sawl a ymufuddhâont i ti.* Ond y mae y Pab, y pryd hyn, yn rhoi hawl ar y ddau gleddyf, ac yn mynnu dwyn bob un o'r ddau; ac am hynny y gellir tybied yn llai rhyfeddod, ddamwain o'r peth a ddywedodd Clemens, nid amgen na *bod y Pab yn ei dwyllo ei hun, ac yn twyllo'r sawl sy'n ymufuddhâu iddo.*

Fe ddywedodd y Pab Leo, *na ddylid dywedyd onid un Offeren, yn un dydd, mewn un Eglwys;* ac etto arfer y gwŷr hyn yw dywedyd weithiau ddeg, weithiau ugain, yn fynych iawn ddeg ar hugain, ac weithiau eraill mwy na hynny o Offerenau, megis na ŵyr y truan a edrycho arnynt, pa ffordd oreu iddo ymdroi.

Meddai'r Pab Gelasius, *Peth diffaith a chyssegr-ledrad yw gwahanu'r Cymmun, dan gymmeryd y naill ryw, a pheidio â'r llall.* Eithr hwynt-hwy, yng ngwrthwyneb i Air Duw, ac yng ngwrthwyneb i'r Pab Gelasius, ydynt yn peri i'w Hoffeiriaid na roddont i'r bobl onid un rhyw yn unig o'r Cymmun, a thrwy hyn y maent hwy'n gwneuthur eu Hoffeiriaid yn euog o gyssegr-ledrad.

VI. Ond o dywedant hwy ddarfod heneiddio a diflannu'r holl bethau hyn, ac nad ydynt berthynasol i'r amser sydd o honi'r awrhon; etto, megis y gallo pawb weled pa goel sydd i'w roi i'r gwŷr hyn, ac ar ba obaith yr ydynt arfer o ddyfyn Cymmanfa-Gynghorau, moes-

[3] De cons. dist. 2. Cum enim nemo.

wch weled ar fyr o eiriau mor drefnus y maent hwy yn cadw y rheithiau a ddarfu iddynt eu hunain eu gwneuthur yn sanctaidd, a'u gorchymyn o ddifrif mewn Cymmanfa-Gynghor reithlawn, a hynny yn hwyr o amser, o fewn y blynyddoedd diweddaf, yr hyn sy gof iawn gan ddynion. Yn y Gymmanfa-Gynghor ddiweddaf a gynhaliwyd yn nhref Trent (nid oes er hynny namyn prin bedair blynedd ar ddeg), fe a ordeiniwyd drwy fodd a boddlondeb pob gradd, na bae rydd roddi i un gŵr ddwy Offeiriadaeth ynghyd ar unwaith. Pa le yr awrhon y mae'r ordinhâd honno? Ydyw hithau hefyd wedi heneiddio a diflannu cyn gynted? Canys chwi a welwch eu bod hwy yn rhoi, nid yn unig ddwy Offeiriadaeth, ond yn fynych lawer Mynachlog, ïe, weithiau ddwy Esgobaeth, weithiau dair, weithiau bedair, i un gŵr, a hwnnw nid yn unig yn annysgedig, eithr hefyd, y rhan fynychaf, yn ŵr o ryfel. A hefyd yn y Gymmanfa-Gynghor honno yr ordeiniwyd orfod i bob Esgob bregethu'r Efengyl. Hwythau nid ydynt nac yn pregethu, nac yn myned unwaith i'r pulpud, nac ychwaith yn tybied fod hynny yn perthyn dim i'w swydd hwy. Pa beth wrth hynny yw'r gwychder a'r rhodres y maent hwy yn ei gynnal ynghylch Henafiaeth? Paham y maent hwy yn gwneuthur ffrost o enwau'r hen Dadau, a'r Cymmanfa-Gynghorau, hen a newydd? Paham y cymmerant arnynt roi hyder yn awdurdod yr hen Dadau, a'r Cynghorau, y rhai y maent, pan fynnont hwy, weithiau eraill, heb wneuthur pris am danynt[4]?

VII. Ond y mae arnaf fi chwant ymliw ychydig â'r Pab ei hun, a dywedyd hyn wrth ei wyneb ef. Dywedwch chwithau i ni, sancteiddiol Bab, gan eich bod chwi yn ffrostio cymmaint o Henafiaeth, ac yn bostio fod pawb yn rhwymedig yn unig i chwi, pwy erioed o'r holl hen Dadau a'ch galwodd chwi yn Brelat uchaf,

[4] De major. et obed. Unam Sanctam. In extrav. Bonifacii VIII. Durandus. Concil. Lat. sub Julio II. Dis. 9. Innocen. De major. et obed. soli. In extravag. Ioan XXII. Cum inter nonnullos. In glossa finali. In edit. impressa Parisiis, 1503.

neu yn Esgob pennaf trwy yr holl fyd, neu yn Ben ar yr Eglwys? Pwy o honynt erioed a ddywedodd ddarfod rhoddi'r ddau gleddyf i chwi? Pwy o honynt erioed a fynegodd mai iawn i chwi, a bod awdurdod gennych, i ddyfyn Cymmanfa-Gynghorau? Pwy o honynt erioed a soniodd nad yw'r holl fyd onid eich *Diœces* [5] chwi? Pwy o honynt a grybwyllodd ddarfod i'r holl Esgobion dderbyn o'ch cyflawnder chwi? Pwy o honynt a ynganodd ddarfod rhoddi i chwi holl-alluogrwydd yn y nef, yn gystal ag ar y ddaear? Pwy o honynt a draethodd na allai na Brenhinoedd, na'r holl Wŷr Eglwysig, na'r holl fyd ychwaith, mo'r barnu arnoch chwi? Pwy o honynt a ddywedodd fod Brenhinoedd ac Amherodrau, drwy ewyllys a gorchymyn Crist, yn cymmeryd eu hawdurdod gennych? Pwy o honynt, drwy mor ystrywgar gyfarwyddyd Mathematicaidd, a ddangosodd eich bod chwi ddengwaith a thriugain saith-waith mwy na'r Brenhinoedd mwyaf? Pwy o honynt a fynegodd ddarfod rhoi i chwi fwy o allu ac awdurdod nag i'r Patrieirch eraill? Pwy o honynt a soniodd mai chwychwi yw'r Arglwydd Dduw? neu, nad oeddych yn unig o rywiogaeth dyn, eithr rhyw sylwedd wedi ei wneud a'i dyfu ynghyd o Dduw ac o ddyn? Pwy o honynt a grybwyllodd mai chwychwi yw prif ffynnon holl Gyfraith [6]? Pwy o honynt a ynganodd fod i chwi alluogrwydd ac awdurdod ar y Purdan? Pwy o honynt a draethodd y gellwch chwi orchymyn Angylion Duw fel y mynnoch eich hunan? Pwy o honynt erioed a ddywedodd mai chwychwi yw Brenhin y brenhinoedd, ac Arglwydd yr arglwyddi? Nyni a allwn fyned etto ym mhellach â chwi yn yr un modd. Pwy erioed, o gynnifer holl hen Esgobion a Thadau, a ddysgodd i chwi na dywedyd Offeren neillduol, tra fae'r bobl yn llygaid-rythu arnoch, na chwaith godi'r Sacrament uwch eich pen, yn yr hyn y mae eich holl Grefydd chwi yr awrhon yn sefyll? Neu pwy a ddysgodd i chwi gwttogi Sacra-

[5] Esgobaeth. [6] Antonius de Rosellis.

mentau Crist, a siomi'r bobl am y naill ran, yn erbyn ordinhâd a gwir eiriau Crist ei Hun? Ac fel y gallom ni unwaith wneuthur pen, pa un o'r holl hen Dadau a ddysgodd i chwi gyfrannu a chyfroddi Gwaed Crist, a Haeddedigaethau 'r Merthyron gwynfydedig, a gwerthu eich Pardynau, a holl ystafellau a chyflëoedd y Purdan, megis marsiandiaeth yn y farchnad?

Y mae arfer y gwŷr hyn o siarad llawer am ryw fath ar ddirgel athrawiaeth, ac am lawer amryw fath ar ddysg a darlleniad sy ganddynt. Dangosant hwythau ryw beth y pryd hyn, fel y caer gweled ddarfod iddynt ddarllen, a'u bod hwy yn gwybod peth.

Hwy a lefasant yn groch ym mhob man o amgylch ogylch, fod pob darn o'u Crefydd hwy yn hen anianol, wedi ei gwneuthur yn gymmeradwy, a'i chadarnhâu, nid yn unig drwy luosogrwydd, eithr hefyd drwy gyttundeb, a chyd-barhead holl genhedloedd ac amseroedd.

VIII. Dangosant hwythau yr Henafiaeth honno o'r eiddynt unwaith yn eu hoes. Moesant gael gweled yn amlwg y pethau y maent hwy yn gwneuthur cymmaint rhodres yn eu cylch, pa fodd y cawsant gynnydd gyhyd a chyn helaethed. Adroddant pa fodd y darfu i'r holl Genhedloedd Cristionogaidd gyttuno drwy foddlondeb i'r Grefydd hon o'r eiddynt hwy.

Eithr yn hytrach, fel y mynegasom ni o'r blaen, cilio y maent oddi wrth eu rheithiau eu hun: ac fe ddarfu iddynt dorri drachefn, a diddimio mewn byr amser, yr unrhyw bethau ag a ordeiniasent hwy, o fewn ychydig flynyddoedd o'r blaen, i barhâu byth.

Pa ddelw, ynte, y gellir eu coelio hwy yn llyfrau'r Tadau, yn yr hen Gynghorau, ac yn y geiriau a ddywedodd Duw ei Hun? Nid oes ganddynt, O Dduw daionus, nid oes ganddynt mo'r pethau y maent yn gwneuthur cymmaint rhodres yn eu cylch: nid oes ganddynt na Henafiaeth, nac hollol Feddiannaeth, na chwaith Gyttundeb holl wledydd ac amseroedd. Ac er eu bod hwy yn chwennych cymmeryd arnynt, etto hwy a wyddant hyn yn ddigon hyspys; ïe, ac ni rusant

hwy weithiau gyfaddef cymmaint a hyn yn gyhoeddedig. Ac o ran hyn y dywedant am reithiau yr hen Gymmanfa-Gynghorau, a'r hen Dadau, nad ydynt amgenach, nas gellir eu newid weithiau, ac mai rhaid wrth amryw ordinhâd bob amryw amser yn yr Eglwys. Dyma i chwi fel y maent hwy yn chwareu mic ymguddio dan enw yr Eglwys, ac yn twyllo'r truaingwerin drwy goeg rithio. A rhyfedd ydyw fod pobl, y naill ai mor ddall na welant hyn, ai ynte mor oddefgar os ydynt yn gweled, a gallu o honynt cyn llonydded gyd-ddwyn â'r cwbl.

IX. Eithr lle y darfu iddynt beri gadael ymaith y rheithiau a'r trefniadau uchod, fel pethau dirymus wedi gormod heneiddio, nid hwyrach osod o honynt yn lle'r rhai hynny, rai eraill gwell a chymhwysach ar les dynion. Eu harfer hwy yw dywedyd, pettai Crist a'r Apostolion eilwaith yn fyw, na allent lywodraethu yr Eglwys yn well neu yn dduwiolach nag yw eu llywodraeth hwy yr amser sydd o honi yr awrhon. Ond hwy a osodasant yn lle y rhai hynny rai eraill; gwir iawn, peiswyn a ddarfu iddynt osod yn lle y gwenith, fel y dywedodd y Prophwyd Ieremiah. A'r fath bethau ag ni cheisiodd Duw erioed ganddynt, fel y dywed y Prophwyd Esaiah: *Hwy a argauasant* (eb efe) *holl nentydd y dyfroedd byw, ac a gloddiasant i bobl Dduw byllau twyllodrus, tomlyd, yn llawn brynti a budreddi; yn y rhai nid oes dim dwfr glân, ac ni allant ddal dwfr glân ychwaith.* Hwy a gipiasant oddi ar y bobl y Cymmun sanctaidd, a Gair Duw, yn yr hwn y mae ceisio pob diddanwch. Hwy a gipiasant ymaith wir Addoliaeth Duw, ac iawn arfer y Sacramentau, a Gweddïau: hwy a roisant i ni o'r eiddynt eu hun, i'n dyhuddo yn y cyfamser, Halen, Dwfr, Blychau-olew, Poeriadau, Canghennau Blodau, *Bullæ,*[7] Iubileau, Pardynau, Croesau, Arogl-darth, a pheth aneirif o goeg Seremonïau, a chwareuydd bethau, i beri chwareu, fel y dywedodd Plautus. Yn y pethau hyn y darfu iddynt

[7] Gwarantau y Pab.

hwy gyflëu Crefydd yn hollol, gan ddysgu i'r bobl, mai trwy y pethau hyn y gellir cwbl-foddloni Duw, gyrru ymaith ysprydion, ac esmwythâu cydwybodau dynion. Dyma, wele, liwiau hyfryd, ac arogl-enneiniau Crefydd Gristionogaidd. Y rhai hyn yw y pethau y mae Duw yn edrych arnynt, ac yn eu cymmeryd yn ddiolchus; mae yn rhaid dyfod y rhai hyn i gael addoliant, a throi ymaith ddeddfodau Crist a'r Apostolion. A megis gynt y gwnaeth Brenhin Ieroboam annuwiol, pan ddygodd ef oddi ar y bobl wir Wasanaeth Duw, gan eu harwain hwy i addoli Lloiau euraid; yna, rhag ofn iddynt ar ol hynny newidio eu meddyliau, a neillduo oddi wrtho ef, a myned i Gaersalem i Deml Dduw, efe a'u hannogodd hwy, drwy hir araith, i fod yn ddianwadal, gan ddywedyd fel hyn, *O Israel, y Lloiau yma yw dy Dduwiau di: yn y modd yma y gorchymynodd Duw i chwi ei addoli Ef. Herwydd blinder a lludded mawr fyddai i chwi gymmeryd taith gyhyd gan fyned i fynu i Gaersalem bob blwyddyn i wasanaethu ac i addoli eich Duw yno.* Yn yr un ffunud, er da i'r holl fyd, wedi darfod i'r gwŷr hyn hwythau ddiffrwytho unwaith Gyfraith Dduw drwy eu traddodiadau eu hun, rhag ofn i'r bobl agoryd eu llygaid ar ol hynny, a llithro ymaith gan geisio ryw ffordd arall, ffordd sicrach o'u hiechydwriaeth, O Dduw, mor fynych y llefasant hwy yn groch, Dyma y Gwasanaeth sydd foddlawn gan Dduw, a'r hwn a fyn Efe ei gael gennym, ac er mwyn yr hwn y try Ef ei ddigofaint oddi wrthym! Trwy'r moddion hyn y cedwir cyttundeb yr Eglwys: drwy y rhai hyn y rhyddheir holl bechodau, ac yr esmwythir holl gydwybodau; a phwy bynnag a ymwrthodo â'r pethau hyn, nid oes iddo ddim gobaith o gael ei achub yn dragywydd. Herwydd, meddant hwy, blinder a lludded mawr fyddai i'r bobl ymchwelyd drachefn at Grist, at yr Apostolion, ac at yr hen Dadau, gan ddyfal-graffu yn wastad beth y maent hwy yn ei orchymyn. Ai hyn (edrychwch) yw arwain pobl Dduw oddi wrth lesg-elfennau y byd, oddi wrth

surdoes[8] yr Ysgrifenyddion a'r Phariseaid, ac oddi wrth draddodiadau dynion? Ai cymhwys ydoedd symmud ymaith orchymynion Crist a'r Apostolion, a gosod y rhai hyn yn eu lle hwy? Wele, ynte, achos cyfiawn, gwych, paham y dilëid yr hen Athrawiaeth ydoedd gymmeradwy lawer oes, ac y dygid i mewn i Eglwys Dduw fath newydd o'r Grefydd! Ac etto pa fath bynnag ydyw, llefain y maent hwy nad rhaid newid dim o honaw, herwydd fod hyn yn cwbl foddloni meddyliau dynion, a darfod i Eglwys Rhufain ordeinio hyn: a hefyd na ddichon Eglwys Rhufain mo'r camgymmeryd. Canys, medd Silvester Prierias, Eglwys Rhufain yw uniawnder a rheoledigaeth y Gwir, a darfod i'r Ysgrythyrau Glân gael coel ac awdurdodau oddi yno. *Athrawiaeth Eglwys Rhufain* (eb efe) *yw diammheuol reoledigaeth y Ffydd, oddi wrth yr hon Eglwys y mae yr Ysgrythyr Lân yn cymmeryd nerth. Ac ni hyspyswyd i ni mo'r Pardynau drwy awdurdod yr Ysgrythyr Lân, eithr eu hyspyswyd hwy drwy awdurdod Eglwys a Phabau Rhufain, yr hyn sydd fwy.* Nid ammheuodd hefyd Pighius ddywedyd na ddylid credu mo'r Ysgrythyr rwyddaf ac egluraf heb archiad Eglwys Rhufain. Yr un agwedd a phe bae un o'r rhai ni fedrant ddywedyd Lladin pur gywir (ac er hynny a fedrant yn ddigon parod ac yn ddirwystr floesg-siarad peth o'r fath Gyfraith-Ladin ag sydd arferedig yn y llys), yn dal dadl mai dyledus yw i bawb eraill ddywedyd ar ol yr un ffordd ag y dywedodd Catholicon a Mametrectus er ys llawer blwyddyn deg (yr hwn fath ar ddywediad sydd arferedig etto yn eu plith hwy wrth ddadleu yn y llys), oblegid felly y gellir deall yn ddigonol beth a ddyweder, a chyflawni ewyllysiau dynion; ac mai ffolder yr awrhon yn y diwedd yw gwneuthur trin a thrallod yn y byd, drwy fath newydd ar ymadroddiad, dan adgyfodi drachefn yr hen burder a'r godidogrwydd gynt ydoedd arferedig yn Lladin gan Cicero a Iulius Cesar[9] yn eu hamser hwy.

[8] Lefen. [9] Iwl Caisar.

X. Felly yr un faint y mae y gwŷr hyn, hwythau, yn rhwymedig i anwybodaeth a thywyllwch yr oesoedd a aethant heibio. *Y mae llawer peth* (fel y dywedodd un [1]) *mewn parch a chymmeriad er mwyn darfod eu rhodd-offrymu unwaith i demlau'r Duwiau Paganaidd.* Felly, ni a welwn yr amser sydd yr awrhon fod y gwŷr hyn yn gwneuthur bri a phris ar lawer peth, nid o ran eu bod hwy yn barnu y dylid gwneuthur cymmaint cyfrif o'r fath bethau, eithr yn unig er mwyn darfod eu derbyn drwy hir arfer, a darfod eu rhodd-offrymu i Deml Dduw.

Ni ddichon (meddant am danynt eu hun) ein Heglwys ni na chyfeiliorni na cham-gymmeryd. Dywedyd hyn (dybygaf) y maent hwy, megis yr oedd arfer y Lacedemoniaid o ddywedyd gynt, na ellid cael un godinebwr o fewn eu holl Lywodraeth hwy; lle yn hytrach, o ddywedyd y Gwir, godinebwyr oeddynt i gyd, heb ddim gwastadfod yn eu priodasau, eithr eu holl wragedd yn gyffredin i bawb o honynt. Neu, fel y mae arfer y Canonistiaid, er mwyn eu boliau, o ddywedyd y pryd hyn am y Pab [2], gan ei fod ef yn arglwydd o bob bywyd eglwysig, er iddo werthu Esgobaethau, Mynachlogydd, ac Offeiriadaethau, ac nad ymadawo fo â dim yn rhâd; etto gan ei fod ef yn dywedyd mai fe piau hyn i gyd, am hynny na ddichon bod *Simmoni* [3] ynddo ef, pe rhown ag iddo chwennychu *Simmoni* fwyaf ag allai. Eithr ni fedrwn ni etto ganfod mor gadarn ac mor gyfattebol i reswm y gallent hwy ddywedyd hyn, oddieithr ddarfod iddynt hwy dorri adenydd y Gwir; fel yr oedd arfer y Rhufeiniaid o wneuthur gynt â'u Duwies Victoria [Gorfodaeth [4]], sef, wedi iddi unwaith ddyfod attynt, dorri ei hadenydd, megis na allai hi byth mwy ehedeg oddi wrthynt â'r unrhyw adenydd hynny. Ond, beth os dywed y Prophwyd Ieremiah wrthynt (fel y mynegasom ni o'r blaen), mai celwyddau yw y rhai hyn? Beth os dywed yr un Prophwyd mewn man arall, mai y

[1] Plinius. [2] Summa Angelica, in dictione papæ.
[3] Theodoricus de Schismate. [4] Buddug.

gwŷr a ddylent fod yn warcheidwaid ar y winllan a ddarfu iddynt fathru ac anrheithio Gwinllan yr Arglwydd? Beth os dywed Crist ddarfod i'r gwŷr a ddylent yn bennaf ofalu am y Deml, wneuthur ogof lladron o Deml yr Arglwydd? Os gwir na ddichon Eglwys Rhufain gyfeiliorni nac amryfuso, dïau, ynte, mai rhaid fod happusrwydd yr Eglwys yn fwy na'u pwyllineb hwy. Herwydd o'r cyfryw ydyw eu buchedd a'u hathrawiaeth, a'u hastudrwydd, na allai yr Eglwys yn unig gyfeiliorni, eithr hefyd gael ei difa a chwbl ddarfod am dani erddynt hwy. Yn wir, o dichon yr Eglwys honno gyfeiliorni, a ddarfu iddi ymadael â Gair Duw, â Gorchymynion Crist, â Threfniadau yr Apostolion, âg Arferau'r Brif-Eglwys, â Rheoledigaethau yr hen Dadau a'r Cynghorau; yr hon hefyd a ddarfu iddi ymadael â'i deddfodau ei hun; a'r hon ni ellir dal mo honi o fewn cyfreithiau yn y byd, na hen na newydd, nac o'r eiddo ei hun, nac o'r eiddo eraill, nac o fewn Cyfreithiau Duw, nac o fewn cyfreithiau dyn: yna, dïau a diammeu iawn ydyw, nid yn unig allu o Eglwys Rhufain gyfeiliorni, eithr darfod iddi gyfeiliorni yn waradwyddus, ac yn frwnt aruthr.

XI. Am danom ni y dywedant, *Chwi a fuoch gynt o'n Crefydd a'n Cymdeithas ni, ond yr awrhon fe ddarfu i chwi ymadael ac ymwahanu â ni.* Gwir ydyw, ddarfod i ni ymadael â hwy, ac y mae gennym ddiolch i'r Goruchaf Dduw, a llawen iawn ydym, ar ein rhan ein hun, wneuthur o honom ni hynny. Ond etto ni ddarfu i ni mo'r ymadael â'r Brif-Eglwys, nac â'r Apostolion, nac â Christ. Fe'n dygpwyd ni i fynu gyd â'r gwŷr hyn mewn tywyllwch ac mewn gwall gwybodaeth am Dduw, fel y cafodd Moses ei ddysg a'i ddwyn i fynu yn athrawiaeth ac yn mynwes yr Aiphtiaid. *Ni a fuom* (medd Tertulian) *o'ch Cymdeithas chwi, yr wyf yn cyfaddef; ac nid oes dim rhyfeddod, herwydd nid yw dynion yn Gristionogion wrth enedigaeth, eithr wrth wneuthuriad*[5]. Ond paham,

[5] "De vestris fuimus. Fiunt, non nascuntur Christiani."

attolwg, y darfu iddynt hwy, sy Ddinaswyr Rhufain, symmud a dyfod i lawr i drigo i'r gwastad a elwir Maes Mars [6], oddi ar y saith bryn, ar y rhai yr oedd Rhufain yn sefyll gynt? Nid hwyrach y dywedant hwy, mai am ballu a sychu yn y bryniau hynny y cwndidau dwfr [7], heb y rhai ni allent hwy mo'r byw yno yn iawn. Rhoent hwythau, ar nawdd Duw, i ni, wrth geisio dwfr y bywyd tragywyddol, yr un fath gennad ag a fynnant hwy gymmeryd eu hunain wrth geisio dwfr y pydew. Oblegid, yn wir, e ballasai'r dwfr yn eu plith hwy: *Yr Henuriaid* (medd Ieremiah [8]) *a ddanfonasant eu rhai bychain i'r dyfroedd; hwythau druain, yn marw o syched, gan na fedrent gael dwfr, a ymchwelasant â'u llestri yn wag. Yr anghenus a'r rhai tlodion* (eb Esaiah [9]) *a chwiliasant o amgylch am ddwfr, ond ni fedrent hwy gael dim yn unlle: yr oedd eu tafodau hwy wedi gwywo o dra syched.* Felly y gwŷr hyn a dorrasant yn gandryll yr holl bibellau a'r cwndidau dwfr: hwy a argauasant yr holl ffrydiau, ac a lanwasant ffynnon y dwfr byw â thom ac â brynti. A megis yn Rhufain y gwnaeth Caligula gynt amgau a chloi'r holl ysguboriau ŷd, gan beri yn y modd hwnnw newyn a drudaniaeth cyffredinol ymhlith y bobl; felly y gwŷr hyn hwythau, wrth gau a phridd-lenwi holl ffynhonnau Gair Duw, a wnaethant ar y bobl syched gresynol. Hwy a barasant newyn a syched ar ddynion, fel y dywedodd y Prophwyd Amos [1], *Nid newyn bara, na syched dwfr, ond newyn a syched gwrandaw Gair Duw.* Y truain gwerin a aethant amgylch ogylch, dan geisio rhyw wreichionen o oleuni duwiol, i lawenhâu eu cydwybodau, eithr y goleuni hwnnw oedd wedi diffodd cyn llwyred, na fedrent hwy gael un gronyn. Llyma'r cyflwr, llyma'r drefn resynol, oedd ar Eglwys Dduw. Anhyfryd ydoedd byw ynddi heb yr Efengyl, heb oleuni, heb ddiddanwch yn y byd.

XII. Wrth hynny, er bod yn erwin ganddynt ddar-

[6] Campus Martius.
[7] Y dyfr-ffosydd.
[8] Ier. xiv. 3.
[9] Esa. xli. 17.
[1] Amos viii. 1.

fod i ni ymadael â hwy, etto hwy a ddylent ystyrio mor gyfiawn ydoedd yr achos a wnaeth i ni ymadael. O dywedant hwy nad rhydd mewn modd yn y byd i neb adael y Gymdeithas lle y dygpwyd ef i fynu; hwy a allant felly, yn ein cysgod ni, gondemnio y Prophwydi a'r Apostolion, a Christ ei Hun. Canys paham na' achwynant hwy hyn hefyd, fyned Lot allan o Sodom, fyned Abraham ymaith o wlad Caldea, fyned yr Hebreaid allan o'r Aipht, fyned Crist oddi wrth yr Iuddewon, a myned Paul oddi wrth y Phariseaid? herwydd oni ddichon bod achos cyfiawn i neb ymadael (na chynt na chwedi), ni welwn ni reswm paham na ellir cyhuddo Lot, Abraham, yr Hebreaid, Crist, a Phaul Apostol, o gynhwrf a gŵyr-bleidiaeth, yn gystal ag eraill.

Ac od yw y gwŷr hyn yn mynnu'n bwrw ni yn Hereticiaid, er mwyn nad ydym yn gwneuthur pob peth wrth eu harchiad hwy, pwy (er Duw), pa rai, neu pa fath ddynion a ddylent hwy eu hunain gael eu gadael, sy'n dirmygu gorchymynion Crist a'r Apostolion? Od ydym ni Scismaticiaid oblegid ddarfod i ni eu gadael hwy, gerfydd pa enw ynte y gelwir hwy eu hun, a ddarfu iddynt ymadael â'r Groegiaid (gan y rhai y cawsant hwy eu Ffydd gyntaf), ymadael â'r Brif-Eglwys, â Christ ei Hun, ac â'r Apostolion, fel yr ymadawai plant â'u tadau ac â'u mammau? Canys am y Groegiaid, heddyw, sy'n cyfaddef Crefydd ac Enw Crist, er bod llawer peth wedi llygru yn eu plith hwy, etto y mae ganddynt fyth ran fawr o'r hyn a gawsant gan yr Apostolion. Nid oes ganddynt hwy nac Offerenau neillduol, na Sacramentau wedi darn gwttogi, na Phurdan, na Phardynau chwaith. Am *stiloedd*[a] Goruch-Esgobion, a'r fath enwau ffrost-feilchion, y mae cymmaint serch ganddynt i'r rhai hynny, a phwy bynnag fyddai a gymmerai arno y cyfryw enwau, gan beri ei alw nac yn Esgob Goruchaf trwy yr holl fyd, nac yn Ben ar yr holl Eglwys; ni rusent

[a] Titlau, Enwadau.

hwy dddywedyd am dano ei fod ef yn ddyn balch anianol, trahaus yn erbyn ei frodyr yr Esgobion eraill, ac yn Heretic cynnwynol.

XIII. A chan fod hyn mor eglur hynod na ellir dim gwâd o honaw, ddarfod i'r gwŷr hyn gwympo ymaith oddi wrth y Groegiaid, gan y rhai y cawsant hwy yr Efengyl, y Ffydd, eu Crefydd, a'u Heglwys; beth yw'r achos na allant hwy yr awrhon aros mo'u galw adref drachefn at y rhai hynny, megis at eu dechreuad? Paham y maent yn ofni cymmeryd siamplau wrth amseroedd yr Apostolion a'r hen Dadau, megis bod y rhai hynny heb ganfod dim a weddai? Ai tybied fod y gwŷr hyn yn canfod mwy, neu yn gwneuthur mwy cyfrif o Eglwys Dduw, na'r rhai a draddodasant i ni y pethau sy gennym? Ni a ymadawsom, yn wir, â'r Eglwys honno, yn yr hon ni allem ni na chael gwrandaw Gair Duw yn buraidd, nac iawn weinidogaeth y Sacramentau, na galw ar Enw Duw fel y dylid; yr hon Eglwys hefyd, y maent hwy eu hun yn cyfaddef fod llawer bai arni; ac yn yr hon nid oedd dim a allai attal dyn synhwyrol yn y byd, a fae'n gofalu am ei ddiogelwch ei hun. Heblaw hynny, ni a ymadawsom â'r Eglwys honno yn y cyflwr y mae hi yr awrhon, nid fel yr oedd hi gynt: ac ni a aethom oddi wrthi fel yr aeth Daniel o ogof y llewod, a'r Tri Meibion allan o'r tân. Ac o ddywedyd y gwir, hwy a'n bwriasant ni ymaith, drwy felldithion a sennau, chwaithach na myned o honom oddi wrthynt o'n gwaith ein hun.

XIV. Ac ni a ddaethom at Eglwys arall, yn yr hon ni allant wâd eu hun, o dywedant hwy y gwir a wyddant, ein bod yn llywodraethu pob peth mewn parch a gweddeidd-dra, ac yn nesaf y gallom am yr einioes i'r drefn ydoedd arferedig yn yr hen amser. Cystadlant hwy ein Heglwysi ni â'u Heglwysi eu hun, a hwy a gânt weled ddarfod iddynt hwy yn frwnt aruthr ymadael â'r Apostolion; ac i ninnau, nid heb achos mawr iawn, ymadaw â hwythau. Canys rhoi yr ydym ni y cwbl Gymmun i'r bobl, yn ol y modd y gwnaeth

Crist a'r Apostolion, a'r Tadau sanctaidd: hwythau, yn erbyn yr holl hen Dadau, yn erbyn yr Apostolion, yn erbyn Crist ei Hun, ydynt, fel y dywedodd Gelasius, drwy anrheithiol gyssegr-ledrad, yn gwahanu'r Sacrament, ac heb roddi namyn y naill ddarn i'r bobl.

E ddarfu i ni ddwyn drachefn Swpper yr Arglwydd i ordinhâd Crist, ac a fynnwn fod y Cymmun, yn ol enw priod, gymmaint fwyaf ag a aller, yn gyffredin, ac yn gyfrannedig i lawer iawn o bobl ar unwaith. Hwythau, yn erbyn ordinhâd Crist, a newidiasant y cwbl, gan wneuthur Offeren neillduol o'r Cymmun cyssegr-lân: ac yn y modd hyn yr ydym ni yn rhoi gwir Swpper yr Arglwydd i'r bobl, a hwythau yn rhoi iddynt goeg degan i edrych arno.

Dywedyd yr ydym ni, gyd â Thadau yr Henafiaeth, nad yw yn bwytta Corph Crist onid y rhai ffyddlawn, y sawl a gynnysgaethwyd âg Yspryd Crist. Eithr eu Hathrawiaeth hwy, o'r tu arall, ydyw, na ddichon yn unig y rhai echryslawn, anffyddlawn, fwytta gwir Gorph Crist yn ddefnyddiol ac yn sylweddol, fel y dywedant hwy, namyn hefyd (peth erchyll i'w adrodd) y dichon cŵn a llygod fwytta yr unrhyw Gorph yn yr un modd.

Gweddïo yr ydym ni yn yr Eglwysi, yn ol archiad St. Paul[a], fel y gallo'r bobl ddeall beth y byddom ni yn ei weddïo, ac atteb AMEN drwy gyffredin gyttundeb: ond y gwŷr hyn, megis tingcian prês, ydynt yn swnial yn eu Heglwysi hwy eiriau dïeithr anghydnabyddus, heb wybodaeth, heb ystyriaeth, heb ddysg, heb ddawn; a hyn y maent hwy arno o wir gwaith oddef, fel na chaffo y bobl ddeall un gronyn.

Eithr nid er mynegi pob pwngc o ragoriaeth rhyngom ni a hwy, herwydd peth aneirif gan mwyaf fyddai hynny; yr ydym ni yn cyfieithu yr Ysgrythyr Lân ym mhob iaith: hwythau, braidd y gadawant hwy yr Ysgrythyr Lân i fod mewn iaith yn y byd. Gwahodd y bobl yr ydym ni i ddarllen ac i wrandaw Gair

[a] 1 Cor. xiv. 16.

Duw: eu hymlid hwy i ffwrdd y maent hwythau. Chwennych yr ydym ni gael o bawb wybod ein hachos: cilio oddi wrth farn y maent hwythau. Bwrw ein pwys ar wybodaeth yr ydym ni: pwyso ar anwybodaeth y maent hwythau. Rhoi ein hyder yn y goleuni yr ydym ni: hyderu yn y tywyllwch y maent hwythau. Parchu, fel y gweddai, Ysgrifeniadau yr Apostolion a'r Prophwydi yr ydym ni: eu llosgi hwy y maent hwythau. Yn ddiweddaf o'r cwbl, yn achos Duw, sefyll wrth farn Duw ei Hun a fynnwn ni: sefyll wrth eu barn eu hunain a fynnant hwythau. Am hynny, os hwy a ystyriant hyn i gyd, â meddwl pwyllus, parod i wrandaw ac i ddysgu, ni bydd yn unig gymmeradwy ganddynt y ffordd a gerddasom ni, gan i ni gilio oddi wrth amryfusedd, a chanlyn Crist a'r Apostolion, eithr hefyd hwy a ymwrthodant â hwynt eu hunain, ac a ddeuant ar ein tu ni o'u gwaith eu hun.

---

## PENNOD VI.

*Ynghylch Awdurdod Cymmanfa-Gynghorau, y Pab, a Phennaduriaid Lleyg, ac ynghylch Adferiad y Brif-Grefydd.*

I. Ond, ysgatfydd, hwy a ddywedant nad rhydd oedd i ni gychwyn yr helynt hon heb gyfarch Cymmanfa a Chyssegr-Gynghor, yn yr hyn y mae holl rym yr Eglwys: a darfod i Grist addaw y byddai Ef gymhorth a chynnorthwy yn y cyfryw Gynnulleidfa. Ac etto hwy eu hunain, heb aros am Gymmanfa-Gynghor, a dorrasant orchymynion Duw, a deddfodau yr Apostolion. Ac fel y dywedasom ni o'r blaen, hwy a anrheithiasant agos holl reithiau, ac a ddiwynasant Athrawiaeth y Brif-Eglwys.

II. Lle maent hwy yn dywedyd nad rhydd gwneud newidiad heb Gymmanfa-Gynghor, pwy a wnaeth i ni y cyfryw Gyfreithiau? Neu o ba fan y cafwyd hyn o orchymyn? Digon ffol oedd pen y Brenhin Agesi-

laus, wedi cael o hono atteb cyflawn beth ydoedd meddwl ac ewyllys Jupiter alluog, pan âi fo drachefn at Apollo am yr un achos, i ofyn ydoedd ef o'r un meddwl a'i dad. Eithr ffolach o lawer fyddai ein pennau ni, os, ar ol i ni glywed Duw ei Hun yn dywedyd yn ddigon rhydd wrthym yn yr Ysgrythyrau Glân, lle y gallom gael llawn ddeall o'i feddwl a'i ewyllys Ef, od aem ni ar ol llaw, megis na bae hyn yn talu dim, i geisio treio ein hachos ger bron Cymmanfa-Gynghor: yr un agwedd a phe baem ni yn gofyn i ddynion, ai cymhwys (dybygent hwy) yw y peth y mae Duw yn ei dybied yn gymhwys? Neu, ofyn ai gwiw gan ddynion, drwy eu hawdurdod hwy, wneuthur gorchymynion Duw yn gymmeradwy? Paham, attolwg, ai nid gwir ydyw y Gair, neu nid Duw ydyw Duw, oddi eithr i'r Gymmanfa-Gynghor fynnu erchi hynny? Pe y buasai Crist yn darpar y cyfryw helynt o'r dechreuad, ag na wnaethai Fo na dysgu na dywedyd dim o anfodd yr Esgobion, eithr cymhwyso ei Athrawiaeth wrth fodd Annas a Chaiaphas, pa le y buasai ynte y Ffydd Gristionogol y pryd hyn? neu pwy fyth a gawsai glywed pregethu yr Efengyl? Petr Apostol (yr hwn sydd fynychach yng ngenau y Pab, ac yn cael mwy o barch ganddo nag Iesu Grist) a safodd yn ddigon hyf yn erbyn cyssegr Gymmanfa-Gynghor, gan ddywedyd mai *cymhwysach ydyw ymufuddhâu i Dduw nag i ddynion*[1]. Paul Apostol hefyd, ar ol iddo unwaith dderbyn yr Efengyl i'w galon, a hynny *nid oddi wrth ddynion, na thrwy waith dyn, eithr drwy ewyllys Duw yn unig, ni cheisiodd ef gymmeryd cynghor gan gnawd a gwaed,* na dwyn y matter ger bron ei geraint a'i frodyr, ond efe a aeth yn gyflym i Arabia i bregethu y Dirgeledigaethau sanctaidd drwy awdurdod Duw[2].

III. Yn wir, nid ydym ni yn dirmygu Cynghorau, na Chymmanfäau, na Chyd-ddadleuau Esgobion a gwŷr dysgedig; ac ni ddarfu i ni wneuthur ychwaith

[1] Actau iv. 19. [2] Gal. i. 12. 16, 17.

mo'r hyn a wnaethom, yn hollol heb Esgobion, a heb Gynghor. E ddarfu drwy hir ymgynghori gwbl ddadleu am yr achos mewn Parliament llïosog, ac mewn cyflawn Gymmanfa. Ond am y Gymmanfa-Gynghor y mae y Pab Pius yn cymmeryd arno ei dyfyn yr amser hwn, lle yr ydys yn euog-farnu,[3] mor ebrwydd, y rhai ni chawsant na'u galw, na'u gweled, na'u clywed, hawdd yw dychymmyg beth a ellir edrych am dano, a pheth sydd i'w obeithio o'r fath Gynghor.

Pan welodd Nazianzen gynt yn y fath Gymmanfäau a'r rhai hyn, fod gwŷr mor ddall, ac mor gyndyn, a chwedi ymroi cymmaint i'w meddyliau eu hun, mai ceisio gorfod yr oeddynt, chwaithach na cheisio'r Gwirionedd; efe a draethodd yn gyhoeddedig na welsai fo erioed ddiben daionus o un o'r Cymmanfa-Gynghorau[4]. Beth a ddywedai efe pe bae efe fyw yn yr amser yma, wrth ganfod a gwybod trin a dichellion y gwŷr hyn? Herwydd, er bod canlyn pleidiau y pryd hynny, etto yr oeddid yn gwrandaw achos pob plaid, ac yn gwrthladd amryfusedd hynod pob plaid, drwy eiriol bodd a boddlondeb pawb. Y gwŷr hyn, hwythau, ni fynnant na bod yn rhydd dwyn yr achos i fewn dadl, na chwaith newid dim amryfusedd er maint fyddo.

Canys eu harfer hwy ydyw ffrostio yn ddigywilydd, *na ddichon eu Heglwys hwy syrthio mewn amryfusedd, nad oes dim bai ynddi, ac nad rhaid iddynt roi y goreu i ni mewn dim.* Neu od oes fai, yr[5] Esgobion a'r Abbadau a ddylent fod yn farnwyr arno; oblegid hwy piau cyfuniawni achosion, a hwynt-hwy ydynt Eglwys Dduw. Medd Aristotle, *Ni ddichon dinas fod o blant gordderch:* eithr pa un a wna Eglwys Dduw ai gallu bod o'r gwŷr hyn ai peidio, ystyriant hwy eu hunain. Dïau nad yw yr[6] Abbadau gyfreithlon Abbadau, na'r Esgobion chwaith Esgobion naturiol.

Ond hwynt-hwy yw'r Eglwys; gadewch i hynny fod: gwrandawer hwy yn y Cynghorau, bydded gan-

[3] Condemnio.
[4] Nazian. ad Procopium.
[5] "Eu."—*Amdd.*
[6] "Eu."—*Amdd.*

ddynt hwy yn unig awdurdod wrth ddadl i wneuthur a fynnant; etto yn yr hen amser, pan oedd Eglwys Dduw yn cael ei choledd a'i llywodraethu yn dda iawn (o chystedlir hi â'u Heglwys hwy), yr oeddid, medd Cyprian, yn galw Henuriaid,[7] a Diaconiaid, a swrn o'r Cyffredin bobl hefyd, ac yn eu gwneuthur hwy yn gydnabyddus âg Achosion eglwysig.

IV. Eithr beth od yw'r Abbadau a'r Esgobion hyn heb ddim gwybodaeth ganddynt? Beth od ydynt hwy heb ddeall pa beth yw Crefydd, na pha fodd y dylem ni feddwl am Dduw? Beth o darfu pallu lleferydd a gweinidogaeth y Ddeddf yn yr Offeiriaid, a phallu cynghor hefyd yn yr Henuriaid? Beth (fel y dywedodd y Prophwyd Micah) os *nos sydd iddynt yn lle gweledigaeth? a thywyllwch yn lle prophwydoliaeth*[8]*?* Neu (fel y dywedodd y Prophwyd Esaiah) od *yw holl wylwyr y Ddinas wedi myned yn ddall*[9] *?* Beth *o diflasodd yr halen gan golli ei hallter*, ac, fel y dywedodd Crist, *na thal ef ddim, ie, na thal ef mo'i daflu i'r dommen*[1]*?*

Wele etto, hwy a fynnant ddwyn pob peth ger bron y Pab, yr hwn ni ddichon gam-gymmeryd dim. Yn gyntaf, llyma ynfydrwydd mawr yw hyn, Tybied fod yr Yspryd Glân yn ehedeg yn gyflym o'r Gymmanfa-Gynghor i Rufain. Megis, o bae Ef yn ammeu neu yn rhuso mewn dim, y gallai Efe gymmeryd cynghor gan ni wn i pa yspryd arall a fae â mwy o ddysg ganddo nag Ef. Herwydd, os felly y mae yr helynt, pa raid fuasai i gynnifer o Esgobion, drwy gymmaint o draul, a chyhyd teithiau, gynnull Cymmanfa y pryd hyn yn nhref Trent? Synwyrolach a gwell fuasai, neu ynte byrrach a chymhwysach fuasai, dwyn y cwbl ger bron y Pab, a myned yn union deg[2] i geisio atteb a chynghor gan ei ddwyfron fendigaid ef. Yn ail peth, anghyfiawnder mawr ydyw coethi ein hachos ni oddiwrth gynnifer o Esgobion ac Abbadau, a'i ddwyn o'r diwedd i gael ei dreio ger bron un gŵr[3] yn unig, yr

[7] Cypr. ad Presb. et Diac. p. 11.
[8] Mic. iii. 6.
[9] Esa. lvi. 10
[1] Matt. v. 13.
[2] Yn y fan, y munud hwnnw.
[3] Pab Rhufain.

hwn ŵr, yn enwedig, a ddarfu i ni ei gyhuddo o ddrwg-gampau erchyll, ac y mae efe etto heb atteb i'r hawl; yr hwn ŵr hefyd sydd wedi ein bwrw ni yn euog, heb farn gyfreithlon, cyn cael o honom na'n galw na'n gwrandaw.

Beth, meddwch, ai tybied mai dychymmyg yr ydym y pethau hyn? Onid dyma helynt y Cymmanfa-Gynghorau y pryd hyn? Onid ydys arfer o symmud yr holl ddadl o'r Gymmanfa-Gynghor, a'i dwyn ger bron y Pab yn unig? a megis na ddarfuasid, yn ei herwydd, ddibenu dim drwy farn a chyttundeb cynnifer o wŷr, y mae yn rhydd iddo ef yn unig ychwanegu, newid, lleihâu, di-ddimio, gosod yn gymmeradwy, rhyddhâu, a chaeth-rwymo beth bynnag a fo ewyllys ganddo ef? Ac onide, geiriau pwy ynte yw y rhai hyn? a phaham y darfu i'r Esgobion a'r Abbadau, yn hwyr o amser, orphenu y Gymmanfa-Gynghor ddiweddaf yn nhref Trent, gan ddywedyd y geiriau hyn: *Namyn bod yn rhag-gadwedig bob amser awdurdod yr Eisteddfa Apostolaidd*[4]*?* neu paham y darfu i'r Pab Paschalis ysgrifenu mor falchïaidd o hono ei hun? *Megis* (medd efe) *allu o Gymmanfa-Gynghor yn y byd roi Rheoledigaethau i Eglwys Rhufain, gan gaffael o'r Cymmanfa-Gynghorau eu grym a'u gwneuthuriad drwy awdurdod Eglwys Rhufain? ac ym mhob ordinhâd a wnelo y Cymmanfa-Gynghorau, bod yn rhag-gadwedig awdurdod Pab Rhufain*[5]*?* O mynnant hwy i'r pethau hyn sefyll mewn grym, i ba ddefnydd, ynte, yr ydys yn dyfyn Cymmanfa-Gynghorau? O'r tu arall, os yn bethau diffrwyth y maent yn cymmeryd y rhai hyn, paham, ynte, yr ydys yn eu gadael hwy yn llyfrau'r gwŷr hyn megis yn gwbl safadwy?

V. Bid felly wrth hynny: moeswch fod Pab Rhufain yn unig yn uwch na'r Cymmanfa-Gynghorau, sef yw hynny, gadewch fod un dernyn yn fwy na'r cwbl;

[4] Sef yw hynny, awdurdod y Pab ei hun.
[5] De Electione, et electi potestate, cap. Significasti.

moeswch fod o hono ef yn alluoccach ac yn ddoethach na'r holl blaid o'r eiddo. Ac, yn erbyn gwaethaf i Ierom.[6], moeswch fod awdurdod *un ddinas*[7] *yn fwy nag awdurdod yr holl fyd.* Beth ynte, os y Pab ni ŵyr oddi wrth hyn, ac na ddarllenodd ef erioed na'r Ysgrythyrau Glân, na llyfrau yr hen Dadau, na'r Cynghorau o'r eiddo ei hun chwaith? Beth os bydd efe yn dal gyda'r Ariaid, fel yr oedd y Pab Liberius[8] gynt? Neu ei fod ef â meddwl erchyll ganddo yn tybied yn frwnt annheilwng o'r bywyd a ddaw, ac o ddifarwolaeth yr eneidiau, fel yr oedd y Pab Ioan yn tybied, o fewn yr ychydig o flynyddoedd a aeth heibio? Neu, o ran gallu o hono gynnyddu ei oruchafiaeth ei hun, beth os llygru a ffals-droi a wna efe y Cynghorau eraill, fel y gwnaeth y Pab Zosimus am y Cynghor Nicea gynt, a dywedyd ddarfod i'r Tadau sanctaidd wneuthur ac ordeinio y pethau ni feddyliodd eu calonnau hwy erioed? Ac ar hyder allu o hono ef gael llawn rhwysg awdurdod, beth o chynnyg ef gam a thrawsedd i'r Ysgrythyrau Glân, megis, medd Camotensis, yr oedd Pabau Rhufain arfer o'i wneuthur yn fynych? Beth o gwrthyd ef y Ffydd Gristionogol, a myned yn Apostata[9], fel y gwnaeth llawer Pab, medd Lyranus? Etto er hyn i gyd, ai tybied y daw yr Yspryd Glân yn gyflym i daro ei ddwyfron ef, ac ennyn goleuni i'r Pab o'i anfodd, ïe, yn erbyn diolch iddo, fel na allo fo gam-gymmeryd na cham-wneuthur? Ai efe, yn y fan, fydd pen ffynnon yr uniawnder? ac a geir holl drysor doethineb a gwybodaeth ynddo ef, wedi eu rhoi i gadw megis mewn cist? Neu, os hyn nid yw ynddo, a ddichon efe, ynte, roi barn gyfiawngymhwys yn achosion o'r maint hyn? Neu, os efe ni ddichon farnu, a fyn ef, er hynny, ddwyn pob peth ger ei fron ef yn unig?

Eithr beth meddwch, os yw dadleuon y Pab, a'i Abbadau, a'i Esgobion, yn ddiragrith wedi ymddangos

[6] Ad Evagrium. [7] Rhufain.
[8] Vide Sozomen. Eccles. Hist. lib. iv. cap. 15.
[9] Gwrthgiliwr.

yn gwbl elynion i'r Efengyl, heb fynnu gweled mo'r peth a welant, gan wneuthur traws-anmharch i'r Ysgrythyrau Glân? A'u bod hwy, wrth weled a gwybod, yn llygru ac yn llwyr ddiwyno Gair Duw, gan gam-droi a dirnad i'r Pab [1], drwy annuwiol weniaith, y pethau a ddywedwyd yn ddïau, ac yn briodol iawn, am Grist ei Hun, ac ni ellir mewn modd yn y byd ddeall mo honynt am neb arall? Beth o dywedant mai'r *Pab yw pob peth yn hollol, ac uwch ben yr holl bethau?* neu *allu o hono ef wneuthur pob peth ag a allo Crist?* ac *mai'r un Farn-Eisteddfa a'r un Gynghorfa sydd i'r Pab ag i Grist?* neu *mai'r Pab yw'r goleuni hwnnw a ddeuai i'r byd,* yr hyn eiriau a lefarodd Crist[2] am dano ei Hun yn unig: ac hefyd *mai drwg-weithredwr yw pwy bynnag a gilio gan ochel y goleuni hwnnw?* neu ddarfod i'r holl Esgobion eraill dderbyn o gyflawnder y Pab[3]? Ar fyr o eiriau, beth o gwnant hwy reithiau a deddfau yn gwbl wrthwyneb i wir Air Duw, a hynny, nid yn guddiedig, eithr yn gyhoeddedig ac yn amlwg, etto ai anghenrhaid ydyw, yn y man, mai Efengyl yw beth bynnag a ddywedo'r gwŷr hyn? Ai hwy ydyw llu Duw? neu a fydd Crist yn eu plith hwy yno gerllaw? A leinw'r Ysbryd Glân yn eu tafodau hwy? neu a allant hwy ddywedyd yn ddiffug, *Yr Ysbryd Glân a ninnau a dybiasom fel hyn?*

VI. Yn wir, ni rusodd Petrus a Soto[4] a'i gydymmaith Hosius[5] ddywedyd fod Ysbryd Prophwydoliaeth, a'r Ysbryd Glân, ac Ysbryd y Gwirionedd, gan y Cynghor hwnnw, yn yr hwn y barnwyd Crist i'w farwolaeth. Ac nad yr un o'r ddau, nac anwir nac ofer chwaith, oedd y peth a ddywedodd yr Esgobion hynny, *Y mae gennym ni Gyfraith, ac wrth y Gyfraith honno Efe a ddylai farw*[6]: a darfod iddynt wrth ddy-

[1] Host. cap. Quanto. Abbas Panor. de elect. cap. Venerabilis. Cornelius Episc. in Concilio Tridentino.
[2] Ioan viii. 12.
[3] Durandus.
[4] Saes. "Asotus."
[5] Contra Brentium, lib. ii.
[6] Ioan xix. 7.

wedyd hynny farnu gwirionedd y farnedigaeth (herwydd felly medd Hosius): ac mai barn gwbl gyfiawn oedd yr hon a roisant gan lefaru fod Crist yn haeddu marwolaeth. Y mae yn rhyfedd, dybygwn i, na ddichon y gwŷr hyn ddywedyd trostynt eu hun, ac amddiffyn eu hachos, ond rhaid iddynt hefyd gymmeryd plaid gyd âg Annas a Chaiaphas[7]. Canys y rhai a ddywedant mai Cynghor cyfiawn, cyfreithlawn, ydoedd hwnnw, yn yr hwn y barnwyd Mab Duw i waradwyddus farwolaeth[8], pa Gynghor, ynte, gan hynny, a alwant hwy yn ddrwg ac yn anghyfiawn? Ac etto y cyfryw fath yw eu Cynghorau hwy gan mwyaf i gyd, na allent hwy amgen na llefaru hyn am y Cynghor hwnnw a gynhaliodd Annas a Chaiaphas. Eithr a gawn ni ddiwygiad ar yr Eglwys gan y gwŷr hyn, y rhai ydynt euog eu hunain, a Barnwyr hefyd? Ai tybied y lleihânt hwy ddim ar eu balchder a'u chwant i ddwyn rhwysg? a fwriant hwy eu hachos i lawr, neu a farnant hwy yn eu herbyn eu hun mai rhaid iddynt beidio a bod yn Esgobion annysgedig, peidio a bod yn foliau musgrell, peidio a phentyrru Offeiriadaethau, peidio ag ymddwyn eu hunain fel Tywysogion, a pheidio hefyd a rhyfela? Ac am yr Abbadau, y rhai ydynt anwylyd-feibion y Pab, ai tybied y barnant hwy mai carn lleidr yw y Mynach nid ennillo ei fywyd ei hun? neu nad rhydd adael i'r cyfryw ddyn fyw, nac mewn tref, nac yn y wlad, nac ar gynhaliaeth eraill? neu mai dyledus i Fynach orwedd ar y ddaear, a byw yn galed ar lysiau a phys, myfyrio yn ddyfal, dadleu duwioldeb, gweddïo, gweithio â'i ddwylaw, a pharottoi ei hun i weinidogaeth yr Eglwys? Yn wir, yr un agwedd fyddai disgwyl gan y Phariseaid a'r Ysgrifenyddion adnewyddu Teml Dduw, a'i dad-roddi i ni yn Dŷ gweddi, o ogof lladron.

VII. Fe fu rhai o honynt eu hun a feiasant ar lawer o amryfusedd yn yr Eglwys, nid amgen na'r Pab

[7] "Yn erbyn Crist."—Cyf. *Amdd.* [8] "Ar y Groes." Lat.

Adrian, Æneas Sylvius, y Cardinal Pool, Pighius, ac eraill, fel y mynegasom ni o'r blaen. Hwy a gynnaliasant Gynghor wedi hynny yn nhref Trent, lle yr ydys wedi dyfyn Cymmanfa-Gynghor y pryd hyn. Yna y daeth ynghyd lawer o Esgobion ac Abbadau, a rhai eraill rheidiol. Yno yr oeddynt hwy wrthynt eu hunain; beth bynnag a wnelent, nid oedd neb i ddywedyd gair yn eu herbyn, oblegid fe ddarfuasai iddynt gau allan a gwahardd o'u Cymmanfa y sawl oedd o'n plaid ni. Yno yr eisteddasant hwy ynghyd chwe blynedd, a llawer o ddisgwyl oedd arnynt. Yn y chwe mis cyntaf hwy a ordeiniasant lawer o bethau, yn rhith angenrheidiol, ynghylch y Gyssegr-lân Drindod, y Tad, y Mab, a'r Yspryd Glân, a'r ordeiniadau hynny oeddynt dduwiol yn sicr, ond nid oedd cyn rheitied wrthynt yr amser hwnnw. Eithr, yn y cyfamser, o gymmaint amryfusedd goleu di-ymgudd, yr hyn a ddarfuasai iddynt ei gyfaddef mor fynych; moeswch weled pa un pwngc a fu gwiw ganddynt ei ddiwygu? Oddi wrth pa un fath ar addoliaeth eilunod y dychwelasant hwy y bobl? Pa un pwngc o Gamgrediniaeth a ddileuasant hwy? Pa un darn o'u trawsedd a'u balch-wychder a leihasant? Rhag na bae[9] y byd bellach yn gweled mai Cyd-fwriadaeth ac nid Cynghor yw'r Gymmanfa hon, a bod yr Esgobion a ddarfu i'r Pab alw ynghyd y pryd hyn wedi rhoi mawr-llw ffyddlondeb ac ufudd wasanaeth iddo, ac na wnelont hwy byth ddim ond a fo'n rhyngu bodd iddo ef, a chynnyddiad i'w awdurdod, fel y mynnai efe ei hun: neu nad ydyw fwy ganddynt am rif y sawl sy'n dywedyd gyd â hwy, nag am y peth a ddywedo'r sawl hynny: neu nad oes ond y trechaf treisied, a'r gwànaf gwaedded. Ac am hynny, ni a wyddom ddarfod i lawer o wŷr da, ac Esgobion Catholig, aros gartref, a pheidio a dyfod i'r cyfryw Gymmanfäau lle byddai'r fath amlwg ddilyn pleidiau, a gwasanaethu turnau; oblegid diammeu oedd ganddynt na byddai iddynt

[9] Mal na bae.

onid colli eu poen heb wneuthur lles yn y byd, gan weled a gwybod fod wynebau a meddyliau eu dygasogion mor hollol i'w herbyn. Pan ddyfynwyd Athanasius yn enw'r Amherawdwr i ddyfod i'r Gymmanfa-Gynghor yn Cesarea, efe a nacäodd ddyfod, er mwyn gwybod o hono yn hyspys, od âi ef yno, y gorfyddai iddo fod ym mysg ei elynion llidiog [1]. Yr un Athanasius hefyd, pan ddaeth ef i'r Cynghor yn Syrmium, a gweled o hono ym mlaen-llaw wrthgas a dygasedd ei elynion, pa helynt a gaed yno, a barodd gludo ei ddodrefn, ac aeth ymaith yn gyflym. Er i'r Amherawdwr Constantius [2], mewn pedwar llythyr, orchymyn i Ioan Chrysostom [3] ddyfod i Gymmanfa-Gynghor yr Ariaid, etto efe a drigodd gartref ac a beidiodd a dyfod. Pan oedd Macsen, Esgob Caersalem, yn eistedd yn y Cynghor Palestinum, yr Henuriad Paphnutius a'i cymmerodd ef gerfydd ei law, ac a'i harweiniodd allan, gan ddywedyd fel hyn, *Nid rhydd i ni gyd-ddadleu â gwŷr annuwiol y pethau hyn.*

Hefyd ni ddeuai Esgobion y Dwyrain ddim i'r Cynghor yn Syrmium, wedi clywed o honynt unwaith ddarfod i Athanasius fyned ymaith oddi yno. Cyril a ysgrifenodd lythyrau, i nol rhai drachefn oddi wrth Gymmanfa-Gynghor, y rhai a elwid Patropassiani. Paulinus, Esgob Treverensis, a llawer eraill, a wrthodasant ddyfod i'r Gymmanfa-Gynghor yn Milan, pan wybuont hwy pa drin a llywodraeth yr oedd Auxentius yn ei gynnal yno [4]. Herwydd hwy a welsant mai ofer oedd iddynt fyned i'r man lle yr oedd trechach cydbleidio na chyd-resymu; a lle yr oedd dadl ac ymryson nid am uniawn farn yr achos, eithr pwy oedd fwyaf ei blaid a'i gymmeriad.

Ac er bod iddynt y cyfryw elynion yn llawn câs a chyndynrwydd, etto, o'r hyn lleiaf, hwy a allasent gael rhyddid i adrodd eu meddyliau yn y Gymmanfa-Gynghor.

[1] Theodoret. Eccl. Hist. lib. i. cap. 28.
[2] Arcadius.
[3] Tripar. lib. x. cap. 13. [4] Tripar. lib. v. cap. 15.

VIII. Ond yr awrhon, gan na chaiff neb o honom ni nac eistedd, nac ymddangos unwaith yn eu Heisteddfäau[5] hwy, na gallu chwaith cael ei wrandaw yn hynaws: a chan fod cenhadau y Pab, y Patrieirch, yr Arch-Esgobion, yr Esgobion, a'r Abbadau, (i gyd wedi cyd-fwriadu, i gyd yn yr unrhyw affaith, i gyd wedi tyngu yr un llw), yn eistedd mewn Cynghor wrthynt eu hunain, ac awdurdod ganddynt eu hunain i lunio yr ordinhâd a fynnont; ac etto, yn y diwedd, wedi darfod iddynt wneuthur goreu ag allont, gorfod o honynt, megis na wnaethent ddim, ddwyn a darostwng eu holl farnau i ewyllys y Pab i'w rheoli wrth ei chwant ef ei hun, fel y gallo fe o hono ei hun lefaru ei farn ef (yr hwn a ddylai yn rhagorach wneuthur atteb i'r achwyn sydd arno): a hefyd, gan ddarfod dwyn ymaith o'r Gymmanfa-Gynghor yr hen ryddid Cristionogol a fae gymmesur ei bod, yn enwedig ym mhob Cynghor Cristionogaidd: er mwyn yr holl achosion hyn, meddaf, ni ddylai gwŷr doethion duwiol mo'r rhyfeddu wneuthur o honom ni y pryd hwn yn yr un modd ag y gwelant ddarfod i gynnifer o Dadau ac Esgobion Catholig wneuthur gynt yn y cyffelyb achos; sef, fod yn well gennym aros gartref, a rhoi y cwbl ar Dduw, chwaithach na chymmeryd hir-daith arnom i fyned yno i'w Cymmanfa hwy, lle ni chynnwysir mo honom, a lle ni thyccia dim a'r a wnelom; a hefyd, lle ni allwn ni gael mo'n gwrandaw chwaith, lle nid ydys yn gwneuthur ond gwatwarwch am ben cenadwri Tywysogion, a lle yr ydys wedi ein condemnio ni cyn treio ein hachos, megis darfod ym mlaen-llaw wneuthur pen a threfn ar bob peth.

Am danom ein hun, nyni allwn ddioddef yn llariaidd ac yn llonydd y cam yr ydys yn ei wneuthur â ni: eithr paham y maent yn gwahardd Brenhinoedd Cristionogol a Thywysogion duwiol o'u Cymmanfa? paham y maent mor afrywiog, neu ynte o wir gâs, yn eu gadael hwy allan, heb fynnu iddynt gael gwybod-

[5] Seneddau.

aeth yn y byd am achos y Grefydd Gristionogol, na deall cyflwr eu Heglwysi; megis nad Cristionogion mo honynt, neu na wyddant ddim oddi wrth y fath beth? neu, o digwydd i'r Brenhinoedd a'r Tywysogion hynny ddangos eu hawdurdod gan wneuthur y pethau a allant, y pethau a orchymynodd Duw iddynt, y pethau a ddylent, a'r pethau a wyddom ni a wnai y Brenhin Dafydd, y Brenhin Solomon, a'r holl Dywysogion da gynt: sef yw hynny, os hwy (tra fo'r Pab a'i Brelatiaid y naill ai yn cysgu mewn diogi, neu ynte yn gwrthladd pob daioni) a fustachant[6] drythyllwch yr Offeiriaid, gan eu gyrru hwy i'w gwaith, a'u cadw yn eu dyledus swydd: neu, os y Brenhinoedd a'r Tywysogion a fwriant i lawr eilunod a delwau, neu a droant heibio Au-grediniaeth, gan osod drachefn mewn braint, ac adnewyddu gwir Grefydd a Gwasanaeth Duw, yna paham y mae arfer y Pab a'i blaid o waeddi yn groch arnynt, a dywedyd eu bod hwy yn bwrw pob peth yn bendra-mwnwgl, drwy ymwthio i fewn swyddau gwŷr eraill, a'u bod hwy yn gwneuthur llwyr warth a gwaradwydd? Pa ddarn o'r Ysgrythyr Lân sy'n gwahardd Tywysog Cristionogol o gael hyspysrwydd yn y cyfryw achosion? Pwy onid hwy eu hun erioed a wnaeth y fath Gyfreithiau?

Hwy a ddywedant, ysgatfydd, ddarfod i Dywysogion a Phennaduriaid lleyg ddysgu pa fodd y triniant Lywodraethau cyffredin a Rhyfel, eithr nad ydynt hwy yn deall Dirgeledigaethau Crefydd. Os gwir hynny, beth amgenach na Brenhin a Thywysog ydyw y Pab y pryd hyn? Beth ydyw y Cardinaliaid, y rhai ni allant fod amgenach na meibion Brenhinoedd a Thywysogion? Beth amgen yw'r Patrieirch, a'r Arch-Esgobion fynychaf, a'r Esgobion, a'r Abbadau? Beth ydynt hwy i gyd ym Mrenhiniaeth y Pab y pryd hyn onid Tywysogion bydol, onid Duciaid, onid Ieirll, a Chynnulleidfa o wŷr gwychion ar eu hol, i ba le bynnag yr elont, mewn cadwyni a cholerau aur y rhan

[6] Attal, rhwystro.

fynychaf? Weithiau fe fydd ganddynt fath ar drwsiadau godidog, croesau, colofnau, hetiau, mitrau, pallau[7], yr hyn wychder ni bu erioed gan yr hen Esgobion, Chrysostom, Awstin, ac Ambros. Ond aed hyn i gyd heibio, beth y maent hwy yn ei ddysgu? beth y maent hwy yn ei ddywedyd? pa beth y maent hwy yn ei wneuthur? pa fodd y maent yn byw, fel y bae weddaidd nid yn unig i Esgob, eithr i ddyn Cristion? Ydyw gymmaint gorchest wrth hynny i ŵr ddwyn *style*[8] ofer, a chael, ond newid dillad, yn y fan ei alw yn Esgob?

IX. Yn wir, os rhoi y cwbl a wneid dan eu rhôl a'u llywodraeth hwy yn unig, y rhai ni wyddant, ac ni fynnant wybod ddim oddi wrth y pethau hyn, ac nid ydynt yn gwneuthur gwerth hatling o bris ar un pwngc o Grefydd, oddi eithr am a berthyno i'w boliau, ac i ymgyfeddach; a hefyd os hwy yn unig a wneid yn farnwyr, ac fel gwŷr deillion a osodid i wylied ar ben tŵr: o'r tu arall, o gorfyddai i Dywysog Cristionogol cyfiawn-gall sefyll fel cyff neu bawl, ac na bae rydd iddo mewn Cymmanfa-Gynghor adrodd na'i farn na'i feddwl, eithr yn unig (fel un a fae allan o'i bum synwyr) disgwyl beth a fynnent ac a barent hwy, a derbyn yn gymmeradwy eu Gosodedigaethau hwy (dan gyflawni drwy ddallineb beth bynnag a archent, er maint cabledigaeth ac annuwioldeb fyddai; ïe, pettaent yn erchi iddo lwyr ddistrywio'r holl Grefydd, ac eilwaith groeshoelio Crist ei Hun), e fyddai hynny y fath drawsedd, a dirmyg, a balchder, ac anrhaith, na ddylai Tywysogion pwyllus Cristionogol, na'i gydddwyn na chyd-oddef mo hono. Paham, attolwg, a ddichon Annas a Chaiaphas ddeall rhôl a llywodraeth, ac ni ddichon y Brenhin Dafydd a'r Brenhin Hezeciah? Ai rhydd i Gardinal a fo Rhyfelwr ac yn llawn chwant gwaed eistedd mewn Cymmanfa-Gynghor, ac nid ydyw rydd i Amherawdwr neu i Frenhin Cristionogol? Dïau nad ydym ni yn rhoi mwy rhyddid ac awdurdod

[7] Simwrau, mantelli. [8] Titl.

i'n Pennaethiaid, nag a wyddom fod wedi ei ganiattâu iddynt yn yr Ysgrythyr Lân, a hefyd wedi ei gadarnhâu iddynt drwy siamplau ac arfer y Llywodraethau cyffredin goreu. Herwydd heblaw rhoddi o Dduw bob un o ddwy lech y Gorchymynion dan ddwylaw pob Tywysog ffyddlon, megis y gallai efe ddeall fod yn perthynu i'w swydd ef, nid yn unig achosion lleyg, eithr hefyd pethau cyssegr, eglwysig: heblaw hefyd fod Duw yn fynych drwy ei Brophwydi [9] yn erchi y Brenhin, yn anad dim, dorri y llwyni, bwrw i lawr a dryllio delwau aç allorau yr eilunod, ac ysgrifenu llyfr y Ddeddf iddo ei hun; a heblaw dywedyd o'r Prophwyd Esaiah, mai rhaid i'r Brenhin fod yn amddiffynwr ac yn dad-maeth i'r Eglwys [1]: heblaw hyn i gyd, meddaf fi, ni a welwn wrth ddarllen ystorïau a siamplau yr amseroedd goreu, ddarfod i bob Tywysog duwiol erioed wneuthur cyfrif fod Gweinidogaeth yr Eglwysi yn berthynasol i'w swydd ef.

X. Moses, yr hwn ydoedd Genhadwr lleyg, a Thywyswr y bobl, a dderbyniodd gan Dduw, ac a ddododd i'r bobl, yr holl drefn am Grefydd ac Aberthau; ac a roddodd gerydd hagr-dost i'r Esgob Aaron am wneuthur y Llo euraid, ac am oddef llygru Crefydd Duw [2]. Iosuah hefyd, er nad ydoedd ef ddim amgen na Phennaeth lleyg, etto hwn cyn gynted ag y darfuasai i Dduw ei ddewis ef [3], a'i osod yn Llywodraethwr ar y bobl, efe a gafodd orchymynion yn enwedig yng nghylch Crefydd a Gwasanaeth Duw [4].

Ar ol darfod i Frenhin Saul annuwiol wneuthur llwyr ddifrod ar yr holl Grefydd, y Brenhin Dafydd a ddygodd Arch Duw adref drachefn; sef yw hynny, efe a ail gyfododd i fynu fraint Crefydd; a heblaw fod o hono ei hun yn rhoi cynghor a chynnorthwy i hynny o waith, efe a wnaeth hefyd ac a ordeiniodd Psalmau ac Odlau i'w canu; efe a osododd y teuluoedd

[9] Nid yw "drwy ei Brophwydi" yn y Llad.
[1] Esa. xlix. 23.
[2] Exod. xxxii.
[3] Lat. "inaugurareture."
[4] Ios. i.

mewn trefn, efe ei hun a luniodd yr holl wychder, ac ydoedd, yn ei herwydd, yn ben Golygwr ar yr Offeiriaid[5].

Y Brenhin Solomon a adeiladodd i'r Arglwydd y Deml a amcanasai ei dad Dafydd ei hadail: a chwedi gorphen y Deml, efe a draethodd ymadrodd godidog ger bron y bobl ynghylch gwir Grefydd a Gwasanaeth Duw[6]: wedi hynny efe a symmudodd ymaith yr Offeiriad[7] Abiathar, ac a osododd Sadoc yn ei le ef[8]. Ar ol hyn, wedi darfod halogi y Deml yn warthus ac yn waradwyddus drwy ddiffeithwch ac esgeulusdra yr Offeiriaid, yna y Brenhin Hezeciah a orchymynodd ei glanhâu eilwaith, a dwyn allan o honi yr holl sothach a'r bryntni, gan beri i'r Offeiriaid[9] oleuo canhwyllau, llosgi arogl-darth, a thrin y cyssegr Wasanaeth yn ol yr hen ddefod: hefyd, e barodd y Brenhin hwnnw dynnu i lawr a malurio y Sarph bres, i'r hon yr oedd y bobl yn gwneuthur addoliaeth annuwiol[1]. Y Brenhin Iehosaphat a dynnodd i lawr ac a dorrodd yr uchelfeydd a'r llwyni, drwy yr hyn y canfu ef rwystro Gwasanaeth Duw, a dal y bobl drach eu cefnau mewn cam-grediniaeth neillduol oddi wrth y Deml gyffredin yr hon oedd yng Nghaersalem; i'r hwn le yr oedd yn ddyledus arnynt dramwyo bob blwyddyn o bob man o'r Deyrnas[2]. Y Brenhin Iosiah, drwy ddyfal astudrwydd, a ddygodd ar gof i'r Offeiriaid a'r Esgobion eu dyledus swydd[3]. Y Brenhin Ioas a wrthladdodd drythyllwch a goruch-falchder yr Offeiriaid bwytteig[4]. Y Brenhin Iehu a ddienyddiodd y Prophwydi annuwiol[5]. Ac o wneuthur pen ar ddwyn siamplau o'r Ysgrythyrau Glân, nyni a ystyriwn pa wedd, er pan anwyd Crist, y cafodd yr Eglwys ei llywodraethu yn amser yr Efengyl. Yr Amherodrau Cristionogol a ddyfynent

[5] 1 Chron. xiii.
[6] 2 Chron. vi.
[7] Lat. "episcopum."
[8] 1 Bren. ii. 35.
[9] Nid yw "Offeiriaid" yn Llad.
[1] 2 Chron. xxix.
[2] 2 Chron. xvii. 6.
[3] 2 Bren. xviii. 4. 2 Chron. xxxv. 2.
[4] 2 Bren. xii.
[5] 2 Bren. x.

Gymmanfa-Gynghorau o'r Esgobion gynt. Cystennyn a ddyfynodd Gymmanfa-Gynghor yn Nicea: Theodotius y Cyntaf a alwodd y Gymmanfa-Gynghor yn Nghaer Cystennyn: Theodotius yr Ail a ddyfynodd y Gymmanfa-Gynghor yn Ephesus: Martian a alwodd y Gymmanfa-Gynghor yn Calcedonia. A phan adroddodd Ruffinus, yr Heretic, Senedd neu Gymmanfa-Gynghor, yr hon, dybiasai efe, ydoedd yn pwyso ar ei du ef, yna y dywedai Ierom i'w wrthwynebu ef fel hyn, *Mynega* (eb efe) *pa Amherawdwr a orchymynodd alw neu ddyfyn y Gymmanfa-Gynghor honno?* Yr un Ierom, yn Marwnad Paula, sydd yn crybwyll am lythyrau yr Amherodrau y rhai oeddynt yn gorchymyn dyfyn Esgobion Groeg a'r Ital i Gymmanfa-Gynghor [6] yn Rhufain.

XI. Yn wastad, yngod [7] pum can mlynedd, yr Amherawdwr yn unig oedd yn peri galw a dyfyn Cymmanfäau eglwysig, ac yn hynodi Cynghorau Esgobion.

Am hyn y mae yn rhyfeddach gennym fod Pab Rhufain mor anrhesymol, yr hwn gan wybod o hono beth oedd awdurdod yr Amherawdwr tra yr oedd yr Amherodraeth yn gwbl gyfan, a bod hynny bellach yn gyfiawnder cyffredinol pob Tywysog (yn gymmaint a bod Brenhinoedd y pryd hyn yn meddiannu amryw fröydd yr holl Amherodraeth), etto, fynnu o hono ef mor fyrbwyllus gyfroddi y swydd honno iddo ei hunan: a hefyd ei fod ef yn tybied mai wrth ddyfyn Cymmanfa-Gynghor, nad rhaid iddo roi hyspysrwydd amgenach o hynny i'r gŵr sy ben Tywysog [8] o'r holl fyd, nag a roi efe i'w was ei hun [9]. Ac er bod lledneisrwydd a llarieiddrwydd yr Amherawdwr Ferdinando gymmaint ag iddo allu goddef hyn o gam, oblegid nad yw efe yn deall yn iawn mo ddichellion y Pab, etto ni ddylai y Pab o'i sancteiddrwydd gynnyg mo'r fath gam, na

[6] Nid yw "i Gymmanfa-Gynghor" yn y Lladin.
[7] Yngod, yn agos.
[8] Yr Amherawdwr.
[9] Ut Pius IV. in bulla sua ad Imp. Eerdinandi.

chwaith gymmeryd iddo ei hun swydd a chyfiawnder gŵr arall.

XII. Eithr rhyw un a ettyb, ysgatfydd, ddarfod i'r Amherawdwr ddyfyn Cymmanfäau a Chynghorau y pryd hynny, er mwyn nad ydoedd Esgob Rhufain etto wedi tyfu i'r maint y mae efe yr awrhon; ac etto, nid anllai, nad ydoedd yr Amherawdwr yn arfer yr amser hwnnw o eistedd gyd â'r Esgobion yn y Cymmanfa-Gynghorau, na chwaith o ddwyn na rhwysg nac awdurdod yn eu plith hwy. Ond nid gwir mo hynny: herwydd, medd Theodoret[1], heblaw eistedd o'r Amherawdwr Cystennyn ei hun gyd â'r Esgobion yn y Gymmanfa-Gynghor a gynhaliwyd yn Nicea, efe a ddangosodd iddynt y ffordd oreu i ddeall yr achos wrth Ysgrifeniadau yr Apostolion a'r Prophwydi. *Wrth ddadleu* (eb efe) *am Dduwiolaeth, neu Ddifiniti*[2], *y mae gennym wedi ei osod o'n blaen i'w ddilyn Athrawiaeth yr Yspryd Glân. Canys Llyfrau yr Efengylwyr a'r Apostolion, ac Areithiau y Prophwydi, a'n cwbl hyfforddant ni, beth a ddylem ni dybied am ewyllys Duw.* Y mae Socrates[3] yn tystiolaethu eistedd o'r Amherawdwr Theodosius[4] ymhlith yr Esgobion; a mwy na hynny, fod o hono ef yn ben Rheolwr ar y ddadl, ac mai efe ei hun a ddrylliodd Lyfrau yr Hereticiaid, ac a osododd yn gymmeradwy goel a barn y Catholiciaid.

Yn y Gymmanfa-Gynghor yn Calcedonia, Pennadur o ŵr lleyg a farnodd â'i enau ei hun yn Hereticiaid yr Esgobion Dioscorus, Iuvenal, a Thalasius, ac a wnaeth ordinhâd i'w bwrw hwy allan o'u gradd yn yr Eglwys[5].

Yn y drydedd Gymmanfa-Gynghor yng Nghaer Cystennyn yr eisteddodd Cystennyn, yr hwn ydoedd Bennadur lleyg, ymhlith yr Esgobion; ac heblaw hynny, efe a ysgrifenodd ei enw gyd â hwy: *Canys*

[1] Hist. Eccl. lib. i. cap. 7. Vide Euseb. de vita Const. lib. iii. cap. 10. 12, 13. edit. Vales.
[2] Divinity. [3] Socrates, lib. v. cap. 10. [4] Tewdws.
[5] Vide Evagr. Eccles. Hist. lib. ii. cap. 4. actione 1.

(eb efe) *e ddarfu i ni ddarllen ac ysgrifenu ein henwau.* Yn yr ail Gymmanfa-Gynghor a elwir Arausicanum, y gwŷr anrhydeddus, y rhai oeddynt Genhadau yno oddi wrth Dywysogion, a wnaethant bob un o'r ddau, sef, adrodd eu meddwl ynghylch pyngciau Crefydd, a hefyd ysgrifenu eu henwau gyd â'r Esgobion. Herwydd dyma fel y mae yn ysgrifenedig yn niwedd y Gymmanfa-Gynghor honno: *Y gwŷr ardderchoccaf Petrus, Marcellinus, Felix, a Liberius, anrhydeddus Rag-Bennaethiaid Ffraingc, o brif waedogaeth y Deyrnas, gan gydsynio a ysgrifenasant eu henwau.* A hefyd, *y gwŷr enwoccaf Syagrius, Opilio, Pantagathus, Deodatus, Cariatho, a Marcellus, a ysgrifenasant eu henwau hwythau.*

Gan fod hyn, ynte, gan allu o'r Rhag-Bennaethiaid a'r gwŷr mwyaf eu gwaedogaeth gyd-ysgrifenu yn y Gymmanfa-Gynghor, oni allai Amherodrau a Brenhinoedd wneuthur y cyfryw? Yn wir, ni buasai raid i ni wneuthur cyhyd ymadrodd mewn achos mor eglur, oni bae fod i ni a wnelom â'r fath wŷr ydynt arfer (er mwyn gwrhydri) o wadu pob peth er eglured fyddo; ïe, y pethau y maent yn eu canfod ger eu bronau, ac yn eu gweled â'u llygaid eu hunain. Yr Amherawdwr Iustinian a wnaeth gyfraith i ddiwygu buchedd, ac i drwyn-ffrwyno balchder y Gwŷr Eglwysig a'r Offeiriaid. Ac er bod yr Amherawdwr hwnnw yn Dywysog Cristionogol Catholig, etto efe a fwriodd ddau Bab, Sylverius a Vigilius, allan o'r Pabaeth; a hynny, nid anllai, er bod o honynt yn Ficeriaid Crist, ac yn cynnal swydd Petr Apostol.

XIII. Gadewch i ni ystyried bellach a thalfyrru hyn o ymadrodd: y gwŷr sydd âg awdurdod ganddynt ar yr Esgobion, y rhai a dderbyniasant orchymynion oddi wrth Dduw ynghylch gwir Grefydd, y rhai sydd yn dwyn Arch Duw adref drachefn, yn gwneuthur Psalmau sanctaidd, yn Olygwyr ar yr Offeiriaid, yn adeiladu Temlau, yn traethu ymadroddion o Wasanaeth Duw, yn ail-lanhâu'r Temlau, yn bwrw i lawr uchelfeydd, yn llosgi llwyni yr eilunod, yn dysgu yr

Offeiriaid eu swyddau, ac yn ysgrifenu rheoledigaethau iddynt i arwain eu buchedd, yn lladd y Prophwydi annuwiol, yn symmud yr Esgobion o'u lleoedd, yn galw Cymmanfa-Gynghorau Esgobion, yn eistedd gyd â'r Esgobion ac yn eu hyfforddi hwy, yn barnu Esgob Heretic i'w gospedigaeth, yn mynnu eu gwneuthur yn gydnabyddus âg achosion Crefydd, a'r rhai, dan ysgrifenu eu henwau ac adrodd eu meddyliau mewn Seneddau, ydynt yn cwblhâu hyn i gyd, nid drwy archiad ac awdurdod arall, eithr yn eu henw eu hunain; A ddywedwn ni am y rhai hyn, nad yw yn perthynu iddynt ymyrryd âg achosion Crefydd? neu am y Pennaeth o ŵr lleyg, a fo iddo a wnelo â'r pethau hyn, a ddywedwn ni ei fod ef yn gwneuthur yn ddrwg, neu yn rhyfygus, neu yn echryslawn? Yr Amherodrau a'r Brenhinoedd Cristioneiddiaf a mwyaf eu Henafiaeth, a ymfrysurent gynt yn yr achosion hyn; ac etto ni ddywedwyd erioed arnynt, o ran hynny, na'u bod yn echryslawn nac yn rhyfygus chwaith. A phwy a gais ymofyn am Dywysogion Catholiccach, neu am siamplau ardderchoccach?

XIV. Gan hynny, os rhydd oedd iddynt hwy wneuthur hyn, y rhai nid oeddynt amgenach na Phennaethiaid o wŷr lleyg yn llywodraethu Teyrnasoedd, pa fai a wnaeth ein Tywysogion ni yr amser yma, nad rhydd iddynt hwythau wneuthur y cyfryw, gan fod o honynt yn y cyfryw radd? Neu pa nerth gorchestol o ddysg, a barn, a sancteiddrwydd sydd yn ein gwrthwynebwyr ni, pryd na fynnant i Dywysogion Cristionogol gael gwybodaeth o'r achos, eithr eu gwahardd o'u Seneddau: a hynny yn hollol yn erbyn defod yr hen Esgobion Catholig, y rhai oeddynt arfer, ynghylch Crefydd, o gyd-ymgynghori â Thywysogion ac â Phennaethiaid? Wele, y mae yn abl eu helynt hwy, drwy hyn o fasgnach, geisio sicrhâu eu braint a'u Brenhiniaeth; yr hyn a welant a ddiflannai yn fuan oni bae hynny. Herwydd pettai y rhai a osododd Duw yn y radd uchaf, yn gweled ac yn gwybod dichellion y gwŷr hyn, pa fodd y maent yn dirmygu

gorchymynion Crist, yn tywyllu ac yn diffoddi goleu yr Efengyl; a pha fodd drwy gyfrwysdra y maent hwy yn eu twyllo hwy eu hunain, ac yn eu siomi heb wybod iddynt, dan gwbl afrwyddo a dyrysu y ffordd i deyrnas Nef o'u blaen hwy; ni byddai byth cyn hawsed ganddynt oddef na'u dirmygu mor drahaus, na'u gwatwar mor waradwyddus gan y rhai hyn. Ond yr awrhon drwy eu diwybodaeth a'u dallineb eu hunain, y mae y gwŷr hyn wedi eu hieuo hwynt, a chwedi cael methel arnynt.

XV. Nyni, fel y dywedasom o'r blaen, dan newid Crefydd, ni ddarfu i ni wneuthur dim ar fyrbwyll, nac o falchder; na dim chwaith namyn drwy hir hamdden a phwyllineb. Yr hyn beth hefyd ni feddyliasai ein calonnau ni byth mo'i wneuthur, oni buasai o angenrhaid ymufuddhâu i wir ewyllys Duw sydd hynodedig i ni yn yr Ysgrythyrau Glân, a bod yn gorfod arnom hyn o ran achub ein heneidiau. Herwydd er darfod i ni ymadael â'r Eglwys honno, yr hon y maent hwy yn ei galw yn Gatholig, a'u bod hwy o ran hynny yn peri i ni gâs a chenfigen gan y rhai ni wyddant farnu yn iawn; etto digon gennym ni, a digon a ddylai hyn fod gan bod dyn call duwiol a fo'n meddwl am fywyd tragywyddol, ddarfod i ni ymadael â'r Eglwys honno yr hon a allai gwympo mewn amryfusedd, a'r hon y dywedodd Crist am dani (yr Hwn ni ddichon amryfuso) y cwympai hi mewn amryfusedd; a'r hon a welwn ni yn amlwg â'n llygaid ddarfod iddi gwympo a chilio oddi wrth y [6] Tadau sanctaidd, oddi wrth yr Apostolion, oddi wrth Grist ei Hun, ac oddi wrth y Brif-Eglwys Gatholig. Ac ni a ddaethom yn nesaf ag a allasom at Eglwys yr Apostolion, a'r hen Esgobion, a'r Tadau Catholig; yr hon Eglwys nyni a wyddom barhâu o honi hyd yn hyn yn bur ac yn berffaith, ac yn forwyn wyryf ddiwair (fel y dywedodd Tertulian) heb na llwgr delw-addoliaeth, na bai gwarthus yn y byd arni. Ac e ddarfu i ni uniawni, nid ein Hathraw-

[6] "Yr hen."—*Amdd.*

iaeth yn unig, eithr y Sacramentau hefyd, a gwedd ein Gweddïau cyffredin, yn ol iawn ddefodau ac arferau y rhai sanctaidd uchod. Ac fel y gwyddom ni wneuthur o Grist ei Hun, a'r holl rai duwiol, ni a ddygasom drachefn i'r dechreuad a'r drefn gyntaf y Grefydd yr hon a ddarfuasai i'r gwŷr hyn fod yn ddi-ddarbodus am dani, a'i difwyno yn anrhaith-oddef. Oblegid ni a dybiasom mai cymmesur oedd ceisio diwygiad Crefydd o'r man hwnnw lle y gosodesid gwraidd a gwadnau Crefydd gyntaf o'r cwbl: herwydd, fel y dywedodd yr hynaf Dad Tertulian, *Mawr yw grym a nerth y rheswm yma yn erbyn pob Heresi; sef, beth bynnag ydoedd o'r dechreuad, hwnnw yw y Gwir; a pheth bynnag a ddaeth gwedi hynny, sydd anwir.* Mynych iawn y cyrchai Irenæus at yr hen Eglwysi oeddynt nesaf i amser Crist, a'r rhai yr ydoedd yn anhawdd coelio allu bod mo'r amryfusedd ynddynt. Paham nad ydys yn cymmeryd y ffordd honno y pryd hyn? Paham na baem ni yn dychwelyd at gyffelybiaeth yr hen Eglwys gynt? Paham na allwn ni gael clywed dywedyd yr amser sydd o honi yr awrhon, yn y peth a ddywedodd cynnifer o Esgobion a Thadau Catholig gynt, heb neb i'w gwrthwynebu yn y Gymmanfa-Gynghor yn Nicea; nid amgen, ἔθη ἀρχαῖα κρατείτω: sef yw hynny, *Cedwch yn wastadol yr hen Ddeddfodau?* Pan oedd Esdras ar fedr ail-adeiladu dinystriad Teml Dduw, ni cheisiodd ef mo'r danfon i Ephesus, er bod yno Deml Diana o'r adail gwychaf a'r gwaith cywreiniaf ag allai fod: a phan aeth ef ynghylch adnewyddu Aberthau a gweddus Seremonïau Duw, ni ddanfonodd ef ddim i Rufain, pe rhown, ysgatfydd, a chlywed o hono ef fod yno yr Aberthau a elwid Hecatombæ, ac eraill a enwid Solitaurilia a Lectisternia, a bod yno hefyd Ymbil-Weddïau a Llyfrau seremonïol Numa Pompilius. Efe a dybiodd mai digon cymhwys oedd iddo ef roi ger ei fron a chanlyn cyffelybiaeth yr hen Deml, yr hon a adeiladasai Solomon o'r dechreuad yn y modd y darfuasai i Dduw lunio; a hefyd yr hen Ddeddfodau a'r Sere-

moniau a ysgrifenasai Duw ei Hun yn anad peth i Moses. Ar ol darfod i Esdras ail-adeiladu y Deml, ac y gallai y bobl dybied fod iddynt achos digon cyfiawn i ymlawenychu o'u rhan eu hun, am gael o honynt gymmaint daioni gan y Goruchaf Dduw; nid anllai y Prophwyd Haggai a wnaeth iddynt i gyd wylo y dagrau hidl, oblegid y sawl oeddynt etto yn fyw ac a welsent yr adail cyntaf o'r Deml, cyn darfod i'r Babiloniaid ei dinystrio, a gofiasant fod etto wall lawer o hyfryd-degwch rhagor ag a fuasai o'r blaen ynddi gynt. Yna, wele, y tybiasent hwy adnewyddu y Deml yn berffaith, pe buasai hi yn gyfattebol i hen gyffelybiaeth ac ardderchogrwydd yr hen Deml.

XVI. St. Paul, o ran diwygu Swpper yr Arglwydd, yr hwn a ddarfuasai i'r Corinthiaid ddechreu ei lygru y pryd hynny, a ddododd o'u blaen hwy ordinhâd Crist fel y gallent ei ddilyn, gan ddywedyd, *Mi a roddais i chwi y peth a dderbyniais i o'r blaen gan yr Arglwydd*[7]. A Christ, gan wrthwynebu amryfusedd y Phariseaid, *Rhaid* (eb Efe) *yw dychwelyd at y dechreuad: nid felly yr oedd o'r dechreuad.*

A phan oedd Efe yn argyhoeddi aflendid buchedd yr Offeiriaid a'u cybydd-dra, gan geisio glanhâu y Deml, *Y Tŷ yma* (eb Efe) *yn y dechreuad ydoedd Dŷ Gweddi, lle y gallai y bobl weddïo ynghyd yn dduwiol sanctaidd: ac felly yw eich rhan chwi o'i gynnal ef y pryd hyn hefyd. Herwydd nid adeiladwyd mo hono i fod yn ogof lladron.*

A hefyd, yr holl Dywysogion duwiol clodfawr y mae yr Ysgrythyrau Glân yn mynegi am danynt, a gaent yn enwedig ganmoliaeth yn y cyfryw eiriau a'r rhai hyn: *Ddarfod iddynt rodio yn ffyrdd eu tad Dafydd;* sef yw hynny, am iddynt ddychwelyd at y drefn gyntaf, a'r prif ddechreuad, gan ddwyn drachefn, a datdroi Crefydd i'r perffeithrwydd lle gadawsai y Brenhin Dafydd hi.

Felly, pan welsom ninnau ddarfod i'r gwŷr hyn

[7] 1 Cor. xi. 23.

sathru pob peth dan eu traed, ac nad oedd dim wedi ei adael yn Nheml Dduw onid ôl a thrist-olwg dinystr ac anrhaith, nyni a dybiasom mai callaf cynghor a allem ni gymmeryd oedd rhoi ger bron ein llygaid fraint yr Eglwysi hynny, y rhai a wyddom ni yn hyspys na ddarfuasai iddynt amryfuso, ac na buasai erioed ganddynt nac Offerenau neillduol, na Gweddïau mewn eston-iaith farbaraidd, na llygru Sacramentau, na dim o'r fath ofregedd.

A phan oeddym yn chwennychu newydd-adeiladu Teml yr Arglwydd, ni cheisiasom ni sail arall, ond a wyddem ni ddarfod i'r Apostolion ei osod gynt, sef ein Hachubwr ni Iesu Grist.

XVII. Yn gymmaint hefyd a chlywed o honom ni Dduw ei Hun yn dywedyd wrthym yn yr Ysgrythyr Lân, a chanfod o honom siamplau godidog yr hen Brif-Eglwys; gan weled hefyd mai gwaith anniben oedd disgwyl Cymmanfa-Gynghor, ac annibenach o lawer ydoedd edrych pa helynt a geid wrth hynny; ac yn bennaf dim, gan ein bod yn canfod yn ddigon hyspys beth oedd ewyllys Duw, ac yn gwybod nad rhydd oedd i ni ymorol na gofalu am farn dynion; ni allasom ni ym mhellach geisio cynghor gan gnawd a gwaed, chwaithach gwneuthur y peth oedd ddyledus, a'r peth a wnaeth gwŷr duwiol, a llawer o Esgobion etholedig, yn fynych; sef yw hynny, diwygu ein Heglwysi drwy waith Senedd-Gymmanfa o'n gwlad ein hun [8].

Herwydd nyni a wyddom fod arfer yr hen Dadau o dreio y ffordd yma, cyn dyfod o honynt i'r gyffredin Gymmanfa-Gynghor o'r holl fyd. Y mae etto i'w gweled y pryd hyn reoledigaethau ysgrifenedig yn y Cymmanfa-Gynghorau a gynhaliwyd yn y dinasoedd rhyddion; nid amgen, yn ninas Carthago dan Cyprian, yn Ancyra, yn Neocesarea, yn Gangra, a hefyd yn ninas Paphlagonia [9]; a hynny, fel y mae rhai yn tybied, cyn clywed crybwyll yn y byd am y gyffredin

[8] Provincialis Synodus. [9] *Saes.* "which is in Paphlagonia."

Gymmanfa-Gynghor fawr yn Nicea. Llyma'r modd gynt y cyfarfyddid yn ebrwydd â'r Hereticiaid a elwid Pelagianiaid a Donatistiaid, a hynny trwy ddadleuad neillduol cartrefig, heb Gymmanfa-Gynghor gyffredin. Yn y modd hyn hefyd, pan gymmerodd yr Amherawdwr Cystennyn yng ngwydd pawb blaid Auxentius, Esgob o'r teulu Ariaidd, yna yr Esgob Cristionogol Athanasius a nawdd-giliodd, nid at y Gymmanfa-Gynghor gyffredin, lle yr oedd efe yn canfod na ellid cael lles yn y byd (o ran y rhwysg yr oedd yr Amherawdwr yn ei ddwyn, a'r ymbleidio oedd yno), eithr at ei ddysgedigion a'i bobl ei hunan; sef ywhynny, at Senedd-Gymmanfa yn ei wlad ei hun.

XVIII. Felly y gwnawd ordinhâd yn y Gymmanfa-Gynghor yn Nicea, ar i'r Esgobion ymgynnull ac ymgasglu ynghyd ym mhob un o'u bröydd ddwywaith yn y flwyddyn; neu, o'r hyn lleiaf, yn ol Cymmanfa-Gynghor yn Carthago, unwaith bob blwyddyn; yr hyn ordinhâd a wnawd (medd y Gymmanfa-Gynghor a gynhaliwyd yn Calcedonia) megis pwy gynted ag y dechreuai amryfusedd neu gamweddau darddu allan yn un lle, y gellid ar y cais cyntaf eu gwrthladd hwy yn y fodfedd lle y dechreuent.

Felly hefyd pan wrthododd Palladius a Secundus y Cynghor yn Aquileia, er mwyn nad oedd ef Gynghor cyffredin, e attebodd Ambros, Esgob Milan, na ddylai neb dybied mai peth newydd dïeithr oedd clywed fod Esgobion y Gorllewin yn dyfyn Seneddau a Chynnulleidfäau yn eu gwledydd eu hun. Herwydd peth cynnefinol fuasai hynny ym mlaen-llaw gan Esgobion y Gorllewin, a pheth a arferasai Esgobion Groeg ei wneuthur yn fynych iawn. Felly y mynnodd yr Amherawdwr Siarl Fawr gynnal Cynghor neu Senedd yng ngwlad Germania, i droi delwau ymaith, yn erbyn yr ail Gymmanfa-Gynghor yn Nicea. Ac yn wir, yn ein plith ni ein hunain, nid newydd na dïeithr mo hyn o helynt. Herwydd fe fu gennym ni yma yn Lloegr Senedd-Gymmanfäau cyn hyn, ac ni a lywodraethasom ein Heglwysi drwy nerth Cyfreithiau

cartrefig. Pa raid ychwaneg? Dïau am y Cymmanfa-Gynghorau mwyaf a lluosoccaf a'r a fu erioed, o'r rhai y mae y gwŷr hyn yn gwneuthur cymmaint ffrost a rhodres, o cystedlir hwy â holl Eglwysi yr holl fyd sy'n cydnabod ac yn cyfaddef Enw Crist, beth a ellir tybied am danynt amgenach na'u bod hwy yn Gynghorau Esgobion neillduol, ac yn Seneddau gwledydd ar eu pennau eu hun? Oblegid pe rhoem ag ymgynnull ynghyd o'r Ital, Ffraingc, Hispaen, Lloegr, Germania, Denmarc, a Scotland; etto er hynny, o bydd diffyg o Asia, Groeg, Armenia, Persia, Media, Mesopotamia, yr Aipht, Ethiopia, India, a Mauritania, yn yr holl amryw wledydd hyn y mae llawer o ddynion Cristionogion, a llawer o Esgobion hefyd, pa fodd y dichon neb a fo'n ei gof a'i synwyr dybied mai Cymmanfa-Gynghor penrheithiol drwy yr holl fyd yw y Cynghor hwnnw? Neu, lle mae yn eisieu cynnifer darn o'r byd, pa fodd y gallant hwy ddywedyd, yn lle gwir, fod cydsyniad yr holl fyd ganddynt? Neu pa ryw fath ar Gynghor, dybygwch chwi, oedd yr hwn a gynhaliwyd ddiweddaf yn nhref Trent? Neu pa fodd y gellid galw hwnnw yn benrheithiol trwy yr holl fyd, pan nid ymgynnullasai iddo o holl deyrnasoedd a chenhedloedd Cred onid deugain o Esgobion yn unig, a rhai o'r rhai hynny mor gymmen ag y buasai gymmesur eu danfon hwy adref drachefn i ddysgu Grammadeg, a hefyd mor ddysgedig na ddarllenasent hwy erioed mo'r Ysgrythyrau Glân[1]?

Beth bynnag ydyw, nid yw Gwirionedd Efengyl Iesu Grist yn mynnu cael dal pwys cefn iddo gan Gymmanfa-Gynghorau, neu gan farn dynion marwol, fel y dywedodd Paul[2]. Ac os y rhai a ddylent fod yn ofalgar am Eglwys Dduw ni cheisiant mo'r synwyroli, eithr esgeuluso y peth a weddai iddynt, a chaledu eu calonnau yn erbyn Duw a'i Grist Ef, a cherdded rhagddynt gan ŵyr-droi ffyrdd uniawn yr

[1] Divinity. *Saes.* [2] 1 Cor. iv. 3.

Arglwydd, e wna Duw i'r cerrig godi a chyffroi, ac a wna y plant ieuaingc yn gymmen, fel na bo un amser eisieu rhyw rai neu gilydd i wrthladd eu celwyddau hwy. Oblegid e ddichon Duw (nid yn unig heb Gymmanfa-Gynghorau, eithr beth bynnag a wnel y Gymmanfa-Gynghorau ai mynnu ai peidio) ddiffyn a goruwch gynnyddu ei Deyrnas Ef.

*Llawer o feddyliau* (medd Solomon[3]) *sydd yng nghalon dyn, eithr cynghor yr Arglwydd a saif yn ddianwadal. Herwydd nid oes na doethineb, na gwybodaeth, na chynghor, a ddichon fod yn erbyn yr Arglwydd. Nid parhaus* (medd Hilari[4]) *mo'r pethau y mae dynion yn eu hadeiladu: rhaid yw adeiladu a chadw adeiladaeth yr Eglwys mewn modd arall: oblegid e ddarfu gosod yr Eglwys ar wadnau a gwaelod-feini yr Apostolion a'r Prophwydi, a'i chynnal ynghyd y mae y Gongl-faen unig, yr hwn yw Iesu Grist*[5].

XIX. Eithr godidog dros ben, a chymhwys iawn i'r amseroedd hyn, yw geiriau Sanct Ierom[6]: *Pa rai bynnag* (medd efe) *a ddarfu i'r Diafol eu twyllo, gan eu denu i gysgu megis trwy felus-gân felldigedig y Môr-forwynion, deffro y rhai hynny y mae Gair Duw, gan ddywedyd wrthynt, Cyfod di yr hwn wyt yn cysgu; ymdderchafa i fynu, a Christ a rydd i ti oleuni*[7]. *Ac am hynny yn nyfodiad Crist, yn nyfodiad Gair Duw, yn nyfodiad yr Athrawiaeth Eglwysig, ac yn nyfodiad amser cwbl-ddistrywiad Dinas Ninife, a'r Buttain deccaf ei phryd a'i gwedd, yna y codir i fynu y bobl a fuasent mewn trymgwsg o'r blaen dan eu Meistriaid, a hwy a frysiant i fynyddoedd yr Ysgrythyrau Glân; ac yno y cânt hwy fynyddoedd Moses, a Iosuah fab Nun; mynyddoedd eraill hefyd, sef yw y rhai hynny, y Prophwydi; a mynyddoedd y Testament Newydd, sef, yr Apostolion a'r Efengylwyr. A phan fo'r bobl yn ffoi am noddfa i'r mynyddoedd hyn, a phan font gynnefinol yn narlleniad y cyfryw fynyddoedd hynny, er na fedront*

[3] Diar. xix. 21. [4] Ar y Psalm cxvi. [5] Eph. ii. 20.
[6] In prophetam Naum, cap. iii. ad finem. [7] Eph. v. 14.

*hwy gael neb i'w dysgu (herwydd mawr fydd y cynhauaf, ac ni bydd nemawr o weithwyr), etto ewyllys da y bobl a haedda glod, er mwyn ffoi o honynt i'r cyfryw fynydd-oedd; ac esgeulusdra eu Meistriaid a argyhoeddir.* Dyma ddywediad Ierom, a hynny mor hawdd ei ddeall nad rhaid dehongli mo hono. Oblegid y mae efe mor gyfattebol i'r pethau a welwn ni yr awrhon â'n llygaid wedi dyfod i ben, ac y gellir tybied fod yn ei fryd ef brophwydo ym mlaen-llaw, a rhoi yn amlwg ger bron ein gwynebau ni (drwy ryw yspryd prophwydoliaeth) holl helynt a chyflwr y byd sydd o honi yr awrhon; distrywiad y buttain Babilon yn llawn gwychder; adnewyddiad braint Eglwys Dduw; dallineb a mus-grellni yr Esgobion; ac ewyllys da a chwannogrwydd y bobl. Herwydd pwy sy mor ddall, ag na wêl efe mai y gwŷr hyn yw y Meistriaid hynny, dan y rhai, medd Ierom, yr arweiniwyd y bobl i amryfusedd, ac y dygpwyd hwy i gysgu? Neu pwy nid yw yn canfod Rhufain, sef y Ninife o'r eiddynt hwy, yr hon a baentiesid gynt â lliwiau hyfryd, eithr yr awrhon, gan dynnu ei miswrn, y mae yn haws yr olwg, ac yn llai y pris arni? Neu pwy ni wêl, gan ddeffroi gwŷr da o'u trymgwsg wrth oleuni yr Efengyl, ac wrth glywed llais Duw, ddarfod iddynt gymmeryd y ffordd yn uniawn i fynyddoedd yr Ysgrythyrau Glân, heb geisio mo'r ymaros am Gynghorau y cyfryw Feistriaid?

XX. Ond trwy eich cennad, medd rhyw un, ni ddylesid cychwyn ynghylch y pethau hyn heb orchym-yniad Pab Rhufain, yn gymmaint ag mai efe yn unig yw cwlwm a rhwymyn y Gymdeithas Gristionogol; mai efe ei hunan yw yr Offeiriad hwnnw o urdd Lefi, a fynegodd Duw yn y Deuteronomium, oddi wrth yr hwn y dylid ceisio cynghor mewn anghyflwr, a chyrchu barn Gwirionedd. A phwy bynnag nid ymufuddhâo i'w farn ef, mai rhaid ydyw lladd hwnnw yng ngwydd ei frodyr: na ddichon neb byw yn y byd mo'i farnu ef, beth bynnag a wnelo: fod Crist yn teyrnasu yn y Nef, ac yntau ar y ddaear: gallu o hono ef yn unig wneuthur beth bynnag allo Crist, neu Dduw ei Hun,

er mwyn bod ganddo ef yr un Cynghor-dŷ ag sydd i Grist: hefyd nad oes hebddo ef na Ffydd, na Gobaith, nac Eglwys; a'r neb a ymadawo âg ef, fod hwnnw yn ymadael ac yn ymwrthod â'i iechydwriaeth ei hun. Llyma y siarad sydd gan y Canonistiaid, coeg wenieithwyr y Pab, heb gywilydd, na gwladeiddrwydd arnynt. Canys braidd y gallent ddywedyd ychwaneg, a dïau na allent ddywedyd dim anrhydeddusach am Grist ei Hun.

Tuag at am danom ni, nid ymadawsom ni ddim â Phab Rhufain, o ran achos nac ystyr, nac elw bydol; neu yn hytrach, ni a fynnem pettai gystal ymddygiad y Pab, na bae raid mo'r ymadael âg ef; eithr yn y cyfryw gyflwr yr oeddym ni, na allem mo'r dyfod at Grist, oddi eithr i ni ymadael â'r Pab. Ac ni wna efe yr awrhon na chymmod na chyflafaredd yn y byd â ni, ond y fath a wnaethai gynt Nahas[s] Brenhin yr Ammoniaid â thrigolion Iabez, a hynny oedd tynnu allan lygad dehau pob un o honynt. Felly y mynnai y Pab dynnu oddi wrthym ninnau yr Ysgrythyrau Glân, Efengyl ein hiechydwriaeth, a'r holl obaith sy gennym yng Nghrist Iesu. A than ammod amgenach na hyn, ni chymmyd ef ddim â nyni.

XXI. Oblegid lle mae rhai yn gwneuthur rhodres mai y Pab yn unig sy berchen Eisteddle Petr Apostol, ac megis o ran hynny fod yr Yspryd Glân ganddo yn ei fynwes, fel na ddichon efe ddigwydd mewn amryfusedd, nid yw hyn onid chwedl ofer, a pheth heb ddim. Rhâd Duw a addawyd i feddwl da duwiol, a fo yn gwir-ofni Duw; ac nid i gadeiriau, nac i eisteddleoedd. *Cyfoeth* (medd Ierom) *a ddichon wneuthur un Esgob yn alluoccach na'r lleill: ond er hynny y mae yr holl Esgobion* (pa wŷr bynnag fyddont) *yn perchennogi Eisteddleoedd yr Apostolion.* Onid rhaid wrth ddim amgen namyn y lle a chyssegredigaeth, yna ynte Manasseh a ddigwyddodd yn lle y Brenhin Dafydd, a Chaiaphas yn lle Aaron. A mynych y gwelwyd

[s] 1 Sam. xi. 2.

eilun-ddelw yn Nheml Dduw. Archidamus, y Lacedemonian gynt, a wnae lawer o rodres am dano ei hun, sef, ei fod ef o waedogaeth Hercules. Eithr un Nicostratus a dorrodd grib ei falchder ef yn y modd hyn: *Nid yw gyffelyb* (eb efe) *dy fod di yn hanfod o Hercules. Herwydd Hercules oedd yn difa dynion drwg, tithau wyt yn gwneuthur dynion drwg o ddynion da.* A phan ffrostiai y Phariseaid o'u hachau, a'u bod hwy o genedl a gwaedogaeth Abraham: *Chwychwi* (ebe Crist) *ydych yn ceisio fy lladd I, yr Hwn a ddywedodd i chwi y Gwir, modd y clywais I gan Dduw. Ni wnaeth Abraham mo hyn erioed. Yr ydych o'ch tad Diafol, a'i ewyllys ef a fynnwch ei gyflawni*[9].

Etto er hynny, moeswch ganiattâu peth i'r Cyfeisteddle; ai y Pab yn unig a ddaeth yng nghyfle Petr Apostol? Ym mha herwydd, attolwg? Ym mha Grefydd? ym mha swydd? ym mha un pwngc buchedd y daeth y Pab yn ei gyfle ef? Dywedwch pa un peth erioed ydoedd gan Petr Apostol yn debyg i'r Pab, neu gan y Pab yn debyg i Petr? Oddi eithr, ysgatfydd, iddynt atteb fel hyn: na cheisiodd Petr erioed pan oedd efe yn Rhufain ddysgu yr Efengyl i ddynion, na phorthodd efe erioed mo'r praidd, dwyn o hono ef ymaith Agoriadau teyrnas Nef, darfod iddo ef guddio cyfoeth ei Arglwydd, na wnaeth efe ddim onid yn unig eistedd yn ei gastell a elwir St. Ioan Lateran, a dangos drwy arwyddoccâd â'i fys holl leoedd Purdan, ac amryw gospedigaethau, rhoddi o hono ryw rai eneidiau truain mewn dirfawr boenau, a rhyddhâu o hono ef rai eraill er gwerth, yn ddisymmwth, ar ei amcan ei hun; neu wneuthur o hono ef ordinhâd ar ddywedyd Offerenau neillduol ym mhob congl; neu swnial o hono ef y Gwasanaeth bendigaid mewn llais isel, ac iaith estronaidd; neu ddarfod iddo ef osod i fynu y Sacrament ym mhob Teml, ac ar bob Allor, a hefyd mynnu dwyn y Sacrament amgylch ogylch o'i

[9] Ioan viii. 40, 41.

flaen ef ar farch rhygyngog, â chlych ac â chanhwyllau, pa ffordd bynnag yr elai: neu gyssegru o hono ef â'i anadl bendigaid, olew, cwyr, gwlân, clych, careglau, Eglwysi, ac Allorau; neu ddarfod iddo ef erioed werthu Iubileau, rhadau, rhydd-ollyngiadau, adfowsonau, blaen-ddamweiniau, ffrwythydd cyntaf, pallau [1], gwisgadaeth pallau, bullæ [2], maddeuant pechodau, a phardynau; neu fynnu o hono ef ei alw yn Ben ar yr Eglwys, yn Esgob goruchaf, yn Esgob yr Esgobion, neu yn unig sancteiddiolaf; neu gymmeryd o hono ef drwy drais rôl ac awdurdod Eglwysi gwŷr eraill arno ei hun; neu ddarfod iddo ef ryddhâu ei hun oddi tan awdurdod pob Pennaeth a Swyddog lleyg; neu wneuthur o hono ef ryfel, a gosod y Tywysogion ben-ben â'u gilydd; neu, dan eistedd mewn cadair aur, a choron tair-coronog ar ei ben, mewn gwychder anfeidrol Persianaidd, a chanddo deyrn-wïalen frenhinol a Diadem [3] euraid ddisglaeredig yn llawn meini gwerthfawr, mynnu o hono ef farchogaeth felly ar ysgwyddau Pendefigion. Tebyg iawn mai hyn oedd helynt Petr Apostol yn Rhufain gynt, a rhoi o hono ef ar bawb, o un bwy i gilydd, a ddelai yn ei le ef, gynnal y cyfryw helynt.

XXII. Herwydd, llyma'r helynt sy gan Babau Rhufain y pryd hyn; a hynny mor gymmeradwy, ac mor ganmoladwy, megis na bae rydd na gweddaidd helynt yn y byd amgenach. Neu yn y gwrthwyneb, nid hwyrach mai gwell gan y gwŷr hyn atteb, fod y Pab yr amser yma yn gwneuthur yr holl bethau a wyddom ni wneuthur o Betr Apostol gynt: sef, ei fod ef yn cerdded pant a thalar ym mhob gwlad i bregethu yr Efengyl, pob un o'r ddau, yn gyffredinol, ac yn neillduol hefyd o dŷ i dŷ: hefyd fod y Pab yn astud iawn, mewn amser ac allan o amser, mewn tymmor ac annhymmor: ei fod ef yn gwneuthur rhan Efengylwr, yn cwblhâu Gweinidogaeth Crist, mai efe yw Gwyliwr a Gwarcheidwad Tŷ Israel, ei

[1] Simwrau. [2] Gwarantau y Pab. [3] Talaith, coronbleth.

fod ef yn cael attebion ac ymadroddion o enau Duw, ac yn adroddi i'r bobl yr unrhyw bethau ag a gafodd: mai efe yw halen y ddaear, a goleuni y byd: nad ei borthi ei hunan, namyn porthi y praidd, y mae efe: nad ydyw efe yn ymrwystro yng ngoruchwylion a gofalon bydol y bywyd hwn: nac yn arglwyddiaethu ar bobl Dduw, nac yn ceisio gan eraill ei wasanaethu ef, eithr efe ei hun, rhagorach, yn gwasanaethu eraill: ei fod ef yn cymmeryd yr holl Esgobion yn gymdeithion iddo, ac yn gystal gwŷr ag efe ei hunan: mai ymddarostwng y mae efe i Dywysogion, megis i wŷr wedi eu danfon oddi wrth Dduw: ei fod ef yn rhoddi i Cesar y peth sydd eiddo Cesar: a diammeu ei fod ef yn galw yr Amherawdwr yn arglwydd arno, ac yn feistr iddo, fel y gwnai yr hen Esgobion gynt. Os y Pabau y pryd yma nid ydynt yn gwneuthur y pethau hyn, neu ynte, os gwnaeth Petr Apostol y pethau rhag-ddywededig o'r blaen, nid oes achos yn y byd o ffrostio a rhodresu cymmaint, ynghylch enw a Chyfeisteddle Petr Apostol.

XXIII. A llai achos o lawer sydd iddynt gŵyno am i ni ymadael oddi wrthynt, neu géisio ein datdroi ni drachefn i'w Crefydd a'u crediniaeth hwy. E ddywedwyd am un Cobilon, a hanoedd o wlad Lacedemonia, pan ddanfonwyd ef yn Gennad urddol at Frenhin Persia, ynghylch cyflafaredd[4] a chyfammod tangnefedd, a damwain iddo gael tylwyth Llys y Brenhin yn chwareu disiau, yna troi o hono ef yn y fan adref drachefn heb wneuthur dim o'i brysurdeb. A phan ofynwyd iddo paham y darfuasai iddo esgeuluso y peth a orchymynesid drwy awdurdod cyffredin iddo ei wneuthur, efe a attebodd, nad oedd fodd yn ei dyb ef, na buasai yn warth a gwaradwydd mawr i'w wlad ef pe gwnelsai fe gyflafaredd a chyfammod â chwareuyddion disiau. Ond os nyni a glywem ar ein calonnau ddychwelyd eilwaith at y Pab a'i amryfusedd Pabaidd, a gwneuthur cyfammod, nid â chwareuyddion disiau,

[4] Negeswriaeth.

eithr â rhai gwaeth, diffeithiach o lawer, na chwareuyddion; e fyddai hynny, bob un o'r ddau, yn beth goganllyd gwaradwyddus, a hefyd dirfawr enbydrwydd o gynneu llid Duw i'n herbyn, drwy orthrymmu a gorthrechu ein cydwybodau. Herwydd o ddywedyd y gwir, nyni a ymadawsom â'r hwn a welsom ni ddarfod iddo ddallu yr holl fyd er ys llawer can mlynedd. Ni a ymwrthodasom â'r hwn ydoedd arfer, mewn gormod rhyfyg a gorwagedd, o ddywedyd *na allai efe ddigwydd mewn amryfusedd yn y byd*, a pheth bynnag a wnelai efe, *na allai neb byw farnu mo hono*, sef, *na Brenhinoedd, nac Amherodrau, na'r holl Wŷr Eglwysig*, na'r holl bobl chwaith, ïe, pe rhown ag iddo ddwyn gyd âg ef fil o eneidiau i uffern. E ddarfu i ni ymadael â'r hwn oedd yn cymmeryd arno awdurdod, a gallu o hono ef orchymyn, nid dynion yn unig, eithr Angylion Duw, i fyned ac i ddyfod, i ddwyn eneidiau i'r Purdan, a'u dwyn hwy oddi yno drachefn pan fynnai efe: yr hwn y dywedodd Gregori yn ddigon hynod am dano, mai efe yw Rhagflaenor a Llummanydd[5] Anghrist, a darfod iddo gwympo ymaith oddi wrth y Ffydd Gatholig: oddi wrth yr hwn, ein Blaenoriaid ni, y rhai sydd yr awrhon yn gwrthwynebu yr Efengyl, ac yn gwrthladd y Gwir a wyddant, a giliasant ymaith yn hyn, cymmain un, o'u gwaith eu hunain ac o wir fodd eu calonnau: a hwy a gilient yn chwannog oddi wrtho etto drachefn, oni bae rhag cywilydd a gogan anwadalwch, a hefyd bod y bri y mae y bobl yn ei wneuthur o honynt, i'w rhwystro. O ddibenu, ni a ymadawsom â'r hwn nid oeddem ni rwymedig iddo, a'r hwn nid oedd dim ganddo i ddywedyd drosto ei hunan, ond ni wn i pa ryw ysprydoliaeth (a fynn efe fod) yn y lle y mae fo yn trigo, a chyhyd-barhâd y Gyfeisteddle.

XXIV. Heblaw hynny, nyni (yn bennaf rhai) a ymadawsom âg ef yn gyfiawn ac yn gymmesur iawn. Oblegid ein Brenhinoedd ni, y rhai oeddynt fwyaf eu

[5] Banierydd.

gofal a'u goglud ar Ffydd ac awdurdod Esgobion Rhufain, hwynt-hwy a glywsant drymder yr iau, ac a welsant drawsedd Brenhiniaeth Pabau Rhufain. Canys Pabau Rhufain a ddygasant goron Harri yr Ail, Brenhin y Deyrnas hon, oddi ar ei ben, ac a wnaethant iddo roi heibio holl oruchafiaeth, a myned, fel gŵr heb fri yn y byd arno, drwy ostyngeidd-rwydd ac ufudd-ymbil, at eu Cenhadwr hwy; a hynny megis peth i beri i'w holl ddeiliaid ef chwerthin gwatwar am ei ben. Hefyd, hwy a gyffröasant ac a godasant mewn arfau yr holl Esgobion, Myneich, a rhai o'r Pendefigion, yn erbyn y Brenhin Ioan, Brenhin y Deyrnas hon, a hwy a ryddhasant y bobl oddi wrth y llŵ a ddarfuasai iddynt dyngu ar fod yn gywir-ffyddlawn i'w Brenhin: yn ddiweddaf, ac yn erchyllaf o'r cwbl, hwy a yspeiliasant y Brenhin hwnnw, nid o'i Frenhiniaeth yn unig, eithr o'i einioes hefyd, trwy fawr greulondeb. Heblaw hyn hefyd, hwy a esgymmunasant ac a fellditliiasant Frenhin Harri yr Wythfed, yr hwn ydoedd Dywysog anrhyd-eddusaf, ac a gyffröasant yn ei erbyn ef, weithiau yr Amherawdwr, weithiau eraill Brenhin Ffraingc; gan wneuthur (gymmaint ddim byth a'r allent) lwyr-ddifrod ac anrhaith o'r Deyrnas hon. Etto digon ynfydion oedd eu pennau hwy, feddwl yr un o'r ddeu-beth, na gallu o honynt, drwy waith bwbachod a rhugl-grwyn, yrru braw ar Frenhin mor alluog ag oedd efe; na chwaith draflyngcu, megis ar un tam-maid, Frenhiniaeth mor brif-ardderchog a hon. Ac megis na bae ddigon ganddynt hyn i gyd, hwy a fynnasant wneuthur yr holl Deyrnas yma yn deyrn-gedol iddynt hwy, a chodi ar y wlad hon dreth ac ardreth anrhaith-oddef bob blwyddyn. Llyma i chwi mor ddrud y prynasom ni gymdeithas tref Rhufain.

Am hynny, gan ddarfod iddynt hwy ein cribddeilio ni am y pethau hyn drwy dwyll a dichellion, ni welwn ni achos yn y byd, na bae rydd i ni drwy foddau cyfiawn, a threfnau cyfreithlawn, ddwyn oddi arnynt y cyfryw bethau drachefn. Ac os ein Brenhinoedd ni

yng nghanol tywyllwch yr amseroedd gynt, o'u gwir garedigrwydd a'u haelder eu hunain, a roisant y pethau hyn iddynt er mwyn Crefydd (ac o ran darfod hudo coel a chrediniaeth y Brenhinoedd drwy ffug-sancteiddrwydd y gwŷr hyn), etto yr awrhon, wedi dosparthu niwl yr amryfusedd, y dichon Brenhinoedd y pryd hyn, y rhai ydynt o'r un galluogrwydd a'r lleill o'r blaen, ddwyn oddi arnynt yr unrhyw bethau. Canys ni thâl dim y rhodd a'r ni bo wedi ei sicrhâu drwy ewyllys y rhoddwr: ac ni ellir tybied mai ewyllys perffaith yw yr hwn a fo wedi ei dywyllu a'i gaethiwo mewn amryfusedd.

## Y DIWEDDGLO.

*Y Testun a Thalfyriad Ystyriaethau hyn o Lyfr.*

---

I. Ti a weli bellach, Ddarllenydd Cristionogol, tu ag at am Grefydd Crist a oresgynwyd drachefn yn hwyr, ac sydd wedi geni eilwaith, nad peth dïeithr anghynnefinol yw cael o'r Grefydd hon ei goganu a'i gwaradwyddo; yn gymmaint a chael o Grist a'r Apostolion yr unrhyw sarhâd. Ond, er hynny, rhag ofn i ti adael dy gam-arwain a'th siommi, wrth glywed y modd y mae ein gwrthwynebwyr ni yn croch-weiddi arnom, e ddarfu i ni ddosparthu yn hyn o lyfr holl agwedd a grym ein Crefydd; sef, beth yw ein coel am Dduw'r Tad, am Dduw yr unig Fab Iesu Grist, am Dduw yr Yspryd Glân,[1] am yr Eglwys, am y Sacramentau, am y Weinidogaeth, am yr Ysgrythyrau Glân, am Ddeddfodau Eglwysig, ac am bob darn o'n Crediniaeth yng Nghrist Iesu. Ni a fynegasom ein bod ni drwy ddirfawr gâs a dygasedd yn ffieiddio, megis pla-heintiau bryntion, a gwenwyn eneidiau, yr holl hen Heresiau, y rhai ydynt euog-farnedig[2], pa un bynnag ai trwy eiriau'r Ysgrythyrau Glân, ai ynte trwy waith yr hen Gymmanfa-Gynghorau gynt: a'n bod ni, oreu byth ag allom am yr hoedl, yn ceisio cyflëu drachefn a gosod mewn braint wir Addysg ac

[1] *Nid oes* dim yn y Lladin yn cyfeirio at yr Yspryd Glân.
[2] *Condemniedig*.

Athrawiaeth yr Eglwys, yr hyn a ddarfu i'n gwrthwynebwyr ni eu cwbl ddinerthu a'u dieneidio. A'n bod ni, drwy nerth hen Gyfreithiau, a thost-hagrwch mwyaf ag allom (fel y dylem), yn llwyr-gospi holl ryfyg, anlladrwydd, ac anllywodraeth buchedd. A'n bod ni yn cadw braint ac yn cynnal bri Brenhiniaethau, yn yr un cyflwr a chymmeriad ag y cawsom ni hwy, heb na lleihâu na newidio dim; gan roddi i'n Tywysogion gwbl barch a goruch-fawredd yn fwyaf ac yn hytraf y gallom. A darfod i ni gilio ymaith oddi wrth yr Eglwys honno, yr hon a ddarfuasai iddynt hwy ei gwneuthur yn ogof lladron, yn yr hon ni adawsant hwy ddim yn ddilygredig a'r a fae cyffelyb i Eglwys Dduw, a'r hon a addefasant hwy eu hunain ddarfod iddi lithro lawer ffordd mewn amryfusedd. O hon, ynte, y ciliasom ni, fel y ciliodd Lot gynt o Sodom, neu Abraham o'r wlad a elwid Chaldea, a hynny nid o ran chwant ymrafael, eithr wrth archiad a rhybuddiad Duw ei Hun. A darfod i ni geisio yn yr Ysgrythyrau Glân didwyllodrus, a thynnu allan o honynt, fath o ffurf sicr ar Grefydd, dan ddychwelyd drachefn at Brif-Eglwys yr hen Dadau a'r Apostolion, sef yw hynny, at y dechreuad a'r drefn gyntaf, megis at sylfeini a gwaelod ffynhonau yr Eglwys.

II. Ac o ddywedyd y Gwir, ni cheisiasom ni yn hyn o achos ddisgwyl am awdurdod a chydsyniad y Gymmanfa-Gynghor yn nhref Trent, lle y gwelsom ni nad oeddid yn gwneuthur dim mewn trefn iawn: lle hefyd yr oedd pawb yn tyngu ar gynnal braint un gŵr[3]: lle ni wneid bri na phris yn y byd ar Genhadau urddol ein Tywysogion ni: lle ni chae un Difinydd[4] na Gŵr Eglwysig o'n Crefydd ni mo'i wrandaw: eithr lle yr oedd ymbleidio ac ymdrechu am oruchafiaeth: o herwydd paham, ni a wnaethom yn y modd y gwnae y Tadau duwiol gynt a'n Henafiaid ni yn fynych, sef, diwygu anghyflwr ein Heglwysi drwy waith Senedd-Gymmanfa o'n gwlad ein hun, gan

[3] Y Pab oedd y gwr hwnnw. [4] Duwinydd.

ysgwyd oddi ar ein gyddfau, fel y dylem, iau a thrawsorthrechiad Pab Rhufain, i'r hwn nid oeddym ni rwymedig: a'r hwn nid oedd ganddo ddim cyffelyb nac i Grist, nac i Petr, nac i un Apostol, na dim chwaith cyffelyb i Esgob. Yn ddiweddaf oll, dywedyd yr ydym ein bod ni yn cydfod ac yn cyttuno i'n plith ein hunain ynghylch holl wraidd a sylwedd Crefydd: a'n bod ni, megis âg un genau, un anadl, ac un yspryd, yn anrhydeddu Duw, Tad ein Harglwydd Iesu Grist.

III. Gan hynny, Ddarllenydd duwiol Cristionogol, yn gymmaint a'th fod di yn gweled yr achos a'r ystyr a wnaeth i ni bob un o'r ddau, sef, dwyn Crefydd drachefn i'w braint ddyledus, a hefyd ymadael ac ymwrthod â'r gwŷr hyn; ni ddylait ti mo'r rhyfeddu ddarfod i ni ddewis ymufuddhâu i'n Meistr Crist, rhagor nag i ddynion daearol. Paul Apostol a'n rhybuddiodd ni, na adawem mo'n cam-arwain drwy yr amryw athrawiaethau hynny; ac ar gilio o honom yn enwedig oddi wrth y rhai a hauent ymryson ac amrafaelion yn ngwrthwyneb i'r addysg a dderbyniasent gan Grist a'r Apostolion. Y mae twyll a dichellion y gwŷr hyn, er ys talm o amser bellach, yn diflannu ac yn cilio yn ol ger bron golwg a goleuad yr Efengyl, yr un agwedd a'r dylluan wrth godiad a thywyniad yr haul. Ac er darfod iddynt adeiladu a chodi eu twyll-hudoliaeth cyfuwch a'r wybr, etto y mae efe yn cwympo i lawr drachefn megis mewn tro llaw, ac o'i waith ei hun, yn ei herwydd[5]. Canys ni ddylit ti dybied ddigwyddo yr holl bethau hyn drwy antur, ac nad oes wybod pa fodd: ewyllys Duw oedd mynnu taenu Efengyl Iesu Grist ar led trwy y byd yr amser yma, a hynny gan mwyaf yn erbyn ewyllys pawb. Ac am hynny, wedi i eiriau Duw erchi iddynt, y trodd dynion o'u gwirfodd at Athrawiaeth Crist. O'n rhan ein hunain, yn wir Dduw, ni cheisiasom ni gael oddi wrth hyn o beth, na chyfoeth, na thra-

[5] Yn rhywfodd.

chwantau, nac esmwythdra: oblegid digon aml yw y pethau hyn gan ein gwrthwynebwyr ni. A phan oeddym ni ar eu tu hwy, yr oedd yn ehangach arnom o lawer am gaffaeliad a mwynhâd y fath bethau bydol a'r rhai hyn.

IV. Nid ydym ni ychwaith yn gwrthod cymmod a heddwch; eithr o ran heddychu â dyn, ni fynnwn ni mo'r rhyfela â Duw. *Melus a hyfryd yw enw heddwch* (medd Hilari); *ond etto un peth yw heddwch* (eb efe), *a pheth arall yw caethiwed.* Herwydd o caent hwy yr helynt â fynnent, sef, peri i Grist dewi, bradychu Gwirionedd yr Efengyl, rhagrithio amryfusedd gwarthus, bwrw hud ar lygaid y Cristionogion, a gwneuthur cydfwriadaeth goleu yn erbyn Duw: nid cymmodheddwch, eithr cam-ammod caethiwed, fyddai hynny. *Rhyw fath ar heddwch sy ddiles* (medd Nazianzen), a thrachefn, *mewn rhyw fath ar anheddwch y mae lles.* Chwennychu heddwch yn ammodol a ddylem ni, cyn belled ag y bae deilwng ger bron Duw, a chymmaint fwyaf ag allom. Herwydd amgenach na hyn, nid Heddwch, ond Cleddyf, a ddygodd Crist i'r byd.

V. A chan hynny o mynn y Pab i ni gymmod âg ef, ei ran ef yw ceisio gan Dduw gymmodi âg ef ei hun yn gyntaf. *Dechreu tŵf Scismau* (medd Cyprian), *ydyw eisieu myned dynion at y pen, a dychwelyd at ffynnon yr Ysgrythyrau Glân, ac eisieu cadw gosodedigaethau a gorchymynion yr Athraw nefol. Canys eisieu gwneuthur hyn sy Ryfel, ac nid Heddwch* (medd efe). *Ac nid cyssylltiedig â'r Eglwys mo'r neb sydd wahanedig oddi wrth yr Efengyl.* Ond am y gwŷr hyn, eu harfer hwy i'w gwneuthur marchnad a marsiandiaeth[6] o enw Heddwch. Herwydd nid amgen na Thangnefedd' boliau segurllyd yw yr heddwch hwnnw y maent hwy yn ei geisio mor chwannog. Hawdd fyddai gwneuthur cymmod a chyflafaredd rhyngddynt hwy a ninnau, oni bae fod chwant goruchafiaeth, a glythineb, ac anllywodraeth yn ei rwystro.

[6] Masgnach, trafnidiaeth.

Llyma i chwi paham y mae y tuchan; eu bryd hwy sydd ar eu boliau. Eu holl nâd a'u trin ydyw am gadw, drwy gywilydd a gwarth, a ennillasent hwy drwy waradwydd.

VI. Achwyn arnom ni y pryd hwn y mae pardynwyr[7] y Pab, a'i roddwyr, ardrethwyr, llatteion, ac eraill, y rhai sy'n tybied mai elw bydol yw Duwioldeb, heb wasanaethu Crist, eithr eu boliau eu hunain. Gynt gyntoedd y bu elw anianol i'r fath ddynion a'r rhai hyn; a thybied y maent eu bod hwy yn colli, beth bynnag y mae Crist yn ei ennill. Am hynny mae y Pab yn cwyno ddarfod i gariad perffaith oeri a fferu; er mwyn nad ydys yn talu ardreth iddo ef cyn helaethed ag yr oeddid arfer. O ran hyn y mae efe yn peri ein cashâu ni fwyaf dim byth a'r a allo, gan regu arnom, a'n bwrw yn euog o Heresi: megis y tybio y sawl nid ydynt gydnabyddus â'n hachos, nad byw mo'n gwaeth ni. Etto, er hyn i gyd, yn y cyfamser, nid oes mo'r cywilydd arnom, ac ni ddylem mo'r cywilyddio o achos yr Efengyl. Herwydd mwy gennym am ogoniant Duw, nac am fri dynion. Nyni a wyddom mai gwir yw yr holl bethau yr ydym ni yn eu dysgu; ac ni allwn ni na myned yn erbyn ein cydwybodau ein hunain, na dwyn tystiolaeth yn erbyn Duw. Canys o gwadwn ni ddarn yn y byd o Efengyl Iesu Grist ger bron dynion, yntau a'n gwada ninnau ger bron ei Dad. Ac od oes rai a fynnant byth gymmeryd achos anfoddlondeb, ac na allant oddef Athrawiaeth Crist, deillion, meddwn ni, a thywyswyr deillion, yw y rhai hynny: etto, nid anllai, rhaid i ni bregethu a gosod allan y Gwirionedd o flaen pob peth, a hefyd disgwyl trwy ddioddefgarwch am farn Duw.

VII. Yn y cyfamser, edryched y gwŷr hyn beth a wnelont, a meddyliant am eu hiechydwriaeth, peidiont a chashâu ac erlid Efengyl Mab Duw, rhag ofn iddynt ryw amser gael Diwygwr a Dialwr o hono Ef yn ei Achos ei Hun. Ni oddefa Duw mo'i watwar. Y

[7] Maddeuedigion.

mae dynion yn canfod, er ys dyddiau bellach, beth yr ydys arno. Am y fflam yma, pa fwyaf y cadwer hi i lawr, mwy-fwy y cyfyd ac y cynnydda hi. Ni wna eu hanffyddlondeb hwy mo ffyddlawn addewid Duw yn ofer. Ond os hwy ni fynnant roi heibio hyn o galedrwydd calon, a derbyn Efengyl Crist, dïau ynte yr aiff Publicanod a phechaduriaid o'u blaen hwy i wlad teyrnas Nef.

Duw Tad ein Harglwydd Iesu Grist a agoro eu llygaid hwy i gyd, i allu gweled y gobaith sanctaidd i'r hwn y darfu eu galw, fel y gallom ni i gyd yn un ogoneddu yr Un Hwnnw sydd wir Dduw, a'r Un Iesu Grist, yr Hwn a ddanfonodd Efe i lawr attom o'r Nef: i'r Hwn, ynghyd â'r Tad a'r Yspryd Glân, y rhodder holl anrhydedd a gogoniant yn hollol dragywyddol. Amen.

TERFYN.

LLUNDAIN:
GILBERT A RIVINGTON, ARGRAPHWYR,
ST. JOHN'S SQUARE.

7